

theurbanists perConsulting



Cynllun Creu Lle Caernarfon

Awst 2023

CYNNWYS

1.0	CYFLWYNIAD.....	3
2.0	ASESIAD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL.....	5
3.0	DADANSODDIAD PERFFORMIAD CANOL TREF CAERNARFON.....	19
4.0	RHESYMEG AM YMYRIAD.....	34
5.0	GWELEDIGAETH AC AMCANION CAERNARFON.....	38
6.0	YMYRIADAU ARFAETHEDIG I FODLONI AMCANION.....	42
7.0	STRATEGAETH GYFLAWNI A CHYNLLUN GWEITHREDU.....	54

Atodiad 1 – Sylwadau ar Ganol y Dref

Atodiad 2 – Gweithdy Creu Gweledigaeth – Crynodeb o'r Canfyddiadau

Atodiad 3 – Dulliau Cyflawni Posib

Atodiad 4 – Eiddo Gwag

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r **Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Caernarfon** hwn wedi'i baratoi gan dîm ymgynghori ar ran Cyngor Gwynedd. Mae'r tîm ymgynghori yn dîm aml-ddisgyblaethol sy'n cynnwys BE Group, Per Consulting, The Urbanists a Burum.
- 1.2 Roedd pwyslais y Cynllun Creu Lleoedd yn ddealltwriaeth gan Gyngor Gwynedd am yr angen am ymagwedd strategol i ddatblygu canol y dref, gan ystyried newidiadau diweddar i'r farchnad a chanfyddiadau proses ac ymgynghoriadau Ardal Ni. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn cynrychioli ymagwedd gyfannol ar greu lleoedd i ganol tref Caernarfon.
- 1.3 Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi'i ddatblygu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau wrth greu lleoedd a buddsoddi yng Nghanol Tref Caernarfon. Bydd y Cynllun Creu Lleoedd yn llywio datblygiad canol y dref dros sawl blynedd, drwy brosiectau tymor byr, canolog a hir. Mae'r gwelliannau a'r buddsoddiadau hyn wedi'u cynnig yn seiliedig ar broblemau a diffygion a nodwyd yn ystod hyd yr astudiaeth.
- 1.4 Nid yw'r ddogfen yn uwchgynllun llawn ar gyfer canol y dref; yn hytrach, mae'n ddogfen sy'n amlygu cyfleoedd buddsoddi ac ymyrryd posib ac yn cynnig strategaeth gyflawni a chynllun gweithredu i wireddu'r cyfleoedd hyn. Mae wedi'i pharatoi fel dogfen sy'n darparu canllawiau clir i Gyngor Gwynedd a Chyngor Tref Caernarfon o ran nodi rhwystrau a phroblemau.
- Methodoleg**
- 1.5 Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi'i ddatblygu drwy asesu amlochrog o ganol y dref a'i anghenion. Mae'n cynnwys dadansoddi gwaelodlin o'r farchnad eiddo a nodweddion economaidd-gymdeithasol y dref a chanol y dref, yn ogystal â dadansoddiad o le ar y ddarpariaeth bresennol o gyfleusterau a ffurfiau adeiledig canol y dref a'i berthynas â'r ardal ehangach.
- 1.6 Mae paratoi'r Cynllun Creu Lleoedd wedi cynnwys ymgynghori sylweddol, gan gynnwys gweithdy creu gweledigaeth a gynhaliwyd yn y dref lle daeth rhanddeiliaid allweddol ynghyd, gan gynnwys swyddogion y Cyngor, asiantaethau'r sector cyhoeddus, grwpiau cymunedol a grwpiau busnes i nodi cyfleoedd ar gyfer canol y drefn a phennu cyfeiriad i Gaernarfon. Roedd hyn wedi'i ategu gan ymgynghoriadau

unigol pellach â rhanddeiliaid eraill. Mae'r astudiaeth hefyd wedi ystyried canlyniadau'r gwaith ymgynghori blaenorol a wnaed ar gyfer y Fframwaith Adfywio.

- 1.7 Helpodd y camau gwaelodlin ac ymgynghori i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer Canol Tref Caernarfon, a gynigir yn y Cynllun Creu Lleoedd. Mae'r weledigaeth hon wedi'i chefnogi gan amcanion sy'n amlinellu ymhellach y cyfeiriad ar gyfer canol y dref.
- 1.8 Yn unol â'r weledigaeth a'r amcanion, mae cyfres o gyfleoedd ac ymyriadau wedi'u datblygu. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn rhoi manylion am y cyfleoedd a'r ymyriadau hyn mewn Strategaeth Ofodol, yn ogystal â darparu cyfres o brif ddigwyddiadau y byddai'n rhaid ymgymryd â nhw er mwyn gwireddu'r ymyriadau hyn.

Fframwaith Adfywio Ein Hardal – Dogfen Baratoadol y Cynllun Adfywio Lleol (Ebrill 2023) – Ardal Dalgylch Caernarfon

- 1.9 Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn wedi ystyried y Fframwaith Adfywio a gynhaliwyd i Gaernarfon. Mae proses y Fframwaith Adfywio wedi cynnwys ymgynghori â chymuned Caernarfon, y cyfeirir ati yn y Cynllun Creu Lleoedd, gydag ymgynghoriad â rhanddeiliaid ar gyfer proses y Cynllun Creu Lleoedd yn targedu rhanddeiliaid allweddol yn bennaf, yn hytrach nag ailadrodd yr ymgynghoriad â'r gymuned ehangach ar gyfer proses y Fframwaith Adfywio. Mae Fframwaith Adfywio Caernarfon yn berthnasol i dref gyfan Caernarfon yn ogystal ag ardaloedd gwledig cyffiniol, yn hytrach na ffocws y Cynllun Creu Lleoedd ar ganol y dref.
- 1.10 Mae'r Fframwaith Adfywio, Dogfen Baratoadol y Cynllun Adfywio Lleol wedi cynnwys manylion am yr ymatebion mwyaf cyffredin a ddaeth drwy'r broses ymgynghori ac maent yn themâu sy'n gyffredinol gyson â'r rhai hynny a nodwyd yn yr ymgynghoriadau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd. Mae dogfen y Fframwaith Adfywio hefyd wedi cynnwys prosiectau posib i adfywio Caernarfon, gan gynnwys canol y dref ac ardaloedd ehangach, y mae proses y Cynllun Creu Lleoedd wedi'u hystyried.

2.0 ASESIAID ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Cyflwyniad

- 2.1 Mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o nodweddion economaidd-gymdeithasol tref Caernarfon ac, yn ehangach, Gwynedd yn ei chyfanrwydd. Mae'n cyfuno sawl ffynhonnell data gan gynnwys y Cyfrifiad, Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth (BRES) a data'r SYG i greu proffiliau o'r ddau leoliad. Mae'n helpu i roi cyd-destun ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd drwy ddealltwriaeth o'r nodweddion lleol.
- 2.2 Mae'r amrywiaeth ehangaf ar gael ar lefel yr awdurdod lleol, gyda data mwy cyfyngedig ar lefelau is, gan gynnwys lefel y dref.

Poblogaeth

- 2.3 Roedd gan Gaernarfon boblogaeth o 10,359 yn 2020, sef 8.8 y cant o gyfanswm Gwynedd. Fel a amlinellir yn Nhabl 1, yn 2011, roedd poblogaeth Caernarfon yn 9,573. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth i 2020 yn cynrychioli cynnydd o 8.2 y cant, neu 786 o unigolion. Yn ystod yr un cyfnod amser, bu gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd o 121,523 yn 2011 i 117,076 yn 2020, sy'n gyfwerth â gostyngiad o 3.7 y cant. Dros y cyfnod hwn, roedd cynnydd mwy cymhedrol ym mhoblogaeth gyfan Cymru, sy'n gyfwerth â chynnydd o 1.4 y cant.

Tabl 1 – Newid i'r boblogaeth, 2011-2020

	2011	2020	Newid 2011-2020	
			Nifer	Canran
Caernarfon	9573	10359	786	8.2
Gwynedd	121523	117072	(4,451)	(3.7)
Cymru	3063758	3105410	41652	1.4

Ffynhonnell: Nomis, 2023

- 2.4 Yng Nghaernarfon, mae cynnydd yn y boblogaeth o oedran gweithio (16-64) wedi bod o 8.2 y cant, sy'n gyfwerth â 786 o unigolion ychwanegol. Mae hyn yn mynd yn groes i'r tueddian yng Ngwynedd yn ei chyfanrwydd a Chymru, lle bu gostyngiad i'r ddwy o ran nifer yr unigolion o oedran gweithio, gan 6.7 a 2.5 y cant yn eu tro (gweler Tabl 2).

Tabl 2 – Newid i'r boblogaeth o oedran gweithio, 2011-2020

	2011	2020	Newid 2011-2020	
			Nifer	Canran
Caernarfon	5858	6227	369	6.3
Gwynedd	75336	70269	(5,067)	(6.7)
Cymru	1941524	1892679	(48,845)	(2.5)

Ffynhonnell: Nomis, 2023

Y Farchnad Lafur

- 2.5 Mae'r adran ganlynol yn defnyddio data Arolwg y Gofrestr Busnes a Chyflogaeth (BRES) i fesur cyfansoddiad cyflogaeth sectoraidd yng Nghaernarfon a Gwynedd. Dylid nodi bod data BRES yn cynrychioli arolwg sampl o gyflogaeth leol, gyda ffigurau wedi'u talgrynnu. Gan ei fod yn arolwg cenedlaethol, mae gwybodaeth ardal fach yn destun nifer fwy o wallau canran a dylid ei hystyried i gynrychioli tueddiadau eang yn unig. Ar gyfer niferoedd cyflogaeth fach, caiff y ffigurau eu talgrynnu i'r 5 neu 10 agosaf am resymau diogelu data.

Tabl 3 – Newid mewn cyflogaeth yng Nghaernarfon a Gwynedd – 2017 i 2021

Sector	Caernarfon			Gwynedd		
	Swyddi 2017	Swyddi 2021	Newid mewn cyfanswm y swyddi	Swyddi 2017	Swyddi 2021	Newid mewn cyfanswm y swyddi
Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota*	40	0	-40	5000	5000	0
Mwyngloddio a Chwarelu	0	0	0	200	250	50
Gweithgynhyrchu	415	405	-10	3000	3000	0
Trydan, Nwy, Ager, etc.	40	30	-10	250	250	0
Cyflenwad Dŵr, Carthffosiaeth, etc.	200	250	50	1000	800	-200
Adeiladu	175	250	75	3000	3000	0
Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu	1000	950	-50	8000	8000	0
Cludiant a Storio	420	80	-340	1250	1000	-250
Gwasanaethau Llety a Bwyd	650	575	-75	7000	7000	0
Gwybodaeth a Chyfathrebu	195	270	75	2500	2000	-500
Gweithgareddau Ariannol ac Yswiriant	65	70	5	800	400	-400
Gweithgareddau Eiddo Tïrol	75	85	10	700	900	200

Sector	Caernarfon			Gwynedd		
	Swyddi 2017	Swyddi 2021	Newid mewn cyfanswm y swyddi	Swyddi 2017	Swyddi 2021	Newid mewn cyfanswm y swyddi
Gweithgareddau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	275	300	25	2250	2000	-250
Gweithgareddau Gweinyddol a Gwasanaethau Cymorth	75	95	20	1250	1250	0
Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyniad	2500	2000	-500	4000	4000	0
Addysg	410	450	40	6000	6000	0
Gweithgareddau Iechyd Dynol a Gwaith Cymdeithasol	1150	1200	50	10000	10000	0
Y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden	325	275	-50	1750	2500	750
Gwasanaethau Eraill	70	70	0	1250	900	-350
Cyfanswm	8080	7355	-725	59200	58250	-950


Ffynonellau BRES – ONS, 2023

* Nid yw cyflogaeth amaethyddol yn cynnwys gweithwyr sy'n gweithio ar ffermydd

- 2.6 Yn 2021, gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad oedd y sector mwyaf yng Nghaernarfon o ran cyflogaeth, gyda 2,000 o swyddi (27 y cant), Fodd bynnag, hyn hefyd oedd y sector a wnaeth brofi'r dirywiad absoliwt mwyaf mewn cyflogaeth rhwng 2017-2021, gan golli 500 o weithwyr yn ystod y cyfnod o bum mlynedd. Roedd cyflogaeth ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad yng Nghaernarfon yn hanner holl gyflogaeth y sector yn y sir yn 2021, gan amlygu pwysigrwydd Caernarfon fel darparwr rôl y sector cyhoeddus.
- 2.7 O ran niferoedd cyflogaeth, roedd sectorau mawr eraill yng Nghaernarfon yn cynnwys iechyd (1,200 o swyddi) a masnach cyfanwerthu a manwerthu (950 o swyddi). Mae hyn yn amlygu swyddogaeth Caernarfon fel canolfan i wasanaethau. Y sectorau iechyd a masnach cyfanwerthu a manwerthu oedd dau o'r sectorau mwyaf o ran cyflogaeth yng Ngwynedd, gyda 10,000 ac 8,000 o weithwyr yn eu tro.
- 2.8 Yn gyffredinol, bu gostyngiad mewn cyfanswm cyflogaeth yng Nghaernarfon a Gwynedd rhwng 2017 a 2021, gan 725 a 950 o swyddi, yn eu tro.

- 2.9 Mae Ffigur 1 yn dangos canran y newid mewn cyflogaeth yng Nghaernarfon a Gwynedd. Y cynnydd canran mwyaf mewn cyflogaeth yng Nghaernarfon oedd y sector adeiladu, lle bu cynnydd o 42.9 y cant, sy'n gyfwerth â 75 o swyddi ychwanegol.
- 2.10 Roedd cynnydd cryf hefyd yn y sector TGCh yng Nghaernarfon o ran cyflogaeth, a wnaeth gynyddu gan 38.5 y cant, neu 75 o unigolion. I'r gwrthwyneb, bu gostyngiad mewn cyflogaeth TGCh yng Ngwynedd o 20.0 y cant, sy'n gyfwerth â 500 o swyddi. Bu cynnydd iach o ran cyflogaeth mewn sector swyddfa arall, sef gweinyddu busnes, a fu'n gyfwerth â 26.7 y cant, neu 20 o swyddi. Arsylwyd twf mwy cymhedrol yn y ddau sector swyferreddfa arall, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (twf o 9.1 y cant) ac ariannol (7.7 y cant). I'r gwrthwyneb, arsylwyr gostyngiad neu dim newid yng Ngwynedd ar gyfer sectorau swyddfa eraill.
- 2.11 Collodd y sector amaethyddiaeth 100.0 y cant o gyflogaeth yng Nghaernarfon, sy'n gyfwerth â cholli 40 o weithwyr. Mae sectorau eraill a brofodd gostyngiadau sylweddol o ran cyflogaeth yng Nghaernarfon yn cynnwys cludiant (colli 340 o weithwyr, neu 81.0 o'r gweithlu), gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad (colli 500 o weithwyr, neu 20.0 o'r gweithlu), a'r sectorau celfyddydol (colli 50 o weithwyr, neu 15.4 y cant o'r gweithlu). Bu twf sylweddol yn sector y celfyddydau yng Ngwynedd o ran cyflogaeth o 42.9 y cant, sy'n gyfwerth â 750 o weithwyr ychwanegol, gan amlygu pwysigrwydd cynyddol y sector celfyddydol yn y sir. Fodd bynnag, fel a nodir uchod, mae ffigurau'r holl sectorau wedi'u talgrynnu ac maent yn destun gwallau arolwg, er bod y data'n helpu i ddangos tueddiadau twf.

Ffigur 1 – Mewn mewn Cyflogaeth yn ôl Sector, 2017-2021*



Ffynhonnell: BRES, 2023

*Y rhif mewn cromfachau yw nifer y busnesau a ganwyd/gollwyd


Cyniferyddion Lleoliad

2.12 Mae cyniferyddion lleoliad (LQ) yn fesur o arbenigedd ardaloedd mewn economi leol. Mae Ffigur 2 yn dangos y rhain ynghyd â maint y sector yn 2021 (maint y swigen) a'i dwf drwy niferoedd cyflogaeth dros y cyfnod amser 2017-2021.

2.13 Caiff LQs eu dangos ar yr echel fertigol (echel y), gan ddisgrifio cyfran y gyflogaeth mewn sector yng Nghaernarfon mewn perthynas â Chymru yn 2021. Mae'n ffordd o fesur arbenigedd ardal, h.y. os yw sector penodol yn fwy amlwg mewn ardal nag yn y wlad yn ei chyfanrwydd. Mae sgôr o 1.00 yn dangos sector sy'n perfformio ar yr un

lefel a welir yng Nghymru ac mae LQ sy'n uwch nag 1.00 yn awgrymu bod dwysedd mwy o gyflogaeth yn y sector hwnnw yn yr ardal leol, o'i gymharu â'r dwysedd yng Nghymru yn gyffredinol.

Ffigur 2 – Caernarfon: Cyniferyddion Lleoliad vs Cynnydd, 2017-2021




Ffynhonnell: Dadansoddiad BE Group o BRES, 2023

2.14 Mae'r sectorau ar frig y diagram (h.y. ar frig yr echel fertigol) yn dangos y sectorau â graddau uchel o arbenigedd lleol, o'u cymharu â Chymru. Y sector gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyniad sydd â'r gwahaniaeth mwyaf o ran cyflogaeth o'i cymharu â Chymru, a ddengys gan LQ o 3.67.

2.15 Dadansoddwyd arbenigeddau Gwynedd o'u cymharu â Chymru hefyd ac maent wedi'u cynrychioli yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3 – Gwynedd: Cyniferyddion Lleoliad vs Cynnydd, 2017-2021



Ffynhonnell: Dadansoddiad BE Group o BRES, 2023

2.16 Mwyngloddio a chwarelu oedd â'r radd uchaf o arbenigedd o'u cymharu â Chymru gydag LQ o 2.86. Fodd bynnag, mae cyfanswm y gyflogaeth yn y sector yn isel, sy'n esbonio maint bach y swigen. Mae amaethyddiaeth hefyd yn chwarae rôl fwy yn economi Gwynedd nac yng Nghymru, gydag LQ o 2.66. Mae sawl sector yng Ngwynedd yn cynrychioli cyfran debyg o gyflogaeth yng Ngwynedd fel a welir yng Nghymru.

Nifer a Maint Busnesau

2.17 Mae data'r SYG yn nodi bod 5,390 o fusnesau sy'n gofrestrdig ar gyfer TAW yn 2022 sy'n gweithredu yng Ngwynedd. Mae tref Caernarfon yn cynnwys dwy ardal Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA), y mae un yn cynnwys tua thri chwarter canol y drefn (Dwyrain Caernarfon/MSOA 2), ac mae'r llall yn cynnwys ardal fach o ochr orllewinol canol y drefn ac ardal wledig fawr i'r de (Gorllewin Caernarfon a Waunfawr / MSOA 1). Mae'r ddwy ardal hon wedi cael eu dadansoddi ar wahân, ynghyd â Gwynedd, er mwyn ystyried natur fwy gwledig MSOA 2.

2.18 Ar draws y ddwy MSOA sy'n cynrychioli'r opsiwn gorau ar gyfer tref Caernarfon, cofnodwyd rhyw 500 o fusnesau cofrestredig yn 2022. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad bach o 20 o fusnesau ers 2018, yn ystod adeg pan oedd cyfyngiadau'r pandemig wedi'u rhoi ar waith a bu ansicrwydd economaidd yn cynyddu.

Cyfrif Busnesau yn ôl Sector

2.19 Yn MSOA 1 a 2, cwmpodd cyfanswm nifer y busnesau gan 10 yn unig rhwng 2018-2022. Yn MSOA 1, arsylwyd cwmp yn nifer y busnesau yn y sectorau masnach cyfanwerthu a manwerthu (10 busnes), TGCh (5 busnes) a gweinyddu busnes (5 busnes). Fel cymhariaeth, cafwyd cwmp yn MSOA 2 yn y celfyddydau (5 busnes) a sectorau eraill (10 busnes).

2.20 Arsylwyd twf yn nifer y busnesau yn y sectorau cludiant a gwasanaethau llety a bwyd yn MSOA 1, ill dau gan 5 busnes. Bu twf yn MSOA 2 yn nifer y busnesau mewn un sector yn unig, sef adeiladu, wrth i'r sector dyfu o ran maint, o 20 busnes i 25.

Tabl 4 – Cyfrif Busnesau yn ôl Sector, 2018-2022

Diwydiant	Caernarfon - MSOA 1			Caernarfon - MSOA 2			Gwynedd		
	2018	2022	% y newid	2018	2022	% y newid	2018	2022	% y newid
Amaethyddiaeth	45	45	0.0	10	10	0.0	1240	1245	0.4
Mwyngloddio a Chwarelu	0	0	0.0	0	0	0.0	10	10	0.0
Gweithgynhyrchu	15	15	0.0	15	15	0.0	235	240	2.1
Trydan, Nwy ac Ager	5	5	0.0	0	0	0.0	30	35	16.7
Cyflenwad Dŵr	0	0	0.0	0	0	0.0	15	10	-33.3
Adeiladu	35	35	0.0	20	25	25.0	655	720	9.9
Masnach Gyfanwerthu	50	40	-20.0	25	25	0.0	715	670	-6.3
Cludiant	10	15	50.0	5	5	0.0	145	150	3.4
Gwasanaethau Llety a Bwyd	40	45	12.5	20	20	0.0	685	720	5.1
TGCh	20	15	-25.0	10	10	0.0	160	140	-12.5
Ariannol	5	5	0.0	5	5	0.0	40	35	-12.5
Eiddo Tiro	5	5	0.0	5	5	0.0	95	115	21.1
Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnolegol	25	25	0.0	20	20	0.0	385	360	-6.5
Gweinyddu Busnes	20	15	-25.0	15	15	0.0	315	325	3.2
Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyniad	0	0	0.0	0	0	0.0	30	40	33.3
Addysg	5	5	0.0	5	5	0.0	70	80	14.3

Iechyd	15	15	0.0	15	15	0.0	200	190	-5.0
Y Celfyddydau	10	10	0.0	15	10	-33.3	135	135	0.0
Arall	10	10	0.0	20	10	-50.0	180	170	-5.6
Cyfanswm:	315	305	-3.2	205	195	-4.9	5340	5390	0.9

Ffynhonnell: Cyfrifon Busnes, 2023

2.21 Mae Tabl 5 isod yn nodi nifer y busnesau yn ôl maint yn MSOA 1, MSOA 2 a Gwynedd.

Tabl 5 – Cyfrif Busnesau'r DU yn ôl Sector, 2022

Maint y Busnes	MSOA 1		MSOA 2		Gwynedd	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Micro (0-9)	270	87.1	165	82.5	4840	89.8
Bach (10-49)	35	11.3	30	15.0	490	9.1
Canolog (50-249)	5	1.6	5	2.5	50	0.9
Mawr (250+)	0	0.0	0	0.0	10	0.2
Cyfanswm	310	100.0	200	100.0	5390	100.0

Ffynhonnell: ONS, 2023

2.22 Mae gan MSOA 1 a 2 gyfran lai o ficrofusnesau na'r hyn a arsylwyd yng Ngwynedd ar y cyfan, 87.1 ac 82.5 y cant yn eu tro, o'u cymharu â chanran 89.8 y cant yng Ngwynedd. Byddai hyn yn awgrymu bod cyfran fwy o fusnesau mwy sylweddol wedi'u lleoli yng Nghaernarfon na'r gyfran yng Ngwynedd yn ei chyfanrwydd. Dim ond 10 o fusnesau mawr (250+) a gofnodwyd yng Ngwynedd, ac ni chofnodwyd dim un ohonynt yng Nghaernarfon.

Cymhariaeth Swyddi a Busnesau

2.23 Mae'n werth nodi pwyntiau ychwanegol am dwf mewn swyddi a busnesau yn y sectorau amrywiol, gan gynnwys:

- Gallai twf y sector adeiladu o ran cyflogaeth a busnesau awgrymu bod y sector o bwysigrwydd cynyddol i dref Caernarfon.
- Mae cyflogaeth yn y sector masnach cyfanwerthu a manwerthu wedi cwmpo yng Nghaernarfon a Gwynedd. Mae nifer y busnesau yn y sector hwn yng Nghaernarfon hefyd wedi disgyn. Nid yw hyn yn syndod mawr gan gofio effaith pandemig Covid-19 ar fanwerthu mewn canolfannau trefi. Arhosodd cyfanswm nifer y busnesau yng Ngwynedd yn gyson dros y cyfnod o bum mlynedd.

- Yng Nghaernarfon, tyfodd sectorau swyddfa o ran *cyflogaeth*. Fodd bynnag, cwmpodd *nifer y busnesau* yn y sectorau TGCh a gweinyddu busnes.
- Ar y cyfan, cwmpodd cyflogaeth a nifer y busnesau yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, gan gofio'r heriau economaidd a oedd yn berthnasol drwy gydol y cyfnod rhwng 2018 a 2022, mae'n debyg bod hwn yn dueddiad cyffredin mewn trefi bach ledled y DU. Er bu cwmp yng nghyflogaeth yng Ngwynedd, cynyddodd nifer y busnesau, gan nodi gwydnwch cwmnïoedd yn y fwrdeistref sirol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Enillion

2.24 Mae Tabl 6 yn dangos bod enillion preswylwyr yng Ngwynedd, wrth fesur yn ôl gweithle yn sylweddol o is na'r canolrif Cymreig, sef £568.90 o'i gymharu â £598.10. Mae'r un peth yn wir wrth fesur enillion yn ôl man preswyllo, gydag

Enillion Gros Canolrifol yr Wythnos yn £539.30 yng Ngwynedd, o'i gymharu â £603.50 yng Nghymru. Mae hyn yn awgrymu bod bwch mawr rhwng yr enillion y gall gweithwyr eu hennill yng Ngwynedd a'r hyn y gellir ei ennill mewn mannau eraill, gan awgrymu y gallai busnesau ei chael hi'n anodd denu gweithwyr cymwys ar farchnad lafur gystadleuol.

Tabl 6 – Enillion Cyfartalog Wythnosol, 2022

Ardal	Enillion Gros Canolrifol yr Wythnos, £ (Dadansoddiad yn ôl gweithle)	Enillion Gros Canolrifol yr Wythnos, £ (Dadansoddiad yn ôl man preswyllo)
Gwynedd	568.9	539.3
Cymru	598.1	603.5

Ffynhonnell: Arolwg Oriau ac Enillion Blynyddol, 2023

Sgiliau Iaith Gymraeg

2.25 Mae Caernarfon hefyd wedi'i chymharu â Gwynedd a Chymru o ran gallu iaith Gymraeg poblogaethau preswyl. Mae Tabl 7 yn dangos yr ystadegau ar adeg Cyfrifiad 2021 ac yn amlygu i ba raddau roedd poblogaeth breswyl Caernarfon llawer yn fwy hyddysg yn y Gymraeg nac yng Nghymru neu hyd yn oed Gwynedd yn ei chyfanrwydd.

Tabl 7 – Sgiliau Iaith Gymraeg, 2021

Sgiliau Iaith Gymraeg	Caernarfon		Gwynedd		Cymru	
	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Yr holl breswylwyr arferol yn 3 oed ac yn hŷn	9,707	100.0	114,307	100.0	3,018,172	100.0
Gall deall Cymraeg lafar	7,870	81.1	77,017	67.4	661,132	21.9
Gallu siarad Cymraeg	7,900	81.4	73,560	64.4	538,296	17.8
Gallu darllen Cymraeg	7,205	74.2	68,645	60.1	522,411	17.3
Gallu ysgrifennu Cymraeg	7,051	72.6	65,639	57.4	458,464	15.2

Ffynhonnell: Cyfrifiad, 2021

Maint Aelwydydd

2.26 Yn ogystal, cynhaliwyd gwaith dadansoddi ar faint aelwydydd yn y dref ac yn y fwrdeistref sirol. Fel a arsylwyd yng Nghymru ac yng Ngwynedd, mae mwy na 65 y cant o aelwydydd yn cynnwys un neu ddau unigolyn. Fodd bynnag, yn wahanol i Gymru, roedd gan Gaernarfon nifer fwy o aelwydydd un person nac aelwydydd dau berson, gan 3.5 pwynt canran sylweddol. Mewn cymhariaeth, mae gan Gymru nifer uwch o aelwydydd dau berson, gan 3.2 pwynt canran.

Tabl 8 – Maint Aelwydydd, 2021


Maint aelwydydd	Caernarfon		Gwynedd		Cymru	
	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%	Cyfanswm	%
Cyfanswm: Holl le aelwyd	4,420	100.0	51,105	100.0	1,347,114	100.0
1 person yn yr aelwyd	1,559	35.3	17,664	34.6	429,559	31.9
2 berson yn yr aelwyd	1,407	31.8	17,612	34.5	472,906	35.1
3 pherson yn yr aelwyd	725	16.4	7,155	14.0	212,281	15.8
4 person yn yr aelwyd	476	10.8	5,531	10.8	157,455	11.7
5 person yn yr aelwyd	174	3.9	2,157	4.2	52,304	3.9
6 pherson yn yr aelwyd	51	1.2	678	1.3	15,162	1.1
7 person yn yr aelwyd	18	0.4	191	0.4	4,709	0.3
8 person neu fwy yn yr aelwyd	10	0.2	117	0.2	2,738	0.2

Ffynhonnell: Cyfrifiad, 2021

Cymwysterau

2.27 Mae Ffigur 4 isod yn dangos y lefelau o Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) a enillwyd gan y boblogaeth o oedran gweithio yng Ngwynedd a Chymru yn 2021. Gellir gweld bod lefelau cymwysterau NVQ1-4 yng Ngwynedd oll yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gan awgrymu gweithlu cryf yn y fwrdeistref sirol, gan adlewyrchu'n rhannol amlygrwydd Prifysgol Bangor yn yr ardal.

Ffigur 4 – Cymwysterau, 2021



Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol SYG, 2023

2.28 Roedd cyfran y boblogaeth o oedran gweithio heb gymwysterau yn 6.9 y cant, ffigur sydd eto yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ehangach o 8.3 y cant.

Amddifadedd

2.29 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) y mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd perthnasol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bychain hynny lle'r oedd y dwysedd mwyaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae sgôr uchel yn nodi bod gan ardal fwy o amddifadedd, ac mae sgôr isel yn golygu bod gan yr ardal lai o amddifadedd.

2.30 O'r pum Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) sy'n gwneud tref Caernarfon, Peblig (Caernarfon) oedd yn y ddengradd gyntaf, gan awgrymu ei bod ymhlith y 10 y cant uchaf o'r LSOAau â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Sgoriodd Cadnant (Gwynedd) hefyd yn wael o'i chymharu ag LSOAau ledled Cymru, gan gwmpo i'r ail ddengradd. Mae'r ddau LSOA a nodir uchod ymysg y pum ardal fwyaf difreintiedig yng Ngwynedd.

2.31 Fodd bynnag, mae ardaloedd mwy cefnog yng Nghaernarfon, gan gynnwys Menai (Caernarfon), yn nengradd wyth, a Seiont 1, yn nengradd saith. Yr LSOA arall yng Nghaernarfon yw Seiont 2 sydd yn nengradd pedwar wrth ei chymharu â'r holl LSOAau yng Nghymru, ond mae'n un o'r deg ardal fwyaf difreintiedig yng Ngwynedd.

Diweithdra

2.32 Mae Cyfrifiad 2021 yn darparu data ar statws cyflogaeth gweithwyr yn y DU. Mae'r pum LSOA sy'n gwneud Caernarfon wedi cael eu cymharu â Gwynedd a Chymru yn y tabl isod. Mae gan dair o'r pum LSOAau lefel is o ddiweithdra na'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol. Er dim fawr o syndod, roedd gan yr LSOA a sgoriodd isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Penblig (Caernarfon), hefyd y lefel uchaf o ddiweithdra, sef 4.7 y cant, sy'n agos i ddwbl y cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol.

Tabl 9 – Cyfradd Diweithdra, 2021

Ardal	Yn weithgar yn economaidd (ac eithrio myfyrwyr amser llawn): Di-waith	
	Cyfanswm	%
Cadnant (Gwynedd)	40	2.4
Menai (Caernarfon)	43	2.2
Peblig (Caernarfon)	86	4.7
Seiont 1	23	1.8
Seiont 2	47	3.5
Gwynedd	2,440	2.5
Cymru	63,634	2.5

Ffynhonnell: Cyfrifiad, 2021

2.33 Yn gyffredinol, mae diweithdra'n gymharol isel, a allai awgrymu y byddai busnesau'n ei chael hi'n anodd denu gweithwyr sy'n briodol gymwys, a allai effeithio ar ragolygon twf.

Crynodeb a Goblygiadau ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd

2.34 Mae nodweddion economaidd-gymdeithasol Caernarfon yn dangos bod y dref yn ardal sy'n tyfu, gan gynnwys ei phoblogaeth o oedran gweithio. Ar y cyfan, mae gan y farchnad lafur addysg dda a diweithdra isel, er bod pocedi o ddiweithdra uwch yng Nghaernarfon. Mae gan y pocedi hyn lefelau sylweddol o amddifadedd.

2.35 Mae'r sector cyhoeddus yn drech ym marchnad gyflogaeth Caernarfon, gan gynnwys mwy na chwarter holl swyddi'r dref. Fodd bynnag, mae'r sector hwn wedi dirywio o ran cyflogaeth dros flynyddoedd diweddar. Mae sectorau cyflogaeth pwysig eraill yn sectorau gwasanaethau, megis iechyd a manwerthu.

2.36 Mae cyflogau canolrifol cymharol isel a lefelau diweithdra isel yn golygu y gallai busnesau Caernarfon fod yn profi anhawster wrth ddenu'r gweithwyr sy'n briodol gymwys. Gallai hyn effeithio ar gyfleoedd twf i fusnesau yn yr ardal.

2.37 Mae goblygiadau'r dadansoddiad economaidd-gymdeithasol ar gyfer y Cynllun Creu Lleoedd fel a ganlyn:

- Dylai'r Cynllun Creu Lleoedd geisio amrywio'r economi fel na fydd mor ddibynnol ar y sector cyhoeddus ar gyfer cyflogaeth.
- Dylai'r Cynllun gynnwys ymyriadau sy'n helpu i leihau lefelau amddifadedd, gan gynnwys gwella mynediad at wasanaethau, cyfleoedd cyflogaeth ac addysg.
- Dylai'r Cynllun annog cyfleoedd cyflogaeth gwerth uwch drwy leodd cyflogaeth o safon ac amgylchedd busnes cefnogol.



3.0 DADANSODDIAD PERFFORMIAD CANOL TREF CAERNARFON

Cefndir a Chyd-destun

- 3.1 Mae Caernarfon wedi'i nodi fel "Canolfan Manwerthu/Gwasanaethau Dinesig" bwysig yn hierarchaeth canol tref Gwynedd (Cyd-gynllun Datblygu Lleol 2011-2026 – fabwysiadwyd y mis Gorffennaf 2017) ac fe'i bwriadwyd i fod yn ffocws ar gyfer datblygu newydd cynaliadwy; lle byddai Bangor yn ganolfan isranbarthol mwy sylweddol yn gwasanaethu dalgylch ehangach. Mae'r cynllun diweddaraf, Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040, yn cydnabod rôl Caernarfon fel rhan o ardal twf rhanbarthol sy'n cynnwys clwstwr o aneddiadau arfordirol pwysig yng ngogledd Cymru, gan gynnwys Bangor, Caerdybi, a Bae Colwyn a fydd yn ategu Ardal Dwf Genedlaethol i ogledd Cymru o Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.
- 3.2 Er bod llawer o'r ymagwedd polisi cynllunio traddodiadol at ganolfannau tref wedi cael ei llywio'n gyffredinol gan reoli'r swyddogaeth fanwerthu, mae ymagwedd sy'n llawer fwy "cyfannol" yn dod i'r amlwg yng nghyd-destun "Creu Lleoedd" sy'n seiliedig ar ddiffiniad clir o rôl, swyddogaeth a gweledigaeth y lle lleol yn ei gyfanrwydd. Gyda'r newidiadau radical rydym ni'n dyst iddynt o ran sut mae pobl yn defnyddio ac yn rhyngweithio â chanol eu trefi a'r heriau economaidd ehangach yn y sector manwerthu, rhaid i ganol ein trefi ddatblygu a newid, gan fabwysiadu amrywiaeth lawer yn ehangach at ddefnydd a gweithgareddau wrth i ni gyfrannu ar y cyd at fywiogrwydd ac egni lleol a gwir ymdeimlad o le.
- 3.3 Dyma'r cyd-destun mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu'r Cynllun Creu Lleoedd i Gaernarfon ynddo. Mae'r adran hon yn ystyried rôl a hunaniaeth Caernarfon, gan fyfyrion ymhellach ar sut mae canol y dref yn perfformio ar hyn o bryd a'r cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Ond yn gyntaf, byddwn yn myfyrion ar yr heriau economaidd sy'n wynebu canol trefi'n gyffredinol, ac yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19 a mesurau cyfyngiadau symud.
- #### Rôl a Hunaniaeth Caernarfon
- 3.4 Mae Caernarfon yn dref hanesyddol unigryw ar arfordir gogledd Cymru. Mae ganddi statws Treftadaeth y Byd UNESCO ac, felly, mae'n gyrchfan bwysig drwy gydol y flwyddyn gyda chyrhaeddiad rhyngwladol sy'n cuddio ei phoblogaeth o 9,800 o breswylwyr (2021, Cyfrifiad).

3.5 O ganlyniad, mae gan Gaernarfon y lle sawl rôl a swyddogaeth wahanol, gan gynnwys:

- Cyrchfan Dwristaidd a Chanolfan Gwasanaeth – sy'n cynnwys twf yn y boblogaeth yn ôl y tymor.
- Canolfan Gwasanaethu Cymuned Leol – diwallu anghenion preswylwyr lleol drwy gydol y flwyddyn.
- Canolfan Gwasanaethau Cymuned Ranbarthol – cefnogi cefnwlad wledig ehangach.

3.6 Trafodir sut mae Caernarfon yn perfformio yn y rolau hyn yng ngweddill y bennod hon. Mae Atodiad 1 yn cynnig sylwadau am sut mae canol trefi wedi ymateb i heriau economaidd blynyddoedd diweddar.

lechyd a Bywiogrwydd Canol Tref Caernarfon

3.7 Mae'r tabl isod yn cynnig ciplun o gynnis canol tref Caernarfon (gan gynnwys Doc Fictoria) o arolygon gweledol a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2023 a data blaenorol a ddarparwyd gan Experian Goad ar gyfer canol y dref ym mis Hydref 2021. Mae'r rhain wedi'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol sy'n seiliedig ar ddata Experian Goad o 2021.

Tabl 10: Cyfuniad Manwerthu Canol y Dref

Lleoliad	Cyfleustra	Cymhariaeth	Gwasanaeth	Hamdden	Busnes	Yn Wag	Cyfanswm
	% unedau siopau						
Ymweliad 2023							
Nifer yr Unedau	12	70	37	69	32	47	267
% yn ôl defnydd	4.5%	26.2%	13.9%	25.8%	12.0%	17.6%	100%
2021 Goad							
Nifer yr Unedau	14	61	33	51	33	34	226
% yn ôl defnydd	6.2%	27.0%	14.6%	22.6%	14.6%	15.0%	100%
DU 2021	9.2%	27.1%	15.6%	24.6%	9.1%	14.2%	

Ffynhonnell: Arolygon Gweledol Ymgynghori PER a Data Cyfartalog Experian Goad Hydref 2021

3.8 Er y gallai'r union ardaloedd sydd wedi'u cynnwys ym mhob arolwg amrywio ychydig, mae cynnydd o tua 18 uned yn dilyn cwblhau datblygiad Cei Llechu ers cwblhau arolwg Goad yn 2021, sy'n esbonio rhai o'r gwahaniaethau yn nifer y cyfansymiau a

ddengys uchod. Mae arolwg 2023 hefyd yn cynnwys Doc Fictoria yn ffiniau'r dref, er nad yw'n rhan ffurfiol o'r ardal siopa graidd.

- 3.9 Ar y cyfan, ystyried canol trefn Caernarfon i gyflwyno cynnig rhesymol gytbwys, gan gynnal lefel dda o wasanaethau lleol a swyddogaethau busnes (14 y cant a 12 y cant ym mhob un) ynghyd â'r cynnig twristiaeth/hamdden mwy nodweddiadol (26 y cant). Mae'r cynnig cymhariaeth-siopa yn y dref wedi cynyddu mewn nifer mewn gwirionedd i 70 o unedau, er bod lleihad yng nghyfran gyffredinol y dref i 26 y cant mewn blynyddoedd diweddar. Dim ond degawd yn ôl, byddai siopau cymhariaeth yn 40 y cant o gynnig canol tref nodweddiadol ledled y DU.
- 3.10 Fodd bynnag, mae natur y cynnig cymhariaeth yng Nghaernarfon wedi'i dylanwadu'n glir gan rôl dwristiaid orielau celf, crefft a siopau anrhegion y dref. Gellir cysylltu rhyw 40 y cant (31 siop) o gyfanswm y cynnig cymhariaeth ag atyniad y dref.
- 3.11 Mae cynnig "hamdden" Caernarfon wedi cynyddu ychydig ac yn gyffredinol, mae'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth gyfartalog genedlaethol, sef tua 25 y cant o holl unedau canol y dref. Mae hyn rhywfaint yn is na'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan gofio statws twristiaid y drefn a'i gwrthgyferbyniad â chyrchfannau arfordirol mwy nodweddiadol lle gall darpariaeth fod yn draean neu fwy o gynnig y dref yn seiliedig ar gaffis, barau a bwytai. Er enghraifft, mae ein gwaith diweddar yn Sir Benfro yn dangos bod gan y gyrchfan arfordirol Dinbych-y-pysgod 38 y cant o ganol y dref sydd wedi'i neilltuo i ddefnydd hamdden.
- 3.12 Mae'r cynnig "gwasanaeth" lleol (yn nodweddiadol siopau trin gwallt, optegyddion ac asiantiaid teithio) yn 14 y cant, sydd ddim yn bell o ddarpariaeth gyfartalog y DU (15.6 y cant) er bod hwn ychydig yn is na'r hyn a gofnodwyd yn 2021. Mae hyn yn dangos swyddogaeth gwasanaethau lleol pwysig Caernarfon ar gyfer y gymuned breswyl a'r ardal wledig ehangach.
- 3.13 Mae cyfran yr unedau siopau sydd wedi'u meddiannau gan ddefnyddwyr busnes (e.e. banciau, asiantiaid eiddo, cyfreithwyr etc) yng Nghaernarfon wedi lleihau mewn blynyddoedd diweddar i tua 12 y cant yn gyffredinol ond mae dal yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y DU o 9 y cant o ddefnydd canol trefi.

- 3.14 Mae gan Gaernarfon tua hanner y lefel ddisgwyliedig o gynigion manwerthu bwyd (cyfleustra) gyda thua 4.5 y cant o'r holl unedau o'i chymharu â 9 y cant yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys yr archfarchnad Asda sy'n agos i ganol y dref ond mae'n eithrio Tesco a Morrisons sydd ychydig y tu allan i' ardal a ystyrir fel canol craidd y dref.
- 3.15 Yr hyn sy'n peri pryder mwy yw'r cynnydd cyson a pharhaus o gyfradd wacter canol y dref yng Nghaernarfon sydd wedi cynyddu o 15 y cant yn 2021 i bron i 18 y cant ar adeg ymweld â'r safle ym mis Chwefror 2023. Mae hyn yn cymharu â chyfradd wacter gyfartalog sy'n disgyn yn y DU o 14 y cant ac mae ychydig yn uwch na'r cyfartaledd diweddaraf i ganol trefi Cymru o 16 y cant ar ddiwedd 2022.
- 3.16 Mae peth fuddsoddiad wedi bod yn y dref yn ddiweddar. Agorwyd Cei Llechi, y prosiect gweithle fel cyd-fenter rhwng Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon a Galeri Caernarfon yng nghanol 2021, gan ddarparu gweithdai bach a manau oriel yng Nghei Llechi. Mae elusen leol GISDA a Chyngor Gwynedd wedi gweithio ar y cyd i feddiannau hen adeilad Natwest a oedd yn wag, ac mae hwnnw yn y broses o gael ei adnewyddu i fod yn gaffi cymunedol a fflatiau o bobl ifanc sy'n agored i niwed. Mae Castell Caernarfon wedi cwblhau ei waith uwchraddio'n ddiweddar, gan gynnwys llwyfan edrych ac arddangosfeydd newydd.


Ardaloedd Cymeriad Gwahanol yng Nghaernarfon

- 3.17 Mae'r lluniau yn Ffigur 1 drosodd yn amlygu'r nodweddion lle gwahanol ac amrywiaeth y cynnig marchnad leol ar draws ardaloedd gwahanol yng nghanol tref Caernarfon.
- 3.18 Mae'r graffiau'n seiliedig ar ganran yr unedau siopau ym mhob lleoliad yn ôl categori defnyddiol fel a ganlyn:
- Gwerthiannau Bwyd a Siopau Cyfleustra
 - Siopa Cymhariaeth
 - Defnydd Ymwelwyr a Hamdden (caffis etc.)
 - Gwasanaethau Manwerthu (siopau trin gwallt etc.)
 - Masnachol/Busnes (Banciau ac Asiantiaid Eiddo)
 - Unedau Gwag/Ar Gael

3.19 Fel a ddisgrifiwyd yn gynharach, mae canol tref Caernarfon ar y cyfan wedi cadw presenoldeb cryf o ran cynnig siopa cymhariaeth (er bod hwnnw wedi'i dargedu at yr economi ymwelwyr) sydd wedi'i atgyfnerthu gan y cynnig hamdden ond wedi'i gefnogi gan gyfraniad cadarnhaol gan ddefnydd masnachol lleol a gwasanaethau manwerthu sy'n cefnogi'r gymuned breswyl.

- **Stryd y Llyn** yng Nghaernarfon yw'r **brif ardal siopa cymhariaeth** ac mae hefyd yn brif ffocws i fasnachwyr cenedlaethol. Mae lefel gynyddol yr unedau gwag yn destun pryder.
- **Stryd y Bont** sydd â'r presenoldeb cryfaf o ran **defnydd hamdden** mewn ymateb i'r economi ymwelwyr ac un o'r lefelau isaf o unedau gwag yn y dref.
- Mae'r **Maes** hefyd yn canolbwyntio ar gyfleusterau **hamdden/ymwelwyr** ond hefyd yn cynnal presenoldeb **masnachol/busnes** cryf.
- Mae ardal **Penllyn** yn cynnwys siopa fwyd Iceland a siopa cymhariaeth cyffredinol Peacocks ar gyfer y gymuned leol ond mae wedi'i chanolbwyntio'n fwy ar fangreoedd **gwasanaethau manwerthu a masnachol/busnes**.
- **Stryd Bangor** sydd â'r gyfran fwyaf o **unedau gwag** sy'n effeithio ar ansawdd profiad ymwelwyr.
- Mae ardal fasnachol y **Stryd Fawr/Y Dref Gaerog** yn canolbwyntio'n glir ar **ddefnydd ymwelwyr/hamdden** gyda'r rhan fwyaf o gaffis a bwytai yng nghanol y dref, yn enwedig ar Stryd Y Plas i gerddwyr, gan adlewyrchu'r agosrwydd i'r Castell a'r muriau hanesyddol. Fodd bynnag, mae defnydd arall yn yr ardal hon, megis swyddfeydd Cyngor Gwynedd a swyddfeydd eraill.
- Er bod **Cei Llechi** yn dangos dwysedd uchel o gyfleusterau cymhariaeth siopa, mae'r ffocws ar yr **economi ymwelwyr** yn gryf ac wedi'i gefnogi gan gynnig caffi lleol cryf ac yn adlewyrchu'r lleoliad a'r rhesymeg am y datblygu adfywio.
- Mae **Doc Fictoria** yn gyrchfan **hamdden bwysig** gyda dau westy pris rhesymol a chyfadeilad Galeri sy'n bwysig yn rhanbarthol syn cynnwys Sinema a Theatr ynghyd ag unedau busnesau creadigol ar y lloriau uchaf. Mae dwy o'r unedau ar y llawr gwaelod yng nghynllun y prif Doc wedi aros yn wag, gan wthio cyfradd wacter yn yr ardal i fwy na 18 y cant. Mae hyn hefyd yn hepgor bron i hanner y swyddfeydd ar y lloriau uchaf sy'n wag yn y prif gynllun datblygu.


Ffigur 5 – Canol Tref Caernarfon – Ardaloedd Cymeriad




Drawing Title: Caernarfon - Character/Offer Areas
Project: Caernarfon Placemaking Plan

Ffynhonnell: The Urbanists


Caernarfon - Cymeriad/Cynnig




Stryd y Llyn - Cymeriad/Cynnig





Stryd y Bont - Cymeriad/Cynnig




Y Maes - Cymeriad/Cynnig







Stryd Fawr/Y Dref Gaerog - Cymeriad/Cynnig



Cei Llechi - Cymeriad/Cynnig






Ffynhonnell: PER Consulting, 2023

Dosbarthiad Unedau Gwag

3.20 Mae Ffigur 6 isod yn dangos dosbarthiad yr holl unedau gwag yng nghanol tref Caernarfon ar adeg ymweld â'r safle ym mis Chwefror 2023. Mae hyn yn amlygu'r dwysedd o eiddo gwag yn ardaloedd Stryd y Llyn a'r Stryd Fawr yng Nghaernarfon – 13 uned ym mhob ardal o gyfanswm o 45 o unedau gwag.


Ffigur 6: Unedau Gwag Caernarfon yn ôl Lleoliad - 2023



Ffynhonnell: PER Consulting, 2023

3.21 Mae Ffigur 7 yn cyflwyno'r unedau gwag fel cyfran o gyfanswm nifer yr unedau siopa ym mhob ardal, sy'n rhoi awgrym o effaith ar yr ardal gan unedau siopau gwag. Gan gan Stryd Bangor un o'r cyfraddau gwacter uchaf yn y dref, sef rhyw 27% o'r holl siopau yn yr ardal, ac yna Stryd y Llyn a Penllyn sydd ill dau tua 22% ac yn uwch na'r gyfradd wacter gyfartalog i Gaernarfon yn gyffredinol.

Ffigur 7: Cyfraddau Gwacter – Caernarfon yn ôl Lleoliad - 2023



Ffynhonnell: PER Consulting, 2023

Trosolwg o'r Farchnad

Prisoedd Tai

3.22 Yn ôl y wefan eiddo Rightmove, roedd y rhan fwyaf o werthiannau preswyl yng Nghaernarfon dros y flwyddyn ddiwethaf yn eiddo teras gyda phris gwerthu cyfartalog o tua £147,900. Roedd tai pâr yn tueddu i werthu am £225,400 a thai ar wahân yn gwerthu am £335,200 ar gyfartaledd. Roedd y pris cyfartalog cyffredinol ledled Caernarfon yn £213,100, sef cynnydd o 10% ar y flwyddyn flaenorol.

Tabl 11: Prisoedd Cyfartalog Tai 2021

	Cyfartaledd Cyffredinol	Tai ar wahân	Tai pâr	Teras	Newid 20-21
Caernarfon	£213,100	£336,200	£225,400	£147,900	+10%
Bangor	£195,100	£335,400	£212,500	£147,800	-11%
Conwy	£313,000	£434,900	£237,100	£270,500	+9%
Gogledd Cymru	£230,800	£367,800	£222,600	£163,300	+2%
De Cymru	£251,700	£410,900	£243,600	£186,300	+2%

Ffynhonnell: Adolygiad o'r farchnad gan Rightmove 2021

- 3.23 Er bod y farchnad tai yn parhau i fod yn fywiog yng Nghaernarfon, mae prisoedd wedi cwmpo rhyw 11 y cant dros y flwyddyn ddiwethaf ym Mangor gerllaw, ac yn aros yn gymharol dinewid ar draws gogledd a de Cymru yn gyffredinol, fel a ddengys yn Nhabl 2 uchod. Mae newid sylweddol wedi bod yng ngwerthoedd gwerthiannau yn yr anheddiad ymddeol traddodiadol o Gonwy lle mae prisoedd gwerthu yn £313,000 yn gyffredinol.

Rhent ar y Farchnad Fasnachol ac Elw Buddsoddiadau

- 3.24 Ers dirwasgiad economaidd 2008, mae meddiawyr wedi bod yn fwy sensitif am gyfanswm costau meddiannu ac mae landlordiaid wedi bod dan bwysau'n gyffredinol, yn enwedig wrth wynebu effaith Cyfraddau Busnes ar eiddo sy'n wag. Mae llawer o weithredwyr hefyd wedi ceisio cytundebau sy'n gysylltiedig â throsiant â buddsoddwyr ac maent yn herio'r cytundeb prydles "adolygiad rhent i fyny'n unig". Yn dilyn pandemig Covid a chyfyngiadau pellach ar farchnadoedd, mae manwerthwyr wedi cyflymu strategaethau ymadael o lawer o ganolfannau trefi, gan leihau eu hagoredrwydd o ran eiddo a'r risgiau costau cyffredinol. Mae cyfnodau prydles hefyd lawer yn fyrrach na dyddiau cyn y dirwasgiad gyda'r rhan fwyaf bellach yn para am 3 i 5 mlynedd, gydag opsiynau toriad wedi'u cynnwys yn hytrach na'r 15-20 mlynedd o'r gorffennol. Mae hyn oll yn rhoi pwysau ar hyder a dichonoldeb datblygu manwerthu newydd a bydd yn gwaethygu ymhellach wrth i'r economi ymateb i gyfyngiadau ac ansicrwydd pellach yn y farchnad.
- 3.25 Amcangyfrifir bod rhent manwerthu masnachol yng Nghaernarfon tua £12/troedfedd sgwâr i ryw £16/troedfedd sgwâr ar gyfer defnydd caffi/bwyt. Fodd bynnag, mae arwyddion o rent hanesyddol llawer yn uwch o tua £18/troedfedd sgwâr gan fanwerthwyr cenedlaethol yn Stryd y Llyn a fydd yn dylanwadu ar ddisgwyliadau landlordiaid am amser i ddod.
- 3.26 Mae unedau gwag yn natblygiad modern Doc Fictoria yn gofyn am rent sy'n amrywio o £16 - £18.50/troedfedd sgwâr sy'n debygol o fod ymysg yr uchaf yn y dref yn gyffredinol erbyn hyn. Mae'r unedau sydd ar gael o hyd yn araf eu rhentu ac mae cynnig rhagor o ostyngiad ar y prisoedd a ofynnir cychwynnol hyn yn anochel.
- 3.27 Mae elw buddsoddiadau masnachol hefyd yn cael ei ystyried fel wedi'i gyfyngu ac fe'i hamcangyfrifir ei fod o amgylch 9 i 12 y cant a mwy fel 16 i 20 y cant mewn ardaloedd gwerth is canol y dref, gan gyfleu cyfyngiadau'r farchnad ac ansicrwydd dros feddiant tymor hir ac incwm rhent diogel.

Y Farchnad Swyddfeydd Leol

- 3.28 Hyd yma, meddianwyr mawr y sector cyhoeddus sydd wedi bod amlycaf ym marchnad swyddfeydd Caernarfon er bod Llywodraeth Cymru bellach wedi gadael ei phrif adeilad 41,173 modfedd sgwâr Ym Mhenrallt ers 2020. Mae'r eiddo ar y farchnad ar gyfer gwerthiant rhydd-ddeiliadaeth gyda gwerth o £1 miliwn gydag asiantiaid Avison Young.
- 3.29 Mae gan Gyngor Gwynedd lety swyddfa sylweddol yn y dref, a rhagwelir y bydd yn cael eu tanddefnyddio'n sylweddol wrth i staff fabwysiadu arferion gweithio hybrid gyda llai o amser yn cael ei dreulio mewn adeilad swyddfa.
- 3.30 Mewn mannau eraill, mae swyddfeydd proffesiynol mewn ardaloedd bach uwchben siopau ar y llawr gwaelod neu mewn adeilad o swyddfeydd amlwg iawn sy'n wynebu'r Maes hanesyddol. Prin yw'r lle swyddfa sy'n cael ei farchnata yng nghanol craidd y dref ar hyn o bryd, os o gwbl. Mae swyddfeydd modern ar gael yn y datblygiad Doc Fictoria modern, gan ofyn am rent rhwng £9 ac £13/troedfedd sgwâr ond gyda'r anogaeth bresennol o 12 mis heb rent. Mae Galeri hefyd wedi bod yn llwyddiannus wrth ysgogi sector marchnad swyddfeydd greadigol wrth gwblhau ei gyfateilad hamdden a busnes amldeffnydd yn 2005. Mae llawer o'r lle masnachol wedi'i feddiannu'n llawn a dim ond 2 uned sy'n cael eu marchnata gan ofyn am renti cynhwysol o tua £20 - £24/troedfedd sgwâr (sy'n cynnwys amwynderau, glanhau a gwasanaethau derbynfa). Mae hyn yn weddol uchel yn gymharol ond mae meintiau'r unedau'n gymharol fach (180 troedfedd sgwâr) gan gadw'r costau meddiannaeth cyffredinol yn isel o'u cymharu â swyddfeydd traddodiadol ac atyniad amgylchedd a lle diwylliannol bywiog.
- 3.31 Mae'n ddichonadwy y gellir annog mwy o alw ar gyfer mannau gweithio hyblyg tebyg a hybiau desgiau ar alw, yn enwedig rhai sy'n cyd-fynd ag atyniad ansawdd bywyd mewn ardal arfordirol gogledd Cymru yn sgil patrymau gweithio hybrid cynyddol a phellteroedd mwy ar gyfer teithio tymor byr/achlysurol i leoliad swyddfa ganolog.

Rhanddeiliaid y Farchnad Eiddo

- 3.32 Cynhaliwyd ymgynghoriadau â sampl o asiantiaid masnachol lleol i gael dealltwriaeth ehangach o ddeinamig y farchnad leol yng Nghaernarfon. Mae'r safbwyntiau hyn yn farn cynrychiolwyr y sefydliadau yr ymgynghorwyd â nhw ar adeg y trafodaethau ac nid ydynt yn farn Cyngor Gwynedd neu'r tîm ymgynghori.

Tabl 12 – Sylwadau gan Asiantiaid Eiddo Masnachol

Sector	Sylwadau
<i>Diwydiannol</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Galw da am fangreoedd diwydiannol yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, mae trosiant cyfyngedig iawn oherwydd diffyg strôc • O ganlyniad, mae cwmnïoedd yng Nghaernarfon wedi bod yn chwilio am safleoedd ym Mangor a Phenygroes gan fod y ddau leoliad wedi datblygu/adnewyddu llety diwydiannol yn ddiweddar. • Ym Mhenygroes, mae unedau diwydiannol newydd eu datblygu o tua 900 troedfedd sgwâr gyda swyddfa 300 troedfedd sgwâr yn cael ei rentu am £9,000 y flwyddyn (£7.69/troedfedd sgwâr) • Mae unedau ychydig y tu allan i Fangor wedi cyflawni'r canlynol yn ddiweddar: <ul style="list-style-type: none"> ○ Uned 1,937 troedfedd sgwâr: £12,000 y flwyddyn (£6.20/troedfedd sgwâr) ○ Uned 2,292 troedfedd sgwâr: £13,750 y flwyddyn (£6.00/troedfedd sgwâr) ○ Uned 3,100 troedfedd sgwâr: £18,600 y flwyddyn (£6.00/troedfedd sgwâr) • Mae'r galw'n tueddu i fod ar gyfer unedau hyd at 2,000 troedfedd sgwâr. Mae ymholiadau'n dod gan fusnesau bach a lleol yn bennaf nad oes angen unedau mwy a drutach arnynt • Mae enghreifftiau o fusnesau nodweddiadol sy'n gwneud ymholiadau'n cynnwys pethau gwneuthuredig â dur, gweithdai ceir, mannau campfeydd/crossfit, gweithdai pren, etc. • Mae'r rhan fwyaf o stoc ar gael i'w brydlesi ond mae llawer o fusnesau sy'n gwneud ymholiadau'n gofyn a yw landlordiaid yn fodlon gwerthu
<i>Swyddfeydd</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhan fwyaf o ymholiadau am swyddfeydd bach sy'n cynnig lle i ambell unigol • Mae'r mannau swyddfeydd bach yn gyfyngedig ar hyn o bryd, ond pan fyddant ar gael, mae tenantiaid wedi'u canfod yn "weddol gyflym" • Mae'r stoc yn tueddu i fod uwchben mannau manwerthu ac o safon wael • Mae'r galw mwyaf am brydlesi • Nid oes unrhyw le swyddfa o safon uwch ar y farchnad ar hyn o bryd
<i>Manwerthu</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lefelau rhesymol dda o alw am le manwerthu ar hyn Stryd Y Plas, Stryd y Llyn a'r Maes • Fel arfer, caiff premiwm ei dalu ar gyfer unedau ar Stryd Y Plas a'r Maes. Fel enghraifft, mae uned ar Y Maes yn gofyn am £16/troedfedd sgwâr o'i chymharu ag uned o faint tebyg ar Stryd Fawr sy'n gofyn am £14/troedfedd Sgwâr • Mae'r ymholiadau nodweddiadol yn dod o fusnesau lleol megis caffis, siopau anrhegion, siopau elusennol, etc. Prin iawn yw'r diddordeb o frandiau cenedlaethol • Fel arfer, mae unedau manwerthu o safon ganolog • Dywed bod gan Gaernarfon alw da am brydlesi ar gyfer mangreoedd manwerthu o'i gymharu â threfi cyfagos megis Bangor • Yn ogystal, mae galw rhesymol am eiddo buddsoddi yng Nghaernarfon

Ffynhonnell: Ymgynghoriadau ag Asiantiaid Eiddo Masnachol Amrywiol, 2023

4.0 RHESYMEG AM YMYRIAD


- 4.1 Mae gan ganol tref Caernarfon sawl ased allweddol sy'n ei gwneud yn dref ddeniadol i ymweld â hi. Golyga ei lleoliad ar y glannau, sy'n agos i ardal wledig ddeniadol ei bod hi'n fan dechrau da i archwilio gogledd-orllewin Cymru. Yn ogystal â'i hasedau treftadaeth UNESCO, mae gan y dref sawl nodwedd sy'n gallu denu ymwelwyr domestig a rhyngwladol sy'n dymuno mwynhau asedau hanesyddol a naturiol yr ardal.
- 4.2 Fodd bynnag, mae ei darpariaeth o wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer ei phoblogaeth breswyl yn fwy cymedrol. Er bod amrywiaeth dda o gyfleusterau manwerthu ac eraill yng nghanol y dref, mae safon y cyfleusterau'n ddiymhongar ac mae ardaloedd lle mae unedau sylweddol sy'n wag.
- 4.3 Yn benodol, mae'r rhesymeg am ymyrryd yn achos canol tref Caernarfon fel a ganlyn:
- Mae gan ganol tref Caernarfon gyfradd wacter uchel pan ddaw i eiddo masnachol, sef 17.6 y cant. Mae hyn yn cynnwys rhai mangreoedd sydd wedi bod yn wag dros y tymor hir, sy'n lleihau amwynderau canol y dref.
 - Mae gan rai ardaloedd yng nghanol y dref gyfraddau gwacter uwch, ac mae gan Stryd y Bont, Stryd y Llyn a Phenllyn gyfraddau gwacter sy'n uwch nag 20 y cant. Mae'r rhain yn ardaloedd allweddol ar gyfer gwasanaethau manwerthu a'r farchnad breswyl, ac maent yn awgrymu'n gryf bod y farchnad hon yn cael ei gwasanaethu'n wael yn yr ardaloedd hyn.
 - Er bod diweithdra'n gyffredinol yng Nghaernarfon yn gymharol isel, mae pcedi o ddiweithdra yn y dref a phocedi o ddiameddifadedd sylweddol.
 - Y sector cyhoeddus yw'r prif gyflogwr yng Nghaernarfon, sy'n cyfyngu ehangder yr economi a chyfleoedd cyflogi i bobl leol.
 - Mae gan yr ardal lefelau cyflog sy'n is na'r cyfartaledd, sy'n gallu arwain at weithwyr yn gadael yr ardal i chwilio am swyddi â thâl uwch.
 - Mae'r farchnad ymwelwyr yn elfen allweddol o'r economi leol, er bod hyn yn dymhorol iawn. Byddai cynnig drwy gydol y flwyddyn yn helpu i wneud yr economi'n fwy gwydn.

- Mae'r economi hamdden a chyda'r hwyr yng nghanol y dref wedi'i thargedu at y farchnad ymwelwyr, gyda chynnig mwy cyfyngedig i breswylwyr lleol.
- Mae ardal Doc Fictoria wedi'i chysylltu'n wael â gweddill canol y dref, sy'n cyfyngu cyfleoedd i ymwelwyr i un ardal er mwyn ymweld ag ardaloedd eraill yn gyfleus.
- Er eu bod yn agos i'r Castell a'r Maes, nid yw unedau gweithleoedd Cei Llechi mewn lleoliad amlwg a chânt eu diystyru gan ymwelwyr â chanol y dref.
- Mae ardal ehangach Cei Llechi, gan gynnwys y maes parcio, ardaloedd Ymddiriedolaeth yr Harbwr a'r bont i gerddwyr wedi'u nodi fel rhai lle mae angen adfywio ac adnewyddu, gan gynnwys newid/uwchraddio'r bont i gerddwyr, gwella'r amwynderau ac ehangu'r defnydd o'r ardal hon.
- Mae'r pyrth i ganol y dref yn annymunol ac wedi'u diffinio'n wael. Nid ydynt yn annog ymweliadau â rhan graidd canol y dref nac yn cynrychioli Caernarfon fel cyrchfan ddiddorol a deniadol.
- Mae'r angen i ailddatblygu'r drosffordd A4871 i ddwyrain canol y dref yn cynnig cyfle i ailystyried y man mynediad ar Poolside mewn ffordd gyfrannol.
- Amrywiaeth gyfyngedig iawn o fannau gwyrdd a phlanhigion sydd drwy gydol canol y dref.
- Er bod arwyddion i ymwelwyr yn rhoi gwybodaeth am hanes Caernarfon, mae rhai ohonynt yn hen ac mae angen eu hadnewyddu.
- Mae llawer o gynlluniau'r strydoedd a chelfi strydoedd yng nghanol y dref yn hen, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn a Stryd y Bont.
- Mae angen adnewyddu blaenau siopau ar hyn Stryd y Llyn a Stryd y Bont.
- Mae ymwelwyr twristaidd â'r ardal o gefnwlod ehangach yn defnyddio Caernarfon fel canolbwynt ac felly dylai fod seilwaith, gwasanaethau a chysylltiadau i hwyluso ac annog archwilio'r gefnwlod.

4.4 Golyga'r ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd, wrth i bwysau chwyddiant effeithio ar bob rhan o'r economi, fod achos cadarn dros gymorth wedi'i dargedu ar gyfer sectorau allweddol. Mae canol trefi ac ardaloedd twristaidd yn arbennig o agored i bwysau costau byw wrth i ddefnyddwyr fod yn ofalus am wario arian. Bydd ymyriadau i barhau i gefnogi ac adfywio canol y dref yn helpu i gefnogi ac amddiffyn busnesau lleol.

- 4.5 Dylai fod gan Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod lleol, rôl flaenllaw wrth gydlynu ac ysgogi ymyriadau yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, dylai ymyriadau'r sector preifat ac a arweinir gan y gymuned hefyd gael eu hannog, gan annog landlordiaid allweddol yng nghanol y dref i wella ac adnewyddu eu heiddo. Gall y Cyngor gynnig rôl hwyluso a sbarduno wrth annog buddsoddiad o'r sector preifat.

Ffigur 8 Cynllun Cyd-destun



Drawing Title: Caernarfon - Contextual Analysis Plan
Project: Caernarfon Placemaking Plan

theurbanists

Ffynhonnell: The Urbanists, 2023

5.0 GWELEDIGAETH AC AMCANION CAERNARFON

5.1 Mae'r canlynol yn amlinellu'r weledigaeth am ganol tref Caernarfon. Datblygwyd y weledigaeth drwy ddistyllu'r canfyddiadau a'r negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil hon, yn enwedig y gweithdy a gynhaliwyd â rhanddeiliaid, yn ogystal â'r dystiolaeth o'r farchnad a gyflwynwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Gweithdai ac Ymgynghoriadau Rhanddeiliaid

5.2 Cynhaliwyd gweithdy creu gweledigaeth yng Nghaernarfon ym mis Mawrth 2023, gan ddod â rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ynghyd yng Nghaernarfon.

5.3 Darperir crynodeb o'r canfyddiadau o'r gweithdy a'r ymgynghoriadau eraill a gynhaliwyd fel rhan o'r broses Cynllun Creu Lleoedd yn Atodiad 2. Ar y cyfan, nododd y gweithdy gysylltiad cryf â chanol y dref. Mae'r asedau treftadaeth, hunaniaeth Gymreig ac ymdeimlad o gymuned yn agweddau o bwys i ganol tref Caernarfon. Amlygodd y gweithdy'r brwdfrydedd i weld Caernarfon yn datblygu ac yn amrywio, gan ddarparu rhagor o leoedd bywiog sy'n gwasanaethu'r gymuned leol ac yn amlygu holl agweddau hanes a hunaniaeth y dref. Roedd cyfranogwyr y gweithdy'n awyddus i weld gwelliannau i ffurfiau adeiledig canol y dref, yn enwedig blaenau siopau manwerthu a stoc fasnachol hŷn. Roedd gwelliannau i gysylltedd yng nghanol y dref ac i ardaloedd ehangach y dref a'r gefnwlad hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig.

Ymgynghoriadau a gynhaliwyd fel rhan o'r Fframwaith Adfywio

5.4 Roedd y Fframwaith Adfywio'n cynnwys ymgynghori sylweddol â'r gymuned a rhanddeiliaid, sydd wedi cael ei grynhoi yn y Cofnod o'r Sesiwn Ardal Ni – Dalgylch Caernarfon a Dogfen Baratoadol Cynllun Adfywio Lleol. Mae mewnbynnau gan ymgynghoreion a gofnodwyd yn y dogfennau hyn mewn perthynas â chanol tref Caernarfon wedi cael eu cofnodi a'u hystyried fel rhan o'r mewnbynnau ar gyfer paratoi'r Cynllun Creu Lleoedd, gan gynnwys y Weledigaeth.

Ymagwedd at greu gweledigaeth i Gaernarfon

5.5 Cynhaliwyd gwaith paratoi'r weledigaeth i ganol tref Caernarfon wedi'i wneud wrth ystyried y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth, gan gynnwys asesu'r

farchnad eiddo, asesu economaidd-gymdeithasol, ymgynghoriadau/gweithdy, arsylwi yn y fan a'r lle a nodi materion allweddol canol y dref.

- 5.6 Mae'n bwysig y caiff gweledigaeth glir, gryf y gellir ei gwireddu ei mynegi fel datganiad trosfwaol ar gyfer cynllunio pellach yng nghanol y dref. Yn benodol, byddai'r weledigaeth hon yn llywio uwchgyllunio a gwaith adfywio pellach dros y blynyddoedd i ddod. Dylai fod yn weledigaeth y gall yr holl randdeiliaid yng Nghaernarfon ei mabwysiadu. Felly, mae'r weledigaeth a gynigir wedi ystyried mewnbyn a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod hyd yr astudiaeth.

Gweledigaeth Arfaethedig i Gaernarfon

- 5.7 O'r materion hyn, rydym ni wedi drafftio fersiwn a set o amcanion cysylltiedig.

Mae canol tref Caernarfon yn ganolfan amrywiol a bywiog ac mae wedi'i gydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei asedau treftadaeth a diwylliannol eang a'i hunaniaeth Gymreig. Mae canol y drefn yn ffocws economi ddeinamig, uchelgeisiol sy'n edrych tuag allan.

Mae canol y dref yn gwasanaethu preswylwyr Caernarfon a'r boblogaeth cefnwlad drwy ddarparu amrywiaeth eang o gyfleusterau manwerthu, masnachol, hamdden, cymunedol, dinesig, diwylliannol, creadigol, tai, addysg a chymdeithasol. Mae canol y drefn yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr ac mae ganddo economi amrywiol. Mae'n lle deniadol a dymunol i fyw, gweithio a chymdeithasu ynddo.

Mae canol y dref yn rhan graidd o gynnig twristaidd Cymru, gydag amrywiaeth eang o atyniadau a phrofiadau i ymwelwyr sy'n dathlu natur helaeth asedau hanesyddol, diwylliannol a naturiol Caernarfon. Mae economi ymwelwyr Caernarfon yn eang, yn weithredol drwy gydol y flwyddyn ac yn gynaliadwy.

Amcanion

- 5.8 Cynnig yr amcanion canlynol i gefnogi a gwireddu'r weledigaeth uchod i ganol tref Caernarfon. Mae'r amcanion hyn yn helpu i fynegi'r weledigaeth ac, yn eu tro, cynnig sylfaen ar gyfer yr amrywiaeth i ymyriadau arfaethedig yn hwyrach yn y ddogfen hon.
- 5.9 Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r amcanion ar gyfer canol tref Caernarfon, gydag esboniad ar gyfer pob amcan.

Tabl 13 – Amcanion Canol Tref Caernarfon

Amcan	Sylwadau
Canol tref mwy amrywiol	<p>Mae canol y dref yn cynnig dwy briif swyddogaeth – gwasanaethu anghenion cyfleustra preswylwyr lleol a bod yn atyniad ymwelwyr. Mae sylfaen gyflogaeth Caernarfon wedi'i chanolbwyntio'n fawr ar y sector cyhoeddus.</p> <p>Gellir gwella'r swyddogaeth breswyl drwy ddarpariaeth well o gyfleusterau manwerthu (gan gynnwys amrywiaeth gweithredwyr, ansawdd blaenau siopau, etc.), gwasanaethau lleol priodol, cyfleusterau cymunedol ac opsiynau hamdden i breswylwyr lleol. Gellir gwella'r swyddogaeth i ymwelwyr drwy alluogi ymwelwyr i ddarganfod natur helaeth treftadaeth Caernarfon, ei sector celfyddydol/creadigol a'i hamgylchedd naturiol. Bydd ehangu'r sylfaen gyflogaeth, drwy annog rhagor o fuddsoddiad yn y sector preifat a thwf, yn cynnig dewis mwy o swyddi i bobl leol er mwyn cadw'r gweithle lleol ac annog gweithwyr i'r ardal.</p>
Canol tref mwy cysylltiedig	<p>Mae gan ganol y drefn sawl elfen wahanol, gan gynnwys y Castell a'r dref gaerog, Y Maes, Stryd y Llyn, Stryd y Bont, Doc Fictoria, Cei Llechi, Pool Side, sy'n gwasanaethu swyddogaethau gwahanol. Gall cysylltedd ffisegol rhwng rhai o'r elfennau hyn fod yn aneglur i rywun nad yw'n gyfarwydd â chanol y dref.</p> <p>Mae'r pyrth i ganol y dref yn annymunol ac nid ydynt yn amlwg iawn fel pryd bwyntiau mynediad i'r dref. Bydd gwelliannau i'r amwynder a ffurfiau adeiledig yn y pwyntiau mynediad hyn o fudd i ganfyddiadau cyffredinol o ganol y dref.</p> <p>Mae asedau naturiol o amgylch Caernarfon yn atyniadau allweddol i'r rhanbarth. Bydd gwella'r cysylltedd â'r ardaloedd hyn, gan gynnwys teithio llesol a chluant cyhoeddus, o fudd i ganol tref Caernarfon fel canolbwynt a'r ardaloedd gwledig amgylchynol.</p> <p>Fodd bynnag, mae canol tref cysylltiedig yn ehangach na chysylltiadau ffisegol yn unig. Mae gan Gaernarfon hunaniaeth Gymreig gref, mae'n Gymraeg yn ffynnu ac mae ganddi hanes cyfoethog ac mae'n bwysig cefnogi a gwella cysylltiad y gymuned â'r elfennau hyn.</p>
Canol tref mwy cynaliadwy	<p>Mae pobl yn ymweld â chanol y dref yn bennaf mewn ceir, sydd ag effaith fwy ar yr amgylchedd o ran newid yn yr hinsawdd, allyriadau a llygryddion. Byddai lleihau'r ddibyniaeth ar deithio mewn car drwy gynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus a theithio llesol yn gwella cynaliadwyedd canol y dref. Mae hyn yn cynnwys teithio i ardaloedd cefn gwlad.</p> <p>Bydd cynyddu defnydd cyflogaeth a phreswyl o fewn pellter cerdded o'i gilydd ac annog gweithio hybrid i leihau cymudo'n lleihau cludiant sy'n gysylltiedig ag effeithiau amgylcheddol.</p>

Ffynhonnell: BE Group, 2023

- 5.10 Mae'r ymyriadau arfaethedig a'r strategaeth gyflwyno yn y ddogfen hon yn dangos y llwybrau posib i wireddu'r weledigaeth a'r amcanion.

6.0 YMYRIADAU ARFAETHEDIG I FODLONI AMCANION

6.1 Er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r amcanion, mae angen cyfres o brosiectau/ymyriadau penodol y gellir eu cyflawni fel y gall rhanddeiliaid ddeall yn glir y ffyrdd o wireddu'r weledigaeth. Mae'r bennod hon yn amlinellu'r ymyriadau arfaethedig i ganol tref Caernarfon.

6.2 Fel cam cyntaf i fynegi'r ymyriadau, cynhaliwyd dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) ar ganol y dref, sydd wedi'i amlinellu yn y tabl isod.

Tabl 14 – Dadansoddiad SWOT Canol Tref Caernarfon

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> • Asedau hanesyddol sy'n unigryw'r dref (e.e. y Castell, Mur, adeiladau treftadaeth) • Safle yn yr amgylchedd naturiol, ar Afon Menai ac o fewn mynediad hwylus i ardaloedd cefn gwlad deniadol • Promenâd deniadol a gadwyd yn dda sy'n edrych dros Afon Menai a'r Castell sy'n darparu rhodfa i gerddwyr ar hyd ymyl gorllewinol y dref • Defnydd cryf iawn o'r Gymraeg • Sector celfyddydol a chreadigol cryf • Amrywiaeth o unedau manwerthu sy'n cynnwys darparwyr annibynnol lleol a siopau prisoedd rhesymol y stryd fawr • Dewis o ran opsiynau archfarchnadoedd yng nghanol y dref (Asda, Iceland) • Maes â lleoliad canolog sy'n darparu ffocws unigryw i'r dref a lleoliad ar gyfer digwyddiadau • Marchnad wythnosol yn y Maes sy'n perfformio'n gadarn ac sy'n ehangu'r cynnig manwerthu a chyfleoedd i fusnesau yng nghanol y dref • Cyfuniad da o ddarparwyr bwyd a diod, yn enwedig yn y dref gaerog • Mae gan ganol y dref sawl maes parcio sy'n cynnig dewis i ddefnyddwyr • Mae gan Gaernarfon bresenoldeb trydydd sector cryf, gan gynnwys sefydliadau sy'n weithgar wrth gefnogi mynediad at gyflogaeth, datblygu economaidd a'r sector creadigol (e.e. Antur Waunfawr, CARN, Galeri, GISDA) 	<ul style="list-style-type: none"> • Diffyg manau gwyrdd i breswylwyr lleol ac ymwelwyr ymgasglu • Mae gan Stryd Fawr wacterau sylweddol ac mae diffyg darparwyr manwerthu proffil uchel • Arwyddion i ymwelwyr ac am hanes y dref sy'n hen • Peth ddryswch rhwng cerddwyr a cherbydau ar y Maes • Mae Cei Llechi yn cael ei danddefnyddio yn ystod misoedd llai prysur • Yn ogystal, mae diffyg ymwelwyr ag ardal ddeheuol y dref wedi golygu bod yr unedau gweithio yng Nghei Llechi wedi tanberfformio ers agor • Mae Pont yr Aber mewn cyflwr gwael ac mae wedi torri i lawr, gan achosi problemau yn y marina. Mae angen adnewyddu neu adleoli • Mae mynediad i'r dref o'r orsaf fysus/mannau gollwng bysus yn annymunol • Mae cysylltiadau gwael rhwng Doc Fictoria a gweddill canol y dref • Mae opsiynau cyfyngedig i fyw yng nghanol y dref, gan gynnwys marchnad agored, tai cymdeithasol a llety sy'n hen • Diffyg lliw ar y Maes ac ardaloedd eraill yng nghanol y dref sy'n gallu rhoi golwg oeraidd • Mae pwyntiau mynediad i'r dref o safon wael neu wedi'u diffinio'n wael • Mae'r Maes, y Castell a'r promenâd wedi'u tanddefnyddio ar gyfer digwyddiadau yn yr awyr agored • Mae diffyg llwybrau teithio llesol o amgylch y dref ac yn cysylltu ag ardaloedd gwledig
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfleoedd cyffredinol i ehangu'r defnydd yng nghanol y dref i ddarparu cyfleusterau pellach i breswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr • Pwrth mynediad i'r dref, gan hwyluso traffig a gwella 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai dirywio'r economi, yn enwedig yn effeithio ar y sector rheilffordd, yn cael effaith andwyol ar berfformio strydoedd manwerthu • Mae archfarchnadoedd ychydig y tu allan i ganol

<p>delwedd Caernarfon</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y posibilrwydd ar gyfer ehangu economi'r nos, gan gynnwys busnesau bwyd a diod a mentrau hamdden eraill • Rhaglen o ddigwyddiadau wedi'i hehangu yng nghanol y dref, gan gynnwys digwyddiadau rheolaidd ac un tro sy'n gallu cynyddu nifer yr ymwelwyr a hyd arhosiad ymwelwyr • Defnydd dros dro neu sydyn o unedau gwacter sy'n gallu bod yn ffordd o gynyddu gweithgarwch mewn mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn • Cysylltedd gwell ag asedau wrth ymyl canol y dref a'r tu hwnt iddo a fyddai'n helpu i gefnogi croesdefnyddio cyfleusterau • Defnyddio asedau hanesyddol yn fwy i ddenu twristiaeth i'r dref • Datblygu sylfaen gref yn y celfyddydau a chreadigol i ehangu'r cynnig i ymwelwyr yng nghanol y dref a chynyddu cyfleoedd swyddi • Defnyddio'r Hen Lys yn well i greu cyrchfan fasnachol/hamdden ddeniadol • Cefnogi gosodiad ciosgau i werthu bwyd a nwyddau ar hyd y promenâd tuag at Ddoc Fictoria i ddenu ymwelwyr i'r lleoliad hwn • Cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymorth i bobl ifanc/pobl ifanc yng nghanol y dref i annog pobl o'r oedran hwn i aros yn lleol, gan gynnwys mynediad at gyflogaeth, addysg a thai • Mae prosiect Lle Da GISDA â'r nod o gynnis llety a gwasanaethau i bobl ifanc, i gynyddu gwasanaethau cymunedol yng nghanol y dref. • Cyfle ar gyfer prosiectau celf dros dro a pharhaol yng nghanol y dref i ychwanegu bywiogrwydd, lliw ac egni at ganol y dref a chefnogi artistiaid lleol. • Y potensial i leoli llety i bobl hŷn yng nghanol y dref neu o fewn pellter cerdded byr, gan gynnwys llety â chymorth ac unedau annibynnol • Potensial i greu fflatiau mewn unedau gwag uwchben lle manwerthu (tai cymdeithasol a thai ar y farchnad agored) • Potensial i ehangu opsiynau llety i ymwelwyr, gan gynnwys llety pris rhesymol megis gwestai, opsiynau gwely a brecwast pellach ac opsiynau gwesty pris canolog/uwch. • Hyrwyddo Caernarfon fel enghraifft o'r Gymraeg weithgar a bywiog • Ehangu gwaith hyrwyddo Rheilffordd Ffestiniog a chysylltiadau â threfi eraill drwy'r rhwydwaith rheilffyrdd hanesyddol 	<p>y dref (Morrisons, Tesco) yn denu ymwelwyr/gwario arian y tu allan i ganol y dref</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cynnydd mewn costau datblygu, gan gynnwys costau benthyca ac adeiladu, yn gwneud datblygiadau'n anos ac yn peri mwy o risg • Cyllidebau cyfyngedig yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad mewn prosiectau • Nid yw'r diffyg ymwelwyr yn agos i Gei Llechi yn ei gwneud hi'n bosib i unedau gweithle gyflawni eu potensial llawn • Mae Doc Fictoria'n parhau i fod yn dyst i rent uchel a mannau gwag oherwydd diffyg buddsoddiad mewn ei gysylltu â gweddill y dref • Mae adleoli Pont yr Aber yn denu ymwelwyr i ffordd o'r promenâd/Castell a'r parc ar ochr arall yr afon • Mae cynnal digwyddiadau ar y Maes yn destun rhwystredigaeth i breswylwyr sy'n byw yn y dref gaerog oherwydd y gallu cyfyngedig i adael y dref mewn car
---	--

Ffynhonnell: BE Group, 2023

6.3 Mae'r Cynllun Cyfleoedd hwn yn helpu i ddangos cyfleoedd posib i Gaernarfon.

Ffigur 9 – Cynllun Cyfleoedd

Prif Gyfleoedd i Ganol y Dref

Gwella'r gofodau porth i ganol y dref.

Gwella cysylltiadau cerdded i'r dref o'r orsaf fysiau a meysydd parcio.

Archwilio cyfle i adfywio ardal y drosffordd i ddarparu pyrth cryf i'r dwyrain a gwella'r cysylltedd rhwng canol y dref a chymunedau preswyl i'r dwyrain.

Aiiddatblygu adeiladau gwag a rhai tan ddefnydd mewn lleoliadau canol tref allweddol.

Gwella ffyntiau gwael ar draws y prif ardal siopa.

Gwella'r defnydd o fannau cyhoeddus allweddol ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol a diwylliannol drwy ymyriadau adfywio pwrpasol a rhaglennu cryf.

Hyrwyddo'r defnydd o Gastell Caernarfon fel prif leoliad diwylliannol ar gyfer arddangosfeydd celf a pherfformiadau byw.

Archwilio cyfleoedd i wyrddni strydoedd. Potensial i arbrofi trefniadau gydag ymyriadau dros dro trwy ddefnyddio giffachau parcio a phlannu modwlar.

Amylgu waliau'r dref gyda goleuadau nodwedd.

Adnewyddu ac ehangu'r arwyddbyst presennol a'r byrddau gwybodaeth ar draws y dref i wella eu heglurdeb ac amlygu mwynderau a darpariaethau presennol.

Archwilio cyfle i greu parc y gellir ei orlifo i'r de o Gastell Caernarfon a chreu cyswllt gwell â'r darpariaethau gwyrdd presennol ar Goed Helen.

Archwilio cyfle i adleoli'r bont droed i'r dwyrain i wella cysylltedd dŵr a lleihau costau gweithredo.



Town Centre Main Opportunities

Improve the gateway spaces into the town centre.

Enhance pedestrian connections into the town from the bus station and car parks.

Explore opportunity of regenerating the flyover area to provide strong east gateways and improve the connectivity between the town centre and the eastern residential communities.

Redevelop vacant / under utilised buildings in key town centre locations.

Improve poor frontages across the primary shopping area.

Improve the use of key public spaces for social and cultural events through bespoke regeneration interventions and strong programming.

Promote the use of Caernarfon Castle as a main cultural venue for art exhibitions and live performances.

Explore opportunities for street greening. Potential to test configurations with temporary interventions through the use of parklets and modular planters.

Accentuate the town walls with feature lighting.

Rejuvenate and expand the existing wayfinding and information elements across the town to improve legibility and highlight existing amenities and provisions.

Explore opportunity to create a floodable park south to the Caernarfon Castle and better link to the existing green provisions on Goed Helen.

Explore opportunity to relocate the footbridge to the east to improve water connectivity and reduce operational costs.

Chwedd:

- Ffin Lle
- Ffithellfordd Ucheldir Cymru
- Gorsaf Drenau Caernarfon
- Safle Troftadaeth y Byd UNESCO
- Ardal Siopa Gynradd
- Mannau Cyhoeddus Allweddol
- Blaen Adolaid Gwael
- Eiddo gwag/wedi'i danddefnyddio allweddol
- Eiddo Cyfle Allweddol
- Maes Parcio
- Maes Parcio Am-lawr
- Gorsaf Fysus
- Man Gollwng/Casglu Coetsis i Dwristiaid
- Man Gwyrdd
- Mannau gwyrdd anhygyrch/wedi'u tanddefnyddio
- Ierl Chwarae
- Porth i'w Wella
- Ardaloedd Adfywio Pyrth y Dwyrain
- Mannau Cyhoeddus sy'n cael eu Tanddefnyddio/Ardal Gwelliant Posib
- Llwybr i Gerddwyr i Wella
- Gwella Muriau'r Dref
- Dŵr
- Ardal Lanwol
- Riasg Uchel o Lifogydd
- Adleoliad Pont y Llyn Posib
- Safle Archeolegol

Drawing Title: Caernarfon - Place Analysis and Opportunities
Project: Caernarfon Placemaking Plan

theurbanists

Ffynhonnell: The Urbanists, 2023

- 6.4 O'r dadansoddiad SWOT a'r Cynllun Cyfleoedd, datblygwyd rhestr arfaethedig o ymyriadau. Mae Tabl 15 yn rhestru'r ymyriadau arfaethedig hyn a fyddai'n helpu i fodloni'r amcanion arfaethedig. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys cyfleoedd datblygu, gwelliannau i fannau cyhoeddus, gwelliannau creu lleoedd a gwaith strategol pellach. Mae rhai o'r ymyriadau hyn yn fach o ran graddfa ac yn dymor byr ac mae eraill yn debygol o fod yn opsiynau tymor hir.
- 6.5 Mae'r ymyriadau wedi'u datblygu i fynd i'r afael â diffygion yng nghanol y dref yn ogystal â chynnig gwelliannau. Byddant yn ceisio amrywio economi Caernarfon fel ei bod yn ganolfan fywiog i **breswylwyr, gweithwyr ac ymwelwyr**.



Tabl 15 – Tystiolaeth i gefnogi ymyriadau i ganol tref Caernarfon

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
Safleoedd Datblygu/Cyfle		
Astudiaeth o ddichonoldeb tynnu'r maes parcio aml-lawr o Pool Side	Integreiddio'r strategaeth maes parcio ac ailddatblygu'r drosffordd, archwilio'r ffyrdd posib o aildefnyddio'r safle hwn, gan gynnwys defnydd masnachol, preswyl neu hamdden. Gan gofio ei lleoliad, mae'n debygol y bydd cyfleusterau yn yr ardal hon yng ngwasanaethau'r boblogaeth breswyl.	<ul style="list-style-type: none"> • Maes parcio sy'n cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd yng nghanol y dref • Mae'r maes parcio mewn cyflwr gwael ac mae'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. • Tynnu'r maes parcio aml-lawr a'i amnewid gyda defnydd masnachol, manwerthu neu hamdden a fyddai'n creu porth mwy deniadol i ganol y dref a'r Castell. • Y potensial i ehangu'r amrywiaeth o gyfleusterau i breswylwyr yng Nghaernarfon yn y safle datblygu amlwg hwn. • Gallai tynnu'r maes parcio aml-lawr hefyd ganiatáu mwy o wyrddni yng nghanol y dref. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r diffyg mannau gwyrdd a amlygwyd gan breswylwyr lleol mewn gweithdai.
Yr Hen Lys	Bydd perchennog yr adeilad yn nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r Hen Lys i sicrhau y caiff yr ased hwn yn cael ei ddefnyddio, ei gynnal a'i ddathlu.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r eiddo hanesyddol hwn yn amlwg iawn wrth fynd i'r dref gaerog o ochr y Castell neu wrth gyrraedd y dref drwy Bont yr Aber. Mae'n bwysig bod adeilad o'r fath amlygrwydd a phwysigrwydd hanesyddol yn cael ei ddathlu yng Nghaernarfon a'i ddefnyddio'n fwy nag yw ar hyn o bryd. • Nododd gweithdai yn y gymuned fod pobl leol am i'r Hen Lys gael ei ddefnyddio'n fwy.
Ailfywiogi unedau gwag	Archwilio cyfleoedd ar y cyd â pherchnogion yr adeilad i ddod ag unedau manwerthu'n ôl i ddefnydd dros dro drwy hyrwyddo cynllun (a allai gynnwys anogaeth ariannol/hyblygrwydd cynllunio) i ddarparu rhwydwaith o leoedd cydweithio, mannau creadigol, mentrau dros dro, orielau, bwyd stryd etc. A allai ychwanegu bwrlwm i ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio digon.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r gyfradd wacter yn rhy uchel yng Nghaernarfon ac yn benodol, ar hyd Stryd y Llun, Stryd y Bont a Pool Side. • Mae nifer gynyddol o unedau manwerthu gwag ar strydoedd mawr siopa yn dueddiad cyffredin ledled y DU. Mae'n bwysig addasu mannau gwag at ddibenion gwahanol i wella bywiogrwydd canol y dref. • Dylid annog proses ehangu gweithgaredd economaidd – gellid defnyddio cydweithio a mannau gweithio anffurfiol i ddefnyddio eiddo gwag wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref. • Darpariaeth mannau gweithdai i wneuthurwyr crefftau a masnach i fynd i'r afael â phroblemau gwacter ac arddangos dawn crefftwyr lleol yng nghanol y dref. • Mae mannau dros dro/sydyn yn cynnwys cyfleoedd i

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
		ficrofusnesau lleol i fynd i'r farchnad a phrofi cynnyrch.
Cyflwyno'r hyb mentergarwch	Datblygu hyb mentergarwch, gan ddefnyddio'r unedau gwag neu rai newydd, ddarparu lleoliad o safon i fusnesau bach yng nghanol y dref. Dylai'r lle sydd ar gael fod yn swyddfeydd, stiwdios a gweithdai creadigol a reolir.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd hyb mentergarwch yn annog ac yn cefnogi busnesau bach yng Nghaernarfon i gyflawni eu potensial. • Mae angen ehangu'r cyfuniad economaidd yng Nghaernarfon, gan fod gorddibyniaeth ar y sector cyhoeddus ar hyn o bryd ar gyfer cyflogaeth. • Bydd busnesau lleol yn elwa o gydweithio â'r hyb mentergarwch, gan ddatblygu ymdeimlad o gymuned yng Nghaernarfon sydd eisoes yn gryf. • Bydd lle gweithio fforddiadwy, hyblyg yn denu busnesau lleol i ganol y dref, gan wella bwrlwm a nifer yr ymwelwyr.
Doc Fictoria - ardaloedd deheuol	Bydd uwchgynllun yn archwilio opsiynau ailddatblygu safleoedd deheuol o amgylch Doc Fictoria, gan gynnwys y maes parcio aml-lawr, Archifau Caernarfon, iardiau creffttau a'r lle rhwng muriau'r dref a'r doc. Dylai opsiynau helpu i gysylltu ardaloedd gogleddol a Galeri â chanol craidd y dref.	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd cysylltedd ac arwyddion gwell o'r dref gaerog yn cynyddu nifer yr ymwelwyr i ardal y Doc. • Mae ymwelwyr presennol i Gaernarfon yn annhebygol o fynd i Doc Fictoria heb ymyriad i integreiddio'r ardal â chyrchfannau twristaidd yn y dref. • Mae preswylwyr yn teimlo bod yr angen am siopau bwyd a nwyddau ar hyd ymyl y glannau. • I gynyddu bywiogrwydd, mae angen mynd i'r afael â'r swyddfeydd a'r manau manwerthu sy'n cael eu tanddefnyddio. Mae cyfraddau rhentu uchel yn atal meddiannaeth gan fusnesau. • Byddai adleoli busnesau sy'n gweithredu mewn iardiau creffttau ar hyd y promenâd yn hwyluso ailddatblygu'r ardal, gan greu blaen mwy deniadol. • Amlygodd ymgynghoriad â'r gymuned leol y dyhead i Archifau Caernarfon gael eu hadnewyddu i gynyddu ymgysylltiad, yn enwedig ymhlith y genhedlaeth iau.
Canolfan Ddehongli/Amgueddfa i amlygu hanes eang Caernarfon	<p>Cyfleuster newydd i amlygu elfennau eraill o hanes Caernarfon ar wahân i'r Castell, gan gynnwys chwarelu, hanes Rhufeinig, Rhyfel y Rhosynnau, morol, etc. I gael ei gefnogi gan arwyddion dehongli, canfod ffordd ac atyniadau gwell i ymwelwyr yng nghanol y dref.</p> <p>Gellir cysylltu hyn â chyfleusterau eraill, megis Archifau Caernarfon neu Lyfrgell.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd pwyslais cryf ar bwysigrwydd hanes a threftadaeth Caernarfon mewn gweithdai yn y gymuned. • Cydnabyddir bod dealltwriaeth wael o elfennau eraill o hanes y dref ac nad ydynt yn cael ei hyrwyddo ac mae cyfle i gynyddu amlygrwydd yr elfennau hyn i breswylwyr ac ymwelwyr. • Dylid annog y defnydd o'r Gymraeg yn y dref gan fusnesau lleol

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
		ac ar arwyddion.
Pyrth		
Gwella pwynt mynediad yn Pool Side	Gwella proffil ac amwynder pwynt mynediad fel rhan o waith ailddatblygu/uwchraddio trosffordd o'r A4871.	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r pwynt mynediad yn Pool Side wedi cael ei ddisgrifio fel annymunol ac mae canfod ffordd i ran graidd canol y dref a'r Maes yn aneglur. Byddai ailddatblygu'r ardal hon, gan gynnwys y potensial i ddymchwel y drosffordd, yn creu porth mwy croesawgar i'r dref i breswylwyr lleol ac ymwelwyr twristaidd. Mae'r drosffordd hefyd yn gweithredu fel rhwystr rhwng ochr ddwyreiniol a gorllewinol Caernarfon. Byddai ailddatblygu'r ardal yn creu ymdeimlad mwy o gysylltedd rhwng y ddwy ardal hyn. Yn ogystal, mae angen mwy o arwyddion i helpu i symud y traffig i ardaloedd perthnasol, h.y. y Maes/y Castell
Creu datganiad mynediad a gwella man cyhoeddus Heol San Helen	Mae gan Heol San Helen bwynt mynediad wedi'i ddiffinio'n wael i ganol y dref. Gwella'r ardal gyhoeddus a blaenau adeiladau, gan ddiffinio dechrau canol y drefn yn glir a gwella golygfeydd o'r Castell.	<ul style="list-style-type: none"> Mae Heol San Helen a'r danffordd (Stryd y Goron) wedi'u tanddefnyddio er mwyn mynd i ganol y dref a chanfod ffordd drwyddo. Mae angen arwyddion gwell i annog y defnydd o'r strydoedd hyn a lleddfu'r traffog o'u hamgylch. Mae gwelliannau awgrymedig i'r ardal gyhoeddus o amgylch Heol Sant Helen yn cynnwys cyflwyno manau gwyrdd lle gall pobl leol ac ymwelwyr ymgasglu. Byddai hyn yn annog ymwelwyr drwy Gei Llechi.
Gwella cysylltedd rhwng Stryd y Llyn a'r A4871 (yn ddibynnol ar gael gwared ar y drosffordd)	Os caiff y drosffordd ei dymchwel, bydd cyfle i wella mynediad uniongyrchol i Stryd y Llyn.	<ul style="list-style-type: none"> Gallai sawl llwybr mynediad i'r Maes a'r Castell leddfu'r traffig ar Pool Side. Mae tynnu'r drosffordd yn cynnig cyfle i gynyddu proffil ac amlygrwydd Stryd y Llyn.
Mannau Cyhoeddus		
Archwilio opsiynau ar gyfer darparu lle mwy amddiffynadwy a diffiniad ar y Maes	Cyflwyno celfi stryd modiwlaidd y gellir ei adeoli, planwyr, etc. i amlinellu manau yn ôl yr angen (gan gynnwys defnydd rhagweithiol yn ystod adegau prysur)	<ul style="list-style-type: none"> Mae gyrru i'r Maes yn aneglur i dwristiaid sy'n ymweld â Chaernarfon. Byddai defnyddio celfi stryd yn helpu i amlinellu llwybrau priodol drwy'r Maes i faes parcio'r Castell a manau eraill. Mae celfi stryd hefyd yn annog ymwelwyr â'r Maes a chynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio yno, gan wneud yr ardal yn fwy bywiog.

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
Gwelliannau mannau cyhoeddus ar hyd Stryd y Llyn	Cyflwyno celfi stryd, planwyr, celf gyhoeddus a gwella palmentydd i wella amwynder yr ardal hon.	<ul style="list-style-type: none"> Nodwyd Stryd y Llyn yn yr ymgynghoriadau ac archwiliadau safle fel ardal lle mae angen gwelliannau brys. Byddai mannau cyhoeddus wedi'u gwella'n annog mwy o ymwelwyr â'r ardal hon ac yn cynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio yno. Gallai buddsoddiadau mewn mannau cyhoeddus weithredu fel catalydd i landlordiaid i fuddsoddi mewn blaenau siopau a gwella unedau.
Gwella llwybrau i gerddwyr	Cynnal asesiad o lwybrau i gerddwyr yng nghanol y dref a chreu rhaglen o welliannau, yn ôl yr angen. Dylai'r ffocws cychwynnol fod ar wella cysylltiadau o'r orsaf fysus, meysydd parcio a'r orsaf drenau i ardaloedd craidd.	<ul style="list-style-type: none"> Dylid gwella arwyddion i'w gwneud hi'n haws i gerddwyr ganfod ffordd i/drwy ganol y dref. Roedd problemau gydag arwyddion yn thema gyson yn y gweithdai gyda rhanddeiliaid lleol. Mae'r Maes hefyd yn cael ei ystyried i fod yn anodd ei ddeall i gerddwyr, heb lwybr diffiniedig i geir ei gymryd. Awgrymwyd llwybr celf cylchol i gerddwyr o amgylch Caernarfon mewn gweithdai, gan ennyn diddordeb ymwelwyr ifanc a llywio twristiaid i ardaloedd craidd y dref. Mae twristiaid i Gaernarfon yn ei chael hi'n anodd canfod ffordd, fel cerddwyr a gywyr. Nid oes arwyddion digonol i'r Castell na'r Maes o bwytiau mynediad i'r dref.
Gwella a bywiogi Sgwâr y Pendist (Turf Square)	Cyffordd pob cyfeiriad allweddol sy'n cysylltu elfennau manwerthu, dinesig, ymwelwyr a phreswyl yng Nghaernarfon yw hon. Gwella mannau cyhoeddus a blaenau adeiladau a bywiogi'r Sgwâr ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol/hamdden/celfyddydol. Cyflwyno celfi a phlanwyr stryd.	<ul style="list-style-type: none"> Mae Sgwâr y Pendist yn gyffordd allweddol yng nghanol y dref, ond nid yw'n cael ei ystyried fel lle allweddol ar gyfer digwyddiadau goddefol neu weithredol. Gellir defnyddio'r lleoliad hwn fel cyswllt rhwng ardaloedd canol y dref sy'n gwasanaethu'r farchnad breswyl ac ardaloedd sy'n gwasanaethu marchnad yr ymwelwyr. Mae gan Sgwâr y Pendist ffasadau a mannau cyhoeddus diddorol.
Creu mwy o fannau gwyrdd ar strydoedd	Cyflwyno mannau gwyrdd parhaol a dros dro ym mhob rhan o ganol y dref, gan gynnwys mannau bach i barcio, planwyr modiwlaid, muriau gwyrdd, etc.	<ul style="list-style-type: none"> Amlygwyd y diffyg mannau gwyrdd yn gyson drwy gydol y gweithdai â'r gymuned leol. Byddai mannau gwyrdd i bobl leol ac ymwelwyr ymgynull yn annog ymwelwyr i ganol y dref. Byddai man gwyrdd lle gellir cynnal digwyddiadau fod yn ddymunol.

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
		<ul style="list-style-type: none"> Byddai mannau/muriau gwyrdd yn helpu i fywiogi ardaloedd y dref sy'n ymddangos yn hen. Mae gwyrddi'n cynnig manteision amgylcheddol megis lleihau llygredd, gwella ansawdd aer a chadw dŵr a chynefinoedd lleol yn ogystal â darparu manteision iechyd meddwl a golwg.
Gwella golau ar furiau'r dref	Tanlinellu muriau'r dref fel ased gyda goleuadau, gan gynnwys goleuadau parhaol a goleuadau ar gyfer digwyddiadau.	<ul style="list-style-type: none"> Byddai goleuadau parhaol yn gwneud muriau'r dref yn fwy gweledwy a deniadol. Byddai goleuadau yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal y tu mewn i'r muriau gyda'r hwyr, h.y. bwytai, barau, tafarndai.
Ehangu deciau'r promenâd	Ehangu'r promenâd tuag allan i'r blaendraeth er mwyn ei gwneud hi'n bosib i'w ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o ddigwyddiadau/gweithgareddau a chynyddu amlygrwydd y glannau. Cynnwys seilwaith cefnogi i wneud amrywiaeth o ddigwyddiadau yn bosib (trydan, mynediad, bolardiau symudol, mynediad i brif gyflenwad dŵr etc.).	<ul style="list-style-type: none"> Dylid annog ymwelwyr ar hyd y glannau i sicrhau bod Doc Fictoria'n teimlo wedi'i gysylltu'n well â chanol y dref. Bydd ehangu'r Promenâd yn eu gwneud hi'n bosib cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar hyn y glannau, gan wella amlygrwydd a chysylltedd. Bydd hefyd yn gwella bywiogrwydd ar hyn y Promenâd. Dylid ehangu'r bont dros y blaendraeth i annog y defnydd o'r Promenâd fel llwybr teithio llesol i gerddwyr a beicwyr. Mae angen nodi cyfeiriadau yn y gweithdy i Gaernarfon er mwyn gallu cefnogi rhagor o ddigwyddiadau.
Creu Lleuedd		
Uwchgynllun ardal Cei Llechu/Heol San Helen	Uwchgynllun i ystyried swyddogaeth gyffredinol yr ardal hon, canfod ffordd (gan gynnwys canfyddiadau astudiaeth o ddichonoldeb ar bont i gerddwyr), gofynion ar gyfer maes parcio, cyflwyno mannau gwyrdd, gofynion storio cychod, mannau esgyn/disgyn i gychod ymwelwyr.	<ul style="list-style-type: none"> Cydnabyddir Cei Llechi/Heol San Helen fel ardal sy'n cael ei thanddefnyddio o ganol y dref. Dylid ystyried sawl ymyriad i fywiogi'r ardal hon i ymwelwyr a phobl leol. Mae hyn yn cynnwys mannau gwyrdd, arwyddion gwell, pont newydd i gerddwyr, etc. Bydd bywiogi'r ardal yn helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr drwy Gei Llechi. Gallai gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Harbwr ei gwneud hi'n bosib ad-drefnu ardal Cei Llechi. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i gynnal digwyddiadau, marchnadoedd a gweithgareddau eraill yn y lleoliad hwn.
Astudiaeth o opsiynau a dichonoldeb i bont newydd i gerddwyr/beicwyr dros Afon Seiont o Gei Llechi i'r parcdiroedd.	Astudiaeth i ystyried lleoliad, natur, gweithrediad, costau ac ystyriaethau dylunio croesfan newydd a dymchwel y bont bresennol.	<ul style="list-style-type: none"> Mae swyddogaeth y bont bresennol sy'n cysylltu canol y dref â'r parc wedi bod yn destun sylw dros yr ychydig o flynyddoedd diwethaf, ac mae'r bont wedi mynd yn sOWNd sawl tro. Mae angen pont newydd, naill ai yn y lleoliad presennol neu

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
		<p>mewn un newydd, neu mae angen ei uwchraddio yn y dyfodol agos i ddatrys y broblem hon.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r bont bresennol yn cynnig mynediad hwylus i'r parc i ochr ddeheuol i ganol y dref. Fodd bynnag, gallai pont i fyny'r afon helpu i fywiogi ardal Cei Llechi. Byddai astudiaeth o ddichonoldeb yn ei gwneud hi'n bosib gwneud y penderfyniad priodol.
<p>Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn</p>	<p>Ystyried rhaglen anogaeth i gefnogi gwelliannau i flaenau siopau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Yn nodweddiadol, mae safon blaenau siopau yng nghanol y dref yn wael yng Nghaernarfon, yn enwedig ar Stryd y Llyn, sy'n tueddu i ddarparu nwyddau/gwasanaethau manwerthu pris rhesymol. Er mwyn gwella golwg y strydoedd hyn, gellid cyflwyno rhaglen sy'n seiliedig ar anogaeth. Bydd blaenau siopau sy'n fwy deniadol, ynghyd â gwelliannau mewn mannau cyhoeddus, yn golygu y bydd canol Caernarfon yn lle mwy deniadol a chroesawgar i ymweld ag ef.
<p>Rhaglen o Ddigwyddiadau</p>	<p>Sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol wedi'i hehangu sy'n defnyddio lleoedd yng nghanol y dref (yn enwedig y Maes, y Castell, y Promenâd, Cei Llechi, Stryd y Llyn) i ddenu pobl i ganol y dref a chefnogi busnesau lleol. Dylai digwyddiadau gynnwys amrywiaeth eang o themâu a bod yn briodol i breswylwyr ac ymwelwyr â'r ardal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen cyffredinol i gynyddu nifer yr ymwelwyr ar strydoedd manwerthu ac mae angen cynnig rhagor o resymau i bobl ddoel i ymweld. Nid oes gan y dref rôl hamdden sylweddol. A'r hyn o bryd, mae'r Maes yn ardal o ganol y dref sy'n cael ei thanddefnyddio. Mae'r farchnad wythnosol yn gweithio'n dda ar y Maes a dylid ystyried digwyddiadau/marchnadoedd eraill ar gyfer y lleoliad hwn. Mae'r Wyl Fwyd flynyddol yn ddigwyddiad llwyddiannus a phoblogaidd ac mae'n tanlinellu'r ffaith y gall canol y dref gefnogi digwyddiadau mawr a bod diddordeb marchnad mewn digwyddiadau. Yn ogystal, mae gan Gei Llechi'r potensial i fod yn lleoliad digwyddiadau llwyddiannus, gyda'r Castell fel cefndir trawiadol. Mae'r Promenâd hefyd yn cael ei danddefnyddio, a gallai digwyddiadau helpu i wella'r defnydd o'r ardal hon ac amlygu'r cysylltiad ag Afon Menai.

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
Cydweithio a chydlynu gwell rhwng lleoliadau diwylliannol a digwyddiadau.	Mae gan Gaernarfon amrywiaeth o leoedd sy'n addas ar gyfer digwyddiadau bach a mawr, er nad yw gwybodaeth am hyn yn hygyrch iawn mewn un lleoliad. Byddai rhagor o waith cydlynu'n arddangos Caernarfon fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau a diwylliant sy'n perfformio'n dda.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen rhagor o waith hyrwyddo ar y lleoedd sydd ar gael i wella'r defnydd ohonynt. • Byddai cydweithio pellach yn fuddiol i'r holl gyfranogwyr wrth hyrwyddo Caernarfon fel cyrchfan i ddiwyddiadau a chyrchfan ddiwylliannol.
Cynyddu'r defnydd o'r Castell i ddiwyddiadau	Mae Castell Caernarfon yn lleoliad gwych ar gyfer digwyddiadau diwylliannol, celfyddydol, hanesyddol a seremonïol yn ei diroedd ac fel cefndir i ddiwyddiadau ar y Maes.	<ul style="list-style-type: none"> • Er y gwnaed gwelliannau i'r Castell fel atyniad twristaidd sydd wedi bod yn llwyddiannus, nid yw'r Castell yn cael ei ddefnyddio ddigon fel lleoliad i ddiwyddiadau. • Byddai digwyddiadau yn y Castell yn atyniad twristaidd unigryw a fyddai'n denu ymwelwyr o hirbell. • Gan gofio'r diffyg manau gwyrdd yng Nghaernarfon, dylid defnyddio tiroedd mewnol y castell ar gyfer digwyddiadau awyr agored.
Cyflwyno celf gyhoeddus i ganol y dref	Comisiynu gweithiau celf, gosodiadau a murluniau parhaol a dros dro i ychwanegu bywiogrwydd i ganol y dref ac annog ymwelwyr i archwilio ymhellach. Cynnwys cyflwyno pellach prosiect Canfas, sy'n amlygu hanes a phobl Caernarfon, yn ogystal â chynlluniau celf weledol eraill.	<ul style="list-style-type: none"> • Amlygodd ymgynghoriad â'r gymuned yr angen i fywiogi Caernarfon gyda mwy o liw a chelf. • Roedd rhai ardaloedd o'r dref yn cael eu hystyried i fod yn ddiflas ac yn drist. • Byddai cyflwyno celf gyhoeddus yn gwneud y dref yn fwy deniadol wrth hyrwyddo artistiaid lleol dawnus.
Arall		
Strategaeth parcio ceir	Asesu ansawdd a lleoliadau meysydd parcio yng nghanol y dref, gan gynnwys ystyried natur dymhorol, prisoedd, galw, lleoedd ychwanegol, addasu at ddibenion newydd a manau sy'n cael eu tanddefnyddio. Dylai'r strategaeth nodi ansawdd a lleoliadau pwyntiau gwefru cerbydau trydanol (EV).	<ul style="list-style-type: none"> • Mae meysydd parcio yng nghanol y dref yn cael eu tanddefnyddio, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. • Gan ddibynnu ar adeg y flwyddyn, dylid defnyddio manau parcio mewn amryw o ffyrdd. Mae'r maes parcio yng Nghei Llechi yn enghraifft euraidd o ardal y gellir ei defnyddio mewn ffordd arall yn ystod y tymhorau pan fydd y galw am barcio'n isel. Gellid addasu'r ardal fawr hon i fod yn lle digwyddiadau/marchnadoedd dros dro, gyda'r Castell fel cefndir unigryw. • Mae'r maes parcio aml-lawr yn Pool Side hefyd yn cael eu tanddefnyddio. Byddai ailddatblygu'r ardal hon yn creu ffordd fwy deniadol i'r dref, wrth hefyd ddarparu cyfleusterau masnachol/hamdden angenrheidiol.

Ymyriad	Disgrifiad	Tystiolaeth
Strategaeth teithio llesol	Asesu seilwaith teithio llesol a llwybrau yng nghanol y dref a chysylltu gweddill Caernarfon ac ardaloedd cefn gwlad.	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen llwybrau cerdded gwell drwy ganol y dref i annog preswylwyr i gerdded i'r dref. Awgrymwyd llwybr beicio sy'n cysylltu promenâd Caernarfon â Chanolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai mewn sesiwn ymgynghori â'r gymuned, gan fanteisio ar harddwch naturiol yr arfordir.
Strategaeth Tai	Asesu opsiynau i gynyddu nifer y tai newydd yng nghanol y dref, gan gynnwys marchnad breifat, tai cymdeithasol a hen lety, asesu opsiynau anogaeth i annog rhyddhad mannau sy'n cael eu tanddefnyddio uwchben unedau manwerthu at ddibenion preswyl.	<ul style="list-style-type: none"> Mae llawer iawn o le uwchben unedau manwerthu sy'n wag yng nghanol tref Caernarfon. Mae hyn yn creu cyfle i gynnig cartrefi newydd mewn lleoliadau deniadol ym mhob rhan o'r dref. Dylai fod yn uchelgais i gynyddu nifer y bobl sy'n byw yng nghanol y dref oherwydd y byddai hyn yn arwain at ragor o bobl yn cerdded ar y strydoedd bob amser, gan gynyddu maint dalgylch gweithredwyr canol y dref.
Archwilio darpariaeth gwasanaethau iechyd	Asesu darpariaeth bresennol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yng Nghaernarfon a phenderfynu a yw'n addas i anghenion lleol. Os yw'n briodol, nodi lleoliad(au) ar gyfer cyfleusterau pellach yng nghanol y dref.	<ul style="list-style-type: none"> Awgrymodd adborth yn sgil gwaith ymgynghori fod angen rhagor o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol. Nodwyd rhai canlyniadau iechyd a chymdeithasol is yn yr astudiaeth hon a'r asesiad o'r Fframwaith Adfywio, gan gynnwys ardaloedd o ddiarneddifadedd, achosion uwch o salwch hir dymor a chyfraddau uwch o ordewder ymhlith plant.

Fynhonnell: BE Group, 2023

7.0 STRATEGAETH GYFLAWNI A CHYNLLUN GWEITHREDU

- 7.1 Mae'r bennod ganlynol yn amlinellu sut y gellir cyflawni'r amrywiaeth arfaethedig o ymyriadau.

Strategaeth gyffredinol ar gyfer cyflawni prosiectau yng nghanol tref Caernarfon

- 7.2 Mae amrywiaeth o fathau o brosiectau'n cael eu cynnig, gan gynnwys prosiectau tymor byr, canolog a hir. Byddai hyn yn gofyn am amrywiaeth o ymagweddau at gyflawni, gan gynnwys cynlluniau a arweinir yn gyhoeddus ac yn breifat.
- 7.3 Mae sawl un o'r prosiectau mewn mannau cyhoeddus, yn ymwneud â thirlun neu gysylltedd. Disgwylir y byddai rhai o'r prosiectau hyn yn cael eu harwain gan y Cyngor ac yn brosiectau a ariennir, fel rhai o'i raglen o waith yng Nghaernarfon. Efallai y byddai angen cyllid pellach ar rai o'r prosiectau ym mannau cyhoeddus yn unol â chynlluniau Llywodraeth Cymru (e.e. Trawsnewid Trefi). Fodd bynnag, gallai prosiectau eraill, yn enwedig prosiectau mannau cyhoeddus a thirlunio ar raddfa fach, gael eu harwain gan sefydliadau eraill sy'n weithredol yng nghanol y dref.
- 7.4 Ar gyfer y prosiectau datblygu, byddai ymagwedd ehangach at eu cyflawni'n briodol. Mae sawl enghraifft allweddol o dirddaliadaeth dan berchnogaeth y sector preifat, er bod y Cyngor yn berchen ar sawl enghraifft sylweddol hefyd. Felly, bydd trafod, cydweithio, partneriaethau a chytundebau â phartïon eraill yn elfennau hanfodol o symud ymlaen â'r prosiectau hyn. Mae'r Fframwaith Adfywio a'r Cynllun Creu Lleoedd yn elfennau allweddol wrth nodi cyfleoedd i Gaernarfon a chynnwys y sector preifat yn y broses. Dylid hyrwyddo'r dogfennau hyn yn eang ymhlith rhanddeiliaid canol y dref, yn enwedig landlordiaid a busnesau allweddol, i helpu i ysgogi ymgysylltiad a chyfranogiad rhagweithiol.
- 7.5 Fel a archwiliwyd yn Atodiad 3, mae amrywiaeth o ymagweddau at gyflawni prosiectau datblygu yng nghanol tref Caernarfon. Ar gyfer elfennau gwahanol, byddai cyfleoedd i Gyngor Gwynedd gymryd rolau gwahanol er mwyn helpu i sicrhau bod yr elfennau hyn yn cael eu cyflwyno i'r farchnad yn effeithiol ac yn effeithlon. Er hyn, dylai'r strategaeth gyffredinol galluogi'r sector cyhoeddus a phartneriaid datblygu i gymryd yr awenau lle bo'n bosib, gyda'r Cyngor yn cymryd rôl fwy gweithredol ar

gyfer y safleoedd dan ei reolaeth a lle mae ymyriad gan y sector preifat yn llai tebygol. Yn ogystal, gall y Cyngor gymryd rôl flaenllaw wrth nodi a sicrhau ffynonellau cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gefnogi adfywio.

- 7.6 Mae'r rhwydwaith trydydd sector gweithredol yng Nghaernarfon yn cynnig cyfle ychwanegol allweddol i ysgogi newid a datblygiad yng nghanol y dref. Mae gan sefydliadau megis Galeri Caernarfon a GISDA brofiad o gyflwyno cynlluniau eiddo yng nghanol y dref. Yn benodol, mae gan Galeri ddaliadau tir sylweddol yng nghanol y dref ac mae wedi bod yn weithgar ers sawl blynedd wrth chwilio i gaffael a defnyddio unedau sy'n cael eu tanddefnyddio. Dylid parhau i annog rhanddeiliaid y trydydd sector, fel y sefydliadau hyn, i gymryd rolau gweithredol o ran gwelliannau i ganol y dref, gan gynnwys fel rhan o gydweithio ehangach ac yn annibynnol. Gall Cyngor Gwynedd gael rôl wrth gefnogi, cyfeirio, cynghori a chyllido prosiectau a arweinir gan y sefydliadau hyn, fe y bo'n briodol.
- 7.7 Gall HWB Caernarfon, sefydliad Ardal Gwella Busnes Caernarfon, fod yn gyfrwng pwysig rhwng y sector preifat a'r gymuned fusnes, gan helpu i amlygu cyfleoedd/bylchau yn y farchnad, cynnig arbenigedd ac adnoddau'r sector busnes a chymryd perchnogaeth dros wireddu sawl un o'r prosiectau. Dylai Cyngor Gwynedd annog rôl fwy weithredol/proffil uwch i HWB Caernarfon wrth hwyluso ac ysgogi sawl un o'r ymyriadau arfaethedig, er mwyn cael cefnogaeth eang y sector busnes a pherchnogaeth dros y cynlluniau.
- 7.8 Mae Rhwydwaith Rhanbarthol Artistiaid Caernarfon (CARN) yn sefydliad i aelodau artistiaid sy'n weithredol yng Nghaernarfon ac yn ehangach ledled gogledd-orllewinol Cymru. Gellid defnyddio'r aelodaeth fel adnodd ar gyfer mentrau artistiaid a chreadigol a gallai'r sefydliad hwn, neu sefydliad tebyg, arwain datblygiad prosiectau creadigol yng nghanol y dref.
- 7.9 Wrth i gostau benthyg gynyddi oherwydd cyfraddau log uwch, ynghyd â chostau adeiladu uwch, mae prosiectau dod yn ddrytach ac yn cynnwys mwy o risg. Felly, byddai nodi ffyrdd o leihau risgiau prosiectau, gan gynnwys partneriaethau, ffynonellau cyllido pellach ac ymagweddau arloesol at ddatblygu, yn bwysig i sicrhau yr ymgymeirir â phrosiectau adfywio mewn ffordd brydlon. Mae'n debygol y bydd angen mewnbwn sylweddol gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i oresgyn costau datblygu uwch er mwyn cyflawni prosiectau ailddatblygu allweddol.

Cyflwyno Ymyriadau Arfaethedig

- 7.10 Gellir cyflawni ymyriadau eiddo mewn amrywiaeth o ffyrdd, o gynlluniau sy'n sector preifat yn unig i gyfranogiad y sector cyhoeddus (o lefel isel i uchel). Mae Atodiad 3 yn cynnig adolygiad o ddulliau cyflwyno posib ar gyfer cyflawni prosiectau, gan ganolbwyntio ar y rolau y gall Cyngor Gwynedd eu chwarae wrth sicrhau bod cynlluniau'n gallu cael eu cyflwyno i'r farchnad yn brydlon.
- 7.11 Mae Tabl 16 sy'n dilyn yn canolbwyntio ar sut y gall ymyriadau gael eu cyflwyno, gan gynnwys gwaith pellach a fydd yn ofynnol i bennu cwmpas y cynigion a phwy fyddai'r asiantaeth sy'n arwain arnynt.
- 7.12 Mae'r tabl hefyd yn cynnwys blaenoriaethau arfaethedig ac amserlenni ar gyfer y prosiect. Mae'r blaenoriaethau wedi'u pennu yn seiliedig ar fanteision posib i ganol y dref. Deallir bod cyfyngiadau i adnoddau ariannol ac adnoddau eraill ac mae'r blaenoriaethau'n helpu i lywio dyrannu adnoddau ar gyfer y fantais fwyaf i ganol y dref. Fodd bynnag, deallir y bydd ffactorau eraill yn berthnasol i amcangyfrifon o adnoddau yng Nghaernarfon ac mewn mannau eraill yng Ngwynedd. Mae'r amserlenni ar gyfer y prosiectau'n amcangyfrifon ar ba mor glou y gallai ac y dylai pob prosiect gael ei roi ar waith ac mae'n seiliedig ar y canllaw canlynol:
- **Yn syth:** dylid dechrau cyn gynted â phosib
 - **Tymor byr:** dechrau o fewn blwyddyn
 - **Tymor canolog:** dechrau o fewn 1 i 5 mlynedd
 - **Tymor hir:** dechrau ar ôl 5 mlynedd
- 7.13 Bydd rhai prosiectau'n cymryd sawl blynedd i'w cwblhau, ond bydd prosiectau arfaethedig eraill yn gallu cael eu cwblhau o fewn wythnosau neu fisoedd.
- 7.14 Yn dilyn y tabl mae Cynllun Strategol, sy'n amlinellu'n ofodol yr ymyriadau arfaethedig hyn a chynlluniau pellach ym meysydd ymyrryd allweddol y Maes, Pool Side a Chei Llechi.

Tabl 16 – Cynllun gweithredu ar gyfer canol tref Caernarfon

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
Safleoedd Datblygu				
<p>Astudiaeth o ddichonoldeb tynnu'r maes parcio aml-lawr o Pool Side: Integreiddio'r strategaeth maes parcio ac ailddatblygu'r drosffordd, archwilio'r ffyrdd posib o aildefnyddio'r safle hwn, gan gynnwys defnydd masnachol, preswyl neu hamdden. Gan gofio ei lleoliad, mae'n debygol y bydd cyfleusterau yn yr ardal hon yng ngwasanaethau'r boblogaeth breswyl.</p>	<p>Mae'r maes parcio aml-lawr dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd, a LIC sy'n rheoli'r sribyn o dir ar hyd yr orsaf fysus. Byddai'r astudiaeth o ddichonoldeb yn brosiect dan arweiniad Cyngor Gwynedd a dylai cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesiad gwaelodlin o gyflwr y tir ac adeiladau • Asesiad o'r cyfyngiadau • Ystyriaeth o integreiddio hyn ag opsiynau ailddatblygu'r drosffordd • Asesiad o gyfleoedd ar y farchnad ar gyfer defnydd posib ar y safle • Datblygu senarios adfywio • Ystyriaethau cyllido • Profi meddal ar y farchnad ar gyfer senarios datblygu posib i ddarpar ddatblygwyr • Strategaeth gyflwyno <p>Mireinio opsiynau a ffefir ymhellach y gellir eu dewis os bydd yr astudiaeth yn nodi bod y prosiect yn ddichonadwy.</p> <p>Cadarnhau ymagwedd gyflwyno yn ystod yr astudiaeth o ddichonoldeb ac ymchwiliadau pellach. Fodd bynnag, ar y cam hwn, mae'n debygol o fod yn brosiect cyd-fenter lle bydd y Cyngor yn cyfrannu tir ac yn cynnal gwaith cychwynnol i baratoi'r tir, gan gynnwys dymchwel adeiladau a'r partner yn y cyd-fenter yn cymryd yr awenau ar ddatblygu.</p>	<p>Astudiaeth o ddichonoldeb: CG</p> <p>Prosiect datblygu: CG/partner datblygu</p>	<p>Tymor canolog</p>	<p>Uchel</p>
<p>Yr Hen Lys: Bydd perchennog yr adeilad yn nodi cyfleoedd i ddefnyddio'r Hen Lys i sicrhau y caiff yr ased hwn yn cael ei ddefnyddio, ei gynnal a'i ddathlu.</p>	<p>Dylai hwn fod yn brosiect a arweinir gan perchennog yr adeilad. Dylai Cyngor Gwynedd ymgysylltu'n rheoliadd â'r perchennog i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud i sicrhau bod defnydd cynaliadwy o'r adeilad. Gall y Cyngor gynnig cymorth drwy Ddatblygu Economaidd er mwyn nodi cyfleoedd busnes, cymorth</p>	<p>Tirddeiliad</p>	<p>Yn syth</p>	<p>Uchel</p>

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	busnes a rhaglenni grant ar gael. Gall Cyngor Gwynedd gynnig cymorth pellach dry hyrwyddo a defnyddio'r lleoliad ar gyfer digwyddiadau/swyddogaethau.			
Ailfywiogi unedau gwag: Archwilio cyfleoedd ar y cyd â pherchnogion yr adeilad i ddod ag unedau manwerthu'n ôl i ddefnydd dros dro drwy hyrwyddo cynllun (a allai gynnwys anogaeth ariannol/hyblygrwydd cynllunio) i ddarparu rhwydwaith o leoedd cydweithio, mannau creadigol, mentrau dros dro, orielau, bwyd stryd etc. A allai ychwanegu bwrlwm i ardaloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio digon.	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda thirdeiliaid i annog defnydd hyblyg a dros dro o unedau manwerthu gwag. Datblygu a chynnal cronfa ddata o ffyrdd o ddefnyddio safleoedd gwag lleol, gyda Datblygu Economaidd i hyrwyddo busnesau lleol sy'n chwilio am le. Cymryd rhan mewn sefydliadau cymunedol a chelfyddydol i nodi angenion ar gyfer lleoedd tymor byr. Cynnig a hyrwyddo gŵyl mis o hyd lle caiff unedau gwag eu defnyddio gan sefydliadau creadigol i arddangos a gwerthu nwyddau mewn ffordd gydlunus. 	HWB, CARN	Yn syth ac yn barhaus	Uchel
Cyflwyno'r hyb mentergarwch: Datblygu hyb mentergarwch, gan ddefnyddio'r unedau gwag neu rai newydd, ddarparu lleoliad o safon i fusnesau bach yng nghanol y dref. Dylai'r lle sydd ar gael fod yn swyddfeydd, stiwdios a gweithdai creadigol a reolir.	<p>Ymagwedd aml-gam at archwilio a chyflwyno hyb mentergarwch, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Dichonoldeb ac opsiynau astudio i'w cynnwys <ul style="list-style-type: none"> Dadansoddi galw a chyfleoedd Aseiad o opsiynau safleoedd/adeiladau Profi meddal ar y farchnad Aseiad o strwythurau gweithredu Profi dichonoldeb cychwynnol Dylunio cychwynnol a manwl Modelu costau ac aseiad o ddichonoldeb Caffael safleoedd (os bydd angen) Caffael gweithredwr <p>Ar y cam hwn, cynigir y byddai hwn yn brosiect Cyngor Gwynedd, i ategu cynlluniau eraill yn yr ardal (e.e. Galeri Caernarfon a Chei Llechi), er pe byddai cynllun a arweinir gan y gymuned neu'r sector preifat yn dod i'r amlwg, ni fyddai'n rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun arall i'r farchnad.</p>	Astudiaeth o ddichonoldeb: CG Datblygiad: CG neu ddatblygwr preifat	Tymor canolog	Canolog

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
<p>Doc Fictoria - ardaloedd deheuol: Bydd uwchgyllun yn archwilio opsiynau ailddatblygu safleoedd deheuol o amgylch Doc Fictoria, gan gynnwys y maes parcio aml-lawr, Archifau Caernarfon, iardiau crefftau a'r lle rhwng muriau'r dref a'r doc. Dylai opsiynau helpu i gysylltu ardaloedd gogleddol a Galeri â chanol craidd y dref.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen i'r uwchgyllun nodi cyfleoedd ar gyfer yr ardal hon a chysylltu â chraidd canol y dref. Dylai'r uwchgyllun gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Diffinio ardal i'w hadfywio ○ Archwilio adeiladau a manau sydd ar gael i'w hadfywio ○ Gweledigaeth ar gyfer adfywio'r ardal ○ Fframwaith ar gyfer datblygu ○ Ymgysylltiad cyhoeddus ○ Asesiad o gyfleoedd i'r farchnad ○ Dadansoddiad o gyfyngiadau gwaelodlin ○ Asesiad o dreftadaeth ○ Amlinelliad o'r ymagwedd ddatblygu at fannau/lleoedd cyhoeddus ○ Opsiynau senarios datblygu ○ Cynllun yr opsiwn a ffeirir ○ Ymagwedd gyflwyno a chyllido • Gweithio gyda pherchnogion adeiladau a cheisio eu cynnwys fel partneriaid yn yr uwchgyllun • Caffael a phenodi cwmni uwchgyllunio <p>Mae Cyngor Gwynedd yn brif dirdeiliad yn yr ardal hon, er dylid hefyd geisio sefydlu partneriaethau â thirdeiliaid eraill (Huws Gray Ltd, Ymddiriedolaeth Harbwr, Galeri) wrth ddatblygu'r uwchgyllun.</p> <p>Dylai'r uwchgyllun ystyried materion megis adleoli'r defnydd presennol yn ôl yr angen, gan gysylltu craidd canol y dref ac ailfywiogi ardal ogleddol Doc Fictoria.</p> <p>Byddai cyflawni argymhellion yr uwchgyllun yn llwyr yn gofyn am gyllid sylweddol, a fyddai'n gofyn am fewnbwn gan y sector cyhoeddus a phartneriaethau ag endidau'r sector preifat. Dylai Cyngor Gwynedd ystyried dod o hyd i ddatblygwr ar gyfer partneriaeth cyd-fenter â'r datblygwr i gyflwyno'r prosiect. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd fod yn bartner posib i gyflwyno'r prosiect.</p>	<p>Uwchgyllun: CG</p> <p>Prosiect datblygu: CG/partner datblygu/LIC</p>	<p>Hir dymor</p>	<p>Canolog</p>

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
<p>Canolfan Ddehongli/Amgueddfa i amlygu hanes eang Caernarfon: Cyfleuster newydd i amlygu elfennau eraill o hanes Caernarfon ar wahân i'r Castell, gan gynnwys chwarelu, hanes Rhufeinig, Rhyfel y Rhosynnau, morol, etc. I gael ei gefnogi gan arwyddion dehongli, canfod ffordd ac atyniadau gwell i ymwelwyr yng nghanol y dref. Gellir cysylltu hyn â chyfleusterau eraill, megis Archifau Caernarfon neu Lyfrgell</p>	<p>Ymagwedd aml-gam at archwilio a chyflwyno canolfan ddehongli/amgueddfa, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dichonoldeb ac opsiynau astudio i'w cynnwys <ul style="list-style-type: none"> ○ Cwmpasu cynnig canolfan ddehongli ○ Opsiynau partneriaeth ○ Asesiad o opsiynau safleoedd/adeiladau ○ Profi meddal ar y farchnad ○ Asesiad o strwythurau gweithredu ○ Opsiynau cyllido ○ Modelu galw gan ymwelwyr ○ Profi dichonoldeb cychwynnol • Dylunio cychwynnol a manwl • Modelu costau ac asesiad o ddichonoldeb • Ceisiadau cyllido • Caffael safleoedd (os bydd angen) • Caffael gweithredwr <p>Dylai cwmpasu'r cynnig ystyried camau datblygu canolfan ddehongli, gyda cham cychwynnol yn defnyddio seilwaith ymwelwyr presennol ac adeiladu asedau i ehangu'r hanes sy'n cael ei arddangos mewn perthynas â Chaernarfon. Os bydd croeso i hyn a diddordeb addawol mewn deall elfennau eraill o hanes Caernarfon, gellir cyflwyno canolfan ddehongli bwrpasol. Dylai Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth â Chadw Cymru, arwain ar y prosiect hwn, er y byddai'n bosib chwilio am bartneriaid pellach, gan gynnwys yr Archifau, y Llyfrgell a gweithredwyr ymwelwyr preifat.</p>	<p>Astudiaeth o ddichonoldeb: CG, Cadw Cymru</p> <p>Datblygiad: CG, Cadw Cymru, LIC, partneriaid preifat</p>	<p>Tymor canolog</p>	<p>Canolog</p>
Pyrth				
<p>Gwella pwynt mynediad yn Pool Side: Gwella proffil ac amwynder pwynt mynediad fel rhan o waith ailddatblygu/uwchraddio trosffordd o'r A4871.</p>	<p>Mae'r prosiect yn dibynnu ar benderfynu ar yr ymagwedd a ffefrir at ailddatblygu'r drosffordd. Ni ellir penderfynu ar ddatrysiadau datblygu ardal Pool Side nes y bydd penderfyniad am y drosffordd.</p> <p>Fodd bynnag, gall a dylai ardal Pool Side gael ei chynnwys yn y</p>	<p>CG</p>	<p>Tymor canolog</p>	<p>Canolog</p>

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<p>cynllun adfywio o'r drosffordd a'r ardaloedd cyffiniol, gan gynnwys ystyried yr ardal maes parcio aml-lawr (gweler uchod). Dylai ailasesu'r pwynt mynediad gael ei ystyried i fod yn elfen hanfodol o ailddatblygu'r drosffordd.</p> <p>Byddai'r ymagwedd gyflwyno ar gyfer y cynllun yn rhan o waith ailddatblygu'r drosffordd a than arweiniad Cyngor Gwynedd. Byddai'r cyllid drwy refeniw a benthycar Cyngor, gyda'r potensial am fewnbwn gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Dylai amcanion cynllunio'r pwynt mynediad hwn fod i hyrwyddo canol y dref fel ardal ddiddorol, fywiog a chroesawgar. Dylai'r cynllun hyrwyddo symudiad rhwydd a chilir i'r Maes, y Castell, Stryd y Llyn a Stryd y Bont.</p>			
<p>Creu datganiad mynediad a gwella man cyhoeddus Heol San Helen: Mae gan Heol San Helen bwynt mynediad wedi'i ddiffinio'n wael i ganol y dref. Gwella'r ardal gyhoeddus a blaenau adeiladau, gan ddiffinio dechrau canol y drefn yn glir a gwella golygfeydd o'r Castell.</p>	<p>Gallai'r prosiect hwn fod yn gyfres o brosiectau llai mewn ffordd cam wrth gam, gan gynnwys rhaglen cam wrth gam o welliannau adeiladu, buddsoddiad mewn mannau cyhoeddus a datganiad mynediad.</p> <p>Dylai ffocws Cyngor Gwynedd fod ar ddarparu datganiad mynediad ar hyd Heol San Helen i amlinellu dechrau canol y dref. Byddai gwelliannau i fannau cyhoeddus yn estyniad o welliannau presennol i balmentydd o amgylch yr orsaf drenau. Byddai hyn yn cael ei gyllido a'i gyflwyno gan y Cyngor drwy ei raglen reolaidd o weithiau.</p> <p>Gall y Cyngor annog landlordiaid i ymgymryd â gwelliannau i adeiladu blaenau, gan gynnwys amlygu rhaglenni grant a chymorth gydag opsiynau cynllunio. Fodd bynnag, nid argymhellir y dylai'r Cyngor gymryd rôl fwy estynedig na hyn.</p>	CG, HWB	Hir dymor	Canolog
<p>Gwella cysylltedd rhwng Stryd y Llyn a'r A4871 (yn ddibynnol ar gael gwared ar y drosffordd): Os caiff y drosffordd ei dymchwel, bydd cyfle i wella mynediad uniongyrchol i Stryd y Llun.</p>	<p>Mae'r prosiect hefyd yn dibynnu ar benderfynu ar yr ymagwedd a ffefrir at ailddatblygu'r drosffordd. Ni ellir penderfynu ar ddatrysiadau datblygu Stryd y Llyn nes y bydd penderfyniad am y drosffordd. Byddai cael gwared ar y drosffordd yn cynnig cyfle am fynediad mwy uniongyrchol i'r brif stryd fawr fanwerthu. Fodd</p>	CG	Tymor canolog	Canolog

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<p>bynag, ni ragwelir y byddai hwn yn brif bwynt mynediad i radd canol y dref ar gyfer traffig cerbydau, ond yn hytrach mae'n cynnig cyfleoedd i gerddwyr a beicwyr i Stryd y Llyn.</p> <p>Dylai ystyried y safle hwn fel rhan o waith ailddatblygu'r drosffordd.</p> <p>Byddai'r ymagwedd gyflwyno ar gyfer y cynllun yn rhan o waith ailddatblygu'r drosffordd a than arweiniad Cyngor Gwynedd. Byddai'r cyllid drwy referniw a benthycar Cyngor, gyda'r potensial am fewnbwn gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae amcanion cynllunio'r pwynt mynediad hwn yn cynnig mynediad diogel, deniadol a theithio llesol i Stryd y Llyn o ac ar draws yr A4871.</p>			
Mannau Cyhoeddus				
Archwilio opsiynau ar gyfer darparu lle mwy amddiffynadwy a diffiniad ar y Maes: Cyflwyno celfi stryd modiwlaidd y gellir ei adleoli, planwyr, etc. i amlinellu manau yn ôl yr angen (gan gynnwys defnydd rhagweithiol yn ystod adegau prysur)	Prosiect ar raddfa fach y gellir ei gwblhau mewn amserlen fer. Prosiect i'w gyflwyno mewn ymgynghoriad â swyddogion cludiant a busnesau ar y Maes i nodi'r cynllun a ffefrir a nifer y celfi a'r planwyr ar y stryd. Potensial ar gyfer prosiect dan arweiniad Cyngor y Dref neu ar y cyd â HWB Caernarfon. Dylai cyllid fod yn gyfuniad o fewnbwn gan fusnesau, Cyngor y Dref a Chyngor Gwynedd.	HWB CTC	Yn syth	Canolog
Gwelliannau manau cyhoeddus ar hyd Stryd y Llyn: Cyflwyno celfi stryd, planwyr, celf gyhoeddus a gwella palmentydd i wella amwynder yr ardal hon.	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer cyfleoedd i Stryd y Llyn • Ymgymryd â chystadleuaeth/caffaeliad ar gyfer gweithiau celf gyhoeddus ar gyfer Stryd y Llyn • Caffael celfi stryd, etc. yn ogystal â chwmnioedd adeiladu ar gyfer palmentydd newydd <p>Byddai'r ymagwedd gyflwyno yn cael ei harwain a'i chyllido gan y Cyngor, ond dylai hefyd ystyried cyfraniadau gan HWB Caernarfo. Potensial am brosiect a arweinir gan Gyngor y Dref. Gellid caffael celf gyhoeddus drwy gystadleuaeth ddylunio i annog cyfranogiad artistiaid lleol.</p>	CTC, CARN	Tymor byr	Uchel

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	Potensial i gyfuno'r prosiect â'r prosiect uchod ar gyfer y Maes.			
Gwella llwybrau i gerddwyr: Cynnal asesiad o lwybrau i gerddwyr yng nghanol y dref a chreu rhaglen o welliannau, yn ôl yr angen. Dylai'r ffocws cychwynnol fod ar wella cysylltiadau o'r orsaf fysus, meysydd parcio a'r orsaf drenau i ardaloedd craidd.	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio arwyddion, seilwaith a chysylltiadau presennol, gan gynnwys lleoliadau, ansawdd a meysydd i'w gwella. • Datblygu rhaglen o waith cynnal a chadw a gwella, gan gynnwys blaenoriaethu gweithfeydd • Gwelliannau arwyddion i ymwelwyr ganfod ffordd a dehongli treftadaeth • Gwella seilwaith presennol i gerddwyr ar hyd y rhwydwaith o briffyrdd • Ymgymryd ag asesiad o ddichonoldeb o opsiynau cysylltiadau cerddwyr • Ymgymryd â gwaith arolwg, yn ôl yr angen • Caffael cwmni'oedd dylunio ac adeiladu i ddatblygu cynnig a ffefrir <p>Prosiect dan arweiniad Cyngor Gwynedd a ariennir drwy gynlluniau gwariant cyfalaf presennol. Yn debygol o fod yn rhaglen cam wrth gam o welliannau.</p>	CG	Tymor byr	Uchel
Gwella a bywiogi Sgwâr y Pendist (Turf Square): Cyffordd pob cyfeiriad allweddol sy'n cysylltu elfennau manwerthu, dinesig, ymwelwyr a phreswyl yng Nghaernarfon yw hon. Gwella manau cyhoeddus a blaenau adeiladau a bywiogi'r Sgwâr ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol/hamdden/celfyddydol. Cyflwyno celfi a phlanwyr stryd.	<ul style="list-style-type: none"> • Uwchgynllun 'bach' yn ofynnol i nodi a llywio cyfleoedd ar gyfer yr ardal hon, i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Archwilio adeiladau a manau sydd ar gael i'w hadfywio ○ Gweledigaeth ar gyfer adfywio'r ardal ○ Cyfleoedd/cyfngiadau ar gyfer y rhwydwaith o briffyrdd ○ Asesiad o dreftadaeth ○ Fframwaith ar gyfer datblygu ○ Ymgysylltiad â'r cyhoedd a busnesau ○ Amlinelliad o'r ymagwedd ddatblygu at fannau/lleoedd cyhoeddus ○ Nodi cyfleoedd a chyfuniad o fathau gwahanol o ddefnydd yn yr ardal ○ Opsiynau ymagweddau at ddatblygu ○ Cynllun yr opsiwn a ffefrir ○ Ymagwedd gyflwyno • Gweithio gyda pherchnogion adeiladau a HWB Caernarfon ar y 	CG	Tymor canolog	Isel

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<p>broses uwchgynllunio a cheisio eu cynnwys fel partneriaid yn yr uwchgynllun</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caffael a phenodi cwmni uwchgynllunio • Caffael a phenodi cwmnioedd dylunio manwl ac adeiladu <p>Efallai y bydd cyfle i gynnwys partneriaid datblygu ar gyfer y prosiect hwn, a fyddai'n cael eu penderfynu drwy'r broses uwchgynllunio. Fodd bynnag, gan gofio y bydd llawer o'r prosiect hwn mewn mannau cyhoeddus ac yn welliannau i flaenau adeiladau, yn hytrach na thwf sylweddol o ran wyneb llawr, efallai y bydd diddordeb cyfyngedig yn unig o'r sector preifat.</p>			
<p>Creu mwy o fannau gwyrdd ar strydoedd: Cyflwyno mannau gwyrdd parhaol a dros dro ym mhob rhan o ganol y dref, gan gynnwys mannau bach i barcio, planwyr modiwlaid, muriau gwyrdd, etc.</p>	<p>Potensial ar gyfer cyd-brosiect rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor y Dref a HWB Caernarfon. Yn debygol o fod yn rhaglen cam wrth gam o ymyriadau gwyrdd, gan gynnwys nodweddion tymhorol a pharhaol. Dylai gwaith cydlynu a dyrannu adnoddau'r prosiect fod dan arweiniad Cyngor Gwynedd, ond dylai'r tri sefydliad gyfrannu cyllid/adnoddau. Dylai camau cychwynol fod yn archwiliad o elfennau gwyrdd yng nghanol y dref, gan gynnwys planwyr, mannau gwyrdd a chysgod coed. Dylid datblygu rhaglen o ymyriadau yn seiliedig ar angen a budd i'r cyhoedd.</p> <p>Anogir landlordiaid i gyflwyno elfennau gwyrdd ar ddaliadau tir preifat drwy fentrau megis cystadleuaeth blodau'r Gwanwyn, planhigion am ddim os cânt eu plannu yng nghanol y dref, neu debyg.</p>	CG, CTC, HWB	Yn syth	Uchel
<p>Gwella golau ar furiau'r dref: Tanlinellu muriau'r dref fel ased gyda goleuadau, gan gynnwys goleuadau parhaol a goleuadau ar gyfer digwyddiadau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Penodi tîm dylunio i ddatblygu opsiynau ar gyfer goleuadau a thafllunio • Ymgynghoriad o'r opsiynau â grwpiau cyhoeddus, busnes a threftadaeth • Penodi cwmni gosod <p>Gellid cysylltu goleuadau arbennig ag ymyriadau eraill sy'n arfaethedig a rhaglenni yng nghanol y dref, gan gynnwys Canfas, canolfan ddehongli/amgueddfa, rhaglenni gwyrddio, etc. Dylai fod</p>	CG, CTC	Yn syth	Canolog

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	cyllid drwy Gyngor Gwynedd, er dylid archwilio opsiynau cyllido treftadaeth.			
Ehangu deciau'r promenâd: Ehangu'r promenâd tuag allan i'r blaendraeth er mwyn ei gwneud hi'n bosib i'w ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o ddigwyddiadau/gweithgareddau a chynyddu amlygrwydd y glannau. Cynnwys seilwaith cefnogi i wneud amrywiaeth o ddigwyddiadau yn bosib (trydan, mynediad, bolardiau symudol, mynediad i brif gyflenwad dŵr etc.).	<ul style="list-style-type: none"> • Astudiaeth o ddichonoldeb i archwilio ehangu posib y defnydd o'r Promenâd/digwyddiadau arno os caiff ei estyn. Dylai'r astudiaeth nodi cyfyngiadau/rhwysterau posib i ddatblygu. • Asesu amgylcheddol • Penodi tîm dylunio i ddatblygu opsiynau ar gyfer ehangu'r Promenâd • Ymgynghoriad o'r opsiynau â grwpiau cyhoeddus, busnes a threftadaeth • Y Cyngor i gyfrannu at ystyriaethau cynllunio • Penodi cwmni adeiladu <p>Yr Ymddiriedolaeth Harbwr i arwain a chyllido'r prosiect hwn fel tirddeiliaid ardal y Promenâd. Byddai mewnbwn Cyngor Gwynedd yn helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer defnydd terfynol y Promenâd, fel rhanddeiliad ymgynghori a chynhorthwyo gyda'r broses gynllunio, fel bo'n briodol.</p> <p>Y potensial i'w gysylltu ag astudiaeth Cei Llechi.</p>	Ymddiriedolaeth Harbwr	Tymor canolog	Canolog
Creu Lleoedd				
Uwchgynllun ardal Cei Llechu/Heol San Helen: Uwchgynllun i ystyried swyddogaeth gyffredinol yr ardal hon, canfod ffordd (gan gynnwys canfyddiadau astudiaeth o ddichonoldeb ar bont i gerddwyr), gofynion ar gyfer maes parcio, cyflwyno manau gwyrdd, gofynion storio cychod, manau esgyn/disgyn i gychod ymwelwyr.	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai angen i'r uwchgynllun nodi cyfleoedd ar gyfer yr ardal hon a chysylltu â chraidd canol y dref. Dylai'r uwchgynllun gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Diffinio ardal i'w hadfywio ○ Archwilio adeiladau a manau sydd ar gael i'w hadfywio ○ Gweledigaeth ar gyfer adfywio'r ardal ○ Fframwaith ar gyfer datblygu ○ Asesu meysydd parcio (yn gysylltiedig â strategaeth parcio ceir) ○ Ymgysylltiad cyhoeddus 	Ymddiriedolaeth Harbwr	Tymor byr	Uchel

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<ul style="list-style-type: none"> ○ Aseiad o gyfleoedd i'r farchnad ○ Dadansoddiad o gyfyngiadau gwaelodlin ○ Aseiad o dreftadaeth ○ Amlinelliad o'r ymagwedd ddatblygu at fannau/lleoedd cyhoeddus ○ Aseiad o anghenion storio cychod ○ Opsiynau senarios datblygu ○ Cynllun yr opsiwn a ffefrir ○ Ymagwedd gyflwyno a chyllido ● Gweithio gyda pherchnogion adeiladau a cheisio eu cynnwys fel partneriaid yn yr uwchgynllun ● Caffael a phenodi cwmni uwchgynllunio <p>Dylai'r Ymddiriedolaeth Harbwr, fel prif dirddeiliaid, arwain a chyllido'r astudiaeth hon a datblygiadau dilynol. Gall Cyngor Gwynedd chwilio i weithio mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Harbwr i helpu i lywio cwrpas a chyfeiriad cyffredinol y prosiect, yn enwedig wrth chwilio am fanteision cymunedau ehangach pellach yn sgil adfywio'r ardal hon.</p> <p>Dylai'r uwchgynllun gael ei gysylltu ag astudiaeth y bont i gerddwyr/ei hategu ac argymhellion dilynol ynghylch llwybrau i gerddwyr/beicio.</p> <p>Byddai cyflawni argymhellion yr uwchgynllun yn eu cyfanrwydd yn debygol o ofyn am gyllid sylweddol a gall Cyngor Gwynedd gael rôl wrth helpu i sicrhau cyllid canol tref neu dreftadaeth i gefnogi'r prosiect hwn.</p>			
<p>Astudiaeth o opsiynau a dichonoldeb i bont newydd i gerddwyr/beicwyr dros Afon Seiont o Gei Llechi i'r parcdiroedd: Astudiaeth i ystyried lleoliad, natur, gweithrediad, costau ac ystyriaethau dylunio croesfan newydd a dymchwel y bont bresennol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Dichonoldeb ac opsiynau astudio i'w cynnwys <ul style="list-style-type: none"> ○ Archwilio llwybrau presennol i gerddwyr/beicio a'u defnydd ○ Archwiliad o weithrediadau Cei Llechi, gan gynnwys symud cychod a symud pontydd ○ Dadansoddiad o gyfyngiadau ○ Aseidiadau amgylcheddol ac arolygon technegol ○ Aseiad o briffyrdd 	Ymddiriedolaeth Harbwr	Tymor byr	Uchel

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<ul style="list-style-type: none"> ○ Datblygu opsiynau cysyniad ○ Modelu costau ac asesiad o ddichonoldeb ○ Detholiad o'r ymagweddau a ffefrir ● Dylunio cychwynnol a manwl ● Caffael a phenodi cwmni adeiladu <p>Dylai hyn fod yn brosiect dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth Harbwr, a allai fod yn gysylltiedig ag uwchgynllun ehangach Cei Llechi. Fodd bynnag, mae mantais i gynnal astudiaeth benodol i fynd i'r afael â'r bont i gerddwyr, gan gofio'r angen brys i ddod o hyd i ddatrysiad ar gyfer y broblem hon.</p> <p>Bydd gan Gyngor Gwynedd rôl fel rhanddeiliad allweddol a chynorthwyo wrth sicrhau cyllid grant.</p>			
Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn: Ystyried rhaglen anogaeth i gefnogi gwelliannau i flaenau siopau.	<ul style="list-style-type: none"> ● Gweithio gyda landlordiaid i gefnogi gwaith gwella i flaenau siopau ac adeiladu. ● Cyflwyno rhaglen anogaeth i ddarparu grantiau i berchnogion adeiladu i wella blaenau siopau mewn ardaloedd a nodwyd fel targedau (e.e. trefniadau cyllido 50/50) ● Arwyddion ar gyfer cynlluniau grant eraill <p>Y Cyngor i neilltuo cyllid ar gyfer y rhaglen anogaeth.</p>	CG	Tymor byr	Uchel
Rhaglen o Ddigwyddiadau: Sefydlu rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol wedi'i hehangu sy'n defnyddio lleoedd yng nghanol y dref (yn enwedig y Maes, y Castell, y Promenâd, Cei Llechi, Stryd y Llyn) i ddenu pobl i ganol y dref a chefnogi busnesau lleol. Dylai digwyddiadau gynnwys amrywiaeth eang o themâu a bod yn briodol i breswylwyr ac ymwelwyr â'r ardal.	<ul style="list-style-type: none"> ● Adolygu rhaglen bresennol o ddigwyddiadau yn sgil cyfres o ymyriadau arfaethedig, gan nodi cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o gyfleusterau a wellwyd (e.e. Gwelliannau i'r Maes, y Promenâd, etc.) ● Gweithio gyda'r sectorau diwylliannol/celfyddydau/cymunedol/busnes i hyrwyddo ardaloedd fel lleoliadau ar gyfer digwyddiadau a chasglu syniadau ar gyfer digwyddiadau pellach ● Gweithio gyda'r Adran Briffyrdd i ddeall goblygiadau a chyfyngiadau traffig ar gyfer digwyddiadau pellach mewn mannau cyhoeddus ● Datblygu Economaidd i gydlynu calendr o ddigwyddiadau, gan 	CG, HWB	Tymor byr	Canolog


Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<p>gynnwys digwyddiadau rheolaidd ar raddfa fach i ddigwyddiadau mawr, blynyddol neu un tro</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesu capasiti Cyngor Gwynedd i ddarparu nawdd neu gymorth arall i brif ddigwyddiadau Hyrwyddo gwelliannau yn y wasg leol ac yn y cyfyngau cymdeithasol 			
<p>Cydweithio a chydlynu gwell rhwng lleoliadau diwylliannol a digwyddiadau: Mae gan Gaernarfon amrywiaeth o leoedd sy'n addas ar gyfer digwyddiadau bach a mawr, er nad yw gwybodaeth am hyn yn hygyrch iawn mewn un lleoliad. Byddai rhagor o waith cydlynu'n arddangos Caernarfon fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau a diwylliant sy'n perfformio'n dda.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio manau a chapasiti ar gyfer digwyddiadau, gan gynnwys manau dan do ac awyr agored (e.e. y Maes, y Castell, Galeri, Theatr Seilo, yr Hen Lys etc.) Cyd-hyrwyddo manau y gellir eu defnyddio gyda Chaernarfon, gan gynnwys marchnaata ar-lein, ar y cyfyngau cymdeithasol ac arall Hyrwyddo wedi'i dargedu o fannau i grwpiau cymunedol lleol, trefnwyr digwyddiadau, etc. i arddangos capasiti Caernarfon ar gyfer digwyddiadau a pharu grwpiau lleol â manau priodol. 	Cadw, Galeri, HWB,	Tymor canolog	Canolog
<p>Cynyddu'r defnydd o'r Castell i ddigwyddiadau: Mae Castell Caernarfon yn lleoliad gwybodaeth ar gyfer digwyddiadau diwylliannol, celfyddydol, hanesyddol a seremonïol yn ei diroedd ac fel cefndir i ddigwyddiadau ar y Maes.</p>	<p>Cyngor Gwynedd i weithio gyda chynrychiolwyr y Castell i annog defnydd ehangach o'r Castell ar gyfer digwyddiadau, gan gynnwys cyfrannu at a chysylltu â rhaglen ehangach o ddigwyddiadau a gynigir uchod. Fodd bynnag, nid argymhellir y dylai Cyngor Gwynedd gael rôl sylweddol wrth gynllunio gweithredu neu gyllido digwyddiadau yn y Castell.</p>	Castell Caernarfon	Tymor byr a pharhaus	Canolog
<p>Cyflwyno celf gyhoeddus i ganol y dref: Comisiynu gweithiau celf, gosodiadau a murluniau parhaol a dros dro i ychwanegu bywiogrwydd i ganol y dref ac annog ymwelwyr i archwilio ymhellach. Cynnwys cyflwyno pellach prosiect Canfas, sy'n amlygu hanes a phobl Caernarfon, yn ogystal â chynlluniau celf weledol eraill.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio celf gyhoeddus yng nghanol y dref, gan gynnwys lleoliadau, ansawdd/cyflwr, priodoldeb wrth adrodd stori Caernarfon Comisiynu astudiaeth gynllunio i asesu teipolegau, paletau lliw, ffurfiau, lleoliadau celf gyhoeddus yng nghanol y dref Gweithio gyda grwpiau celf yng Nghaernarfon i gasglu mewnbwn am syniadau i gelf gyhoeddus yng nghanol y dref ac annog cyfranogiad gweithredol yn y rhaglen celf gyhoeddus Comisiynu cystadleuaeth celf a dylunio i gelf gyhoeddus yng nghanol y dref. Gallai hyn fod yn ddigwyddiad un tro neu'n gystadleuaeth flynyddol i gael cynnydd cyson mewn celf gyhoeddus ym mhob rhan o ganol tref Caernarfon 	Galeri, CARN	Tymor canolog	Canolog

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cyllid drwy gyfuniad o gronfeydd Cyngor Gwynedd, nawdd, cronfeydd trefnadaeth a chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru Adolygu a monitro rhaglen beilot Canfas a chefnogi cyflwyno pellach y cynllun hwn, fel y bo'n briodol 			
Strategaethau Eraill				
<p>Strategaeth parcio ceir: Asesu ansawdd a lleoliadau meysydd parcio yng nghanol y dref, gan gynnwys ystyried natur dymhorol, prisoedd, galw, lleoedd ychwanegol, addasu at ddibenion newydd a mannau sy'n cael eu tanddefnyddio. Dylai'r strategaeth nodi ansawdd a lleoliadau pwyntiau gwefru cerbydau trydanol (EV).</p>	<p>Dylai'r strategaeth parcio ceir gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Archwiliad o gapasiti a defnydd meysydd parcio yng nghanol y dref ar hyn o bryd Dealltwriaeth lawn o berchnogaeth tir, cyfamodau a threfniadau prydles y meysydd parcio Deall y lefelau defnyddio a pharcio ceir am ddim Gweithio gyda landlordiaid allweddol Cysylltiad ag astudiaethau maes parcio aml-lawr Pool Side a Chei Llechi Asesu opsiynau parcio i fysis a gollwng/casglu Asesu'r galw am leoedd dros y blynyddoedd i ddod Asesu darpariaeth a galw pwyntiau gwefru i gerbydau trydanol Datblygu opsiynau rhannu defnydd o leoedd, fel y bo'n briodol Asesu a yw safleoedd yn amherthnasol i'r angen ac a ellir eu defnyddio at ddibenion eraill 	CG	Tymor byr	Uchel
<p>Strategaeth teithio llesol: Asesu seilwaith teithio llesol a llwybrau yng nghanol y dref a chysylltu gweddill Caernarfon ac ardaloedd cefn gwlad.</p>	<p>Dylai'r strategaeth teithio llesol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesu llwybrau beicio a cherdded presennol, seilwaith, arwyddion etc. Nodi bylchau mewn darpariaeth seilwaith Nodi pryderon diogelwch ar gyfer beicio a cherdded Nodi cyfleoedd i wella llwybrau i ardaloedd preswyl a chefn gwlad Asesu cyfleoedd i sefydlu cynlluniau llogi beiciau e-sgwteri Gwaith ar opsiynau ac opsiynau a ffefrir llwybrau 	CG	Tymor byr	Uchel

Prosiectau	Camau Gweithredu Allweddol/Ymagwedd Gyflwyno	Arweinydd	Amseru	Blaenoriaethu
	<ul style="list-style-type: none"> Paratoi ymgyrch hyrwyddo i amlygu seilwaith a llwybrau newydd 			
<p>Strategaeth Tai: Asesu opsiynau i gynyddu nifer y tai newydd yng nghanol y dref, gan gynnwys marchnad breifat, tai cymdeithasol a hen lety, asesu opsiynau anogaeth i annog rhyddhad mannau sy'n cael eu tanddefnyddio uwchben unedau manwerthu at ddibenion preswyl.</p>	<p>Dylai'r strategaeth tai gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> Asesu darpariaeth bresennol o ran tai yng nghanol y dref ac ar ei chyffiniau, gan gynnwys nifer, ansawdd, topoleg, perchnogaeth a chyfraddau meddiannaeth. Asesu'r galw ar gyfer tai yng nghanol y dref Asesu'r galw am dai cymdeithasol ac i bobl hŷn Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol megis cymdeithasau tai, GISDA a datblygwyr preswyl lleol Nodi safleoedd ar gyfer cynlluniau tai posib yng nghanol y dref, gan gynnwys byw â chymorth, tai cymdeithasol ac opsiynau ar gyfer y farchnad agored Argymhellion ar raddfa, amseru a lleoliadau cynlluniau tai yng nghanol y dref Cyfleoedd ar gyfer ailddatblygu/addasu at ddibenion newydd mewn perthynas â mannau sy'n cael eu tanddefnyddio yng nghanol y dref ar gyfer tai, yn enwedig stoc swyddfeydd sy'n wag 	CG	Tymor canolog	Canolog
<p>Archwilio darpariaeth gwasanaethau iechyd: Asesu darpariaeth bresennol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yng Nghaernarfon a phenderfynu a yw'n addas i anghenion lleol. Os yw'n briodol, nodi lleoliad(au) ar gyfer cyfleusterau pellach yng nghanol y dref.</p>	<p>Asesu darpariaeth bresennol, gan gynnwys perfformiad, capasiti, hygyrchedd a lleoliadau gwasanaethau eraill. Os bydd angen safleoedd pellach, dylai'r ffocws fod ar leoliadau yng nghanol tref Caernarfon, gan gynnwys cydleoli cyfleusterau ategol ac aildddefnyddio stoc sy'n cael ei danddefnyddio.</p>	Betsi Cadwaladr	Tymor byr	Canolog

Ffynhonnell: BE Group, 2023

Ffigur 10 – Cynllun Strategol



Prif Ymyriadau i Ganol y Dref

- 1 **Ardal Adfywio Pool Side.** Creu profiad gwell o byrth drwy wella manau cyhoeddus ac archwilio gwaith adfywio safle'r maes parcio aml-lawr. Darparu gorsaf fysus integredig, man cyhoeddus newydd a chysylltedd dwyrain-orllewin cryf. Archwilio datgelu rhan o Afan Cadnant.
 - 2 **Ardal Adfywio Cei Llechi.** Gwella cysylltedd â Sgwâr y Castell a'r orsaf drenau a chynnig man cyhoeddus newydd ar y glannau a lle hyblyg ar gyfer digwyddiadau.
 - 3 **Ardaloedd Ymyrryd Stryd y Llyn, Stryd y Bont a Stryd Bangor.** Ystyried rhaglen anogaeth i gefnogi gwelliannau i flaenau siopau. Archwilio'r cyfle i ddarparu hwb mentergarwch mewn eiddo gwag. Cefnogi'r economi sylfaenol.
 - 4 **Y Maes.** Gwella mynediad a'r defnydd o le drwy ddarparu lle mwy amddiffynadwy i gerddwyr ac amlinellu symudiadau ffafriol i geir. Profi gosodiadau hyblyg ar gyfer y lle gyda chelfi a phlanwyr symudol i gefnogi'r defnydd o sgwâr drwy gydol y flwyddyn.
 - 5 **Promenâd.** Archwilio estyniad o'r promenâd gydag ardal o ddecio i ddarparu lle i weithgareddau hamdden.
 - 6 **Sgwâr y Pendist.** Gwella manau cyhoeddus a blaenau adeiladau a bywiogi'r Sgwâr ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol/hamdden/celfyddydol.
 - 7 **Lle Pced y Glannau.** Gwella'r lle wrth ymyl y bont droi a chynnig darpariaeth meinciau eistedd.
 - 8 **Pont newydd i gerddwyr a beiciau.** Astudiaeth o ddichonoldeb i ystyried elfennau lleoliad, natur, gweithrediad, costau a dylunio'r bont newydd.
 - 9 **Ardal Adfywio Hir Dymor Heol San Helen.**
 - 10 **Ardaloedd Adfywio Hir Dymor Doc Victoria.**
 - 11 **Ymyriad Goleuadau ar Furiâu'r Dref.** Amlygu muriau'r dref drwy oleuadau nodwedd.
 - 12 **Dref Gaerog.** Gwella manau cyhoeddus y tu mewn i'r muriau ac archwilio cyfleoedd i greu llwybr cerdded muriau'r dref.
 - 13 **Ardal y Drosffordd.** Aiddatblygu ardal y drosffordd i gynnig gwell pyrth dwyreiniol. Archwilio'r cyfle i ddarparu llwybr teithio llesol gwyrdd i gysylltu Stryd y Llyn â Stryd Bangor ar hyd yr A4871 a chynnig manau cyhoeddus newydd a seilwaith glaswyrdd.
- Gwneud adeilad gwag yn weithredol eto.** Archwilio cyfleoedd â pherchnogion adeiladau i wneud unedau manwerthu gwag yn weithredol eto. [Darperir tabl manwl ar wahân].

Mae'r prosiectau wedi'u nodi yn erbyn y themâu canllawiau canlynol Creu Lleoedd Cymru:

- Pobl a Chymuned
- Lleoliad
- Symudol
- Cynnwsgeddi o Ddiwyddiadau
- Parth Cyhoeddus
- Hanesiaeth

Darperir disgrifiad pellach o brosiectau tref gyfan ar wahân yn y ddogfen. Mae'r rhestr yn cynnwys: Rhaglen Digwyddiadau Ehangedig; Gwyrddu Strydoedd; Strategaeth Canford Ffordd; Strategaeth Celf Gyhoeddus; Llwybr Hanesyddol; Strategaeth Parcio Ceir; Strategaeth Cysylltedd; Strategaeth Tai.


- Rheilffordd Ucheldir Cymru
- Castell Caernarfon a Muriau'r Dref
- Goleuadau nodwedd ar furiau'r dref
- Ardal Adfywio
- Ardal Ymyriad
- Gwella Mannau Cyhoeddus Gwyrdd
- Ymyriadau Mannau Cyhoeddus Allweddol
- Gwneud adeiladau allweddol gwag yn weithredol eto
- Gwneud adeiladau gwag yn weithredol eto
- Gwelliant Cysylltiad Allweddol
- Llwybr Gwelltredol Gwyrdd Newydd
- Llwybr Beicio a Cherdded Newydd Lleoliad Posib y Bont i Gerddwyr
- Ardaloedd Adfywio Hir Dymor
- Mannau Cyhoeddus Allweddol Presennol
- Mannau Cyhoeddus Allweddol Newydd
- Mannau Cyhoeddus Gwyrdd Newydd
- Lle Presennol i Ddigwyddiadau
- Lle Newydd i Ddigwyddiadau
- Cyfleoedd ar gyfer Darpariaeth Hamdden, Chwarae a Chwaraeon
- Maes Parcio
- Maes Parcio Aml-lawr
- Gorsaf Fysus
- Man Gollwng/Casglu Coetsis i Dwristiaid
- Man Gwyrdd
- Y Dref Gaerog

Drawing Title: Caernarfon - Strategy Plan
Project: Caernarfon Placemaking Plan



Ffigur 11 – Y Maes

Welsh Translation Placeholder
.....



Amcanion Allweddol Ymyriad Y Maes
Cynyddu'r defnydd gweithredol o Sgwâr Castell drwy gydol y flwyddyn gyda rhaglen estynedig o ddigwyddiadau. Defnydd celfi a phlanwyr dinesig symudadwy i gefnogi'r defnydd anffurfiol o le a phrofi'r gosodiadau gwahanol. Archwilio'r cyfle i ddarparu elfennau canopi/cysgod.
Cynnig ymdeimlad cliriach o gyfeiriad i symudiadau ceir wrth gynnal statws lle a rennir drwy drin wynebau neu'r defnydd o gelfi dinesig symudadwy.
Cynnig cysylltedd gwell â Chei Llechi drwy ddymchwel y toiledau cyhoeddus a darparu cysylltiad ffisegol a gwledol clir rhwng y ddwy ardal.

- Eglurhad:
- Ardal Ymyriad
 - Nodwedd Dŵr Presennol
 - Gwella llwybrau i gerddwyr
 - Porth Allweddol
 - Symudiadau Cerbydau Presennol
 - Maes Parcio Presennol
 - Amlinellid Symudiadau Dymunol i Gerbydau
 - Cofadellad a Adleolir
 - Llinell Ddymchwel
 - Man Cyhoeddus Allweddol [Bob Amser wedi'i Actifadu]
 - Man Cyhoeddus Allweddol [Actifadu Hyblyg]
 - Parcio Anabl
 - Tacsï
 - Parcio Ceir

Drawing Title: Y Maes/Castle Square Conceptual Design
Project: Caernarfon Placemaking Plan

theurbanists

Ffynhonnell: The Urbanists, 2023


Ffigur 12 – Braslun o'r Ymyriadau i'r Maes



Ffynhonnell: The Urbanists, 2023

Ffigur 13 – Pool Side

Welsh Translation Placeholder
.....



Amcanion Allweddol Adfywio Pool Side
 Darparu porth deniadol a chroesawgar i'r dwyrain.
 Gwella cysylltiad rhwng y dwyrain a'r gorllewin a chynnig cysylltiad gwella i Pool Street.
 Ehangu a gwella'r seilwaith glaswyrdd presennol drwy ailagor rhan o'r
 Afon Cadnant hanesyddol, 0l-osod SuDS a phlannu coed newydd ar hyd coridor yr A4871 wedi'i adfywio.
 Creu llwybrau teithio llesol gwyrdd drwy ailgynllunio safle'r drosffordd a rhesymegu ei gynllun mewn ffordd sydd o fudd i ddefnydd a symudiadau cerddwyr/beicwyr.
 Darparu lle cyhoeddus gwyrdd llesol a darpariaeth yng nghanol y dref.

- Legend:
- Ardal Ymyriad
 - Camlas Agored [Adfywio Afon Cadnant]
 - Gwella llwybrau i gerddwyr
 - Llwybrau i gerddwyr arfaethedig
 - Porth Allweddol
 - Symudiadau Cerbydau Arfaethedig Newydd
 - Gorsaf Fysus Arfaethedig
 - Maes Parcio Arhosiad Byr Newydd
 - Mannau Cyhoeddus Gwyrdd Newydd
 - Lle Cyhoeddus a Phyrth Gwell
 - Ardaloedd Gwyrdd Presennol
 - Seilwaith Glaswyrdd Integredig
 - Darpariaeth Mannau Cyhoeddus Gwyrdd Newydd
 - Llwybr Teithio Llesol Arfaethedig
 - Adeilad Cyfle Alldatblygu
 - Gwelliant i Ffasâd [e.e. Muriâu Gwyrdd/Murluniau]
 - SuDS / Safle Rheoli Dŵr


Drawing Title: Penllyn/Pool Side Conceptual Design
 Project: Caernarfon Placemaking Plan

theurbanists

Ffynhonnell: The Urbanists, 2023

Ffigur 14 – Cei Llechi

Welsh Translation Placeholder
.....



Amcanion Allweddol Adfywio Cei Llechi

Cryfhau'r cysylltiad rhwng Cei Llechi a chanol y dref.
 Crau man cyhoeddus bywiog, amrywiol a gweithredol i breswylwyr ac ymwelwyr ei fwynhau drwy gydol y flwyddyn.
 Cynyddu nifer yr ymwelwyr â safle Cei Llechi drwy adleoli'r man gollwng i goetsis twristiaid o flaen yr Orsaf Rheilffordd Ucheldir Cymru bresennol.
 Sbarduno'r broses o adfywio glannau'r afon ac ailgysylltu canol y dref ag Afon Seiont.

- Legend:
- Ardal Ymriad
 - Rheilffordd Ucheldir Cymru
 - Man Gollwng Coetsis Presennol
 - Man Gollwng/Casglu Coetsis i Dwristiaid Arfaethedig
 - Gwella llwybrau i gerddwyr
 - Porth Allweddol
 - Symudiadau Corbydau Presennol
 - Symudiadau Coetsis Twristiaid Arfaethedig
 - Safle Storio Cychod
 - Adeiladau wedi'u dymchwel
 - Mannau Cyhoeddus ar y Glannau
 - Ardal Ychwanegol/Cysgod
 - Mannau Cyhoeddus Hyblyg
 - Coridor Symud
 - Man Gwefru Ceir Trydan/Maes Parcio a Godwir
 - Man Gwyrdd
 - Dŵr
 - Ardal Lanwol
 - Adleoliad Pont i Gerddwyr Bosib
 - Maes Parcio Cei Llechi a Godwir

Drawing Title: Cei Llechi/Slate Quay Conceptual Design
 Project: Caernarfon Placemaking Plan

theurbanists

Ffynhonnell: The Urbanists, 2023

Eiddo Gwag

7.15 Mae eiddo gwag sy'n cael ei farchnata yng nghanol y dref wedi cael eu hadolygu ar gyfer y potensial i'w hailddatblygu, ailgaffael a'u hadnewyddu. Darperir manylion yr unedau hyn yn Atodiad 4. Mae'r eiddo gwag yn cynrychioli cyfleoedd i ailfywiogi canol y dref, gan gynnwys rhoi rhai o'r ymyriadau arfaethedig a restrwyd uchod ar waith. Mae'r tabl canlynol yn cynnig rhagor o wybodaeth sut y gellir defnyddio'r eiddo gwag i symud ymlaen â'r agenda Cynllun Creu Lleoedd.

Tabl 18 – Defnyddio Eiddo Gwag

Eiddo	Aildefnyddio'r Eiddo	A allai fod yn berthnasol i'r ymyriadau hyn
Cornel yr Hen Fanc ar Stryd y Llyn/y Maes	Yn cael ei ailddatblygu gan GISDA fel llety pobl ifanc a gwasanaethau cymorth.	<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Tai
1-3 Stryd y Llyn – hen KFC	Potensial am ddefnydd dros dro, galeri/gweithdy creadigol neu ei aildefnyddio at ddibenion manwerthu	<ul style="list-style-type: none"> • Ailfywiogi unedau gwag • Gwelliannau mannau cyhoeddus ar hyd Stryd y Llyn • Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn
22-24 Stryd y Llyn – hen Superdrug	Potensial am ddefnydd dros dro, galeri/gweithdy creadigol neu ei aildefnyddio at ddibenion manwerthu. Fflatiau'n bosib ar y lloriau uchod.	<ul style="list-style-type: none"> • Ailfywiogi unedau gwag • Gwelliannau mannau cyhoeddus ar hyd Stryd y Llyn • Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn • Strategaeth Tai
14 Y Maes – hen Poundstretcher	Cyfle i droi'r lloriau uwch yn fflatiau. Manwerthu ar y llawr gwaelod.	<ul style="list-style-type: none"> • Ailfywiogi unedau gwag • Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn • Strategaeth Tai
62 Stryd y Llyn	Golwg allanol o safon. Cyfle i droi'r lloriau uwch yn fflatiau. Manwerthu ar y llawr gwaelod.	<ul style="list-style-type: none"> • Ailfywiogi unedau gwag • Strategaeth Tai
Cornel Stryd y Bont	Lle manwerthu/masnachol ar y llawr gwaelod a fflatiau ar y lloriau uchaf. Fel arall, addasu at ddiben newydd, fel canolfan fusnes. Potensial ar gyfer caffael gan CG.	<ul style="list-style-type: none"> • Ailfywiogi unedau gwag • Cyflwyno'r hyb mentergarwch • Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn • Strategaeth Tai
Blaen 9 Stryd y Bont	Wedi'i brynu'n ddiweddar gan CG o endid preifat. Posibilrwydd manwerthu/masnachol neu ddychwel i wella'r golygfeydd (yn annhebygol yn dilyn gwerthiant diweddar).	<ul style="list-style-type: none"> • Ailfywiogi unedau gwag • Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn
3 Penllyn	Gellir ystyried y safle hwn fel rhan o uwchgynllun ardal Pool Side. Byddai gweithredoedd posib yn amrywio o	<ul style="list-style-type: none"> • Astudiaeth o ddichonoldeb tynnu maes parcio aml-lawr o Pool Side

Eiddo	Aildefnyddio'r Eiddo	A allai fod yn berthnasol i'r ymyriadau hyn
	aiflywiogi'r llawr gwaelod a gwelliannau allanol i ddymchwel yn llwyr.	<ul style="list-style-type: none"> Gwella pwynt mynediad yn Pool Side Aiflywiogi unedau gwag Cyflwyno'r hyb mentergarwch Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn Strategaeth Tai
33-35 Stryd y Bont	Lle manwerthu/masnachol ar y llawr gwaelod a fflatiau ar y lloeriau uchaf.	<ul style="list-style-type: none"> Aiflywiogi unedau gwag Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn Strategaeth Tai
22 Stryd Bangor	Lle manwerthu/masnachol ar y llawr gwaelod a fflatiau ar y lloeriau uchaf.	<ul style="list-style-type: none"> Aiflywiogi unedau gwag Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn Strategaeth Tai
5-7 Stryd Bangor – yr hen Barclays Bank	Defnydd gwasanaethau, masnachol neu fusnes. Potensial ar gyfer caffael gan CG.	<ul style="list-style-type: none"> Aiflywiogi unedau gwag Cyflwyno'r hyb mentergarwch
Adeiladau'r Goron	Deall bod cynigion cyfrinachol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd. Anodd addas at ddiben arall oherwydd maint, cynllun yr adeilad a lleoliad, ond gallai mathau eraill o ddefnydd fod yn swyddfeydd, addysg, sefydliad y sector cyhoeddus a phreswyl.	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwyno'r hyb mentergarwch Strategaeth Tai
Yr Hen Lys	Adeilad o bwysigrwydd treftadaeth sylweddol sy'n cael ei ddefnyddio'n rhannol. Ffafiaeth gref am ddefnydd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, megis twristiaeth, bwyta, amgueddfa, gwesty.	<ul style="list-style-type: none"> Yr Hen Lys Canolfan ddehongli/amgueddfa i amlygu hanes eang Caernarfon
Copa Bar a Chlwb Nos	Mae'n debygol y bydd y bar/club nos yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y mae, yn enwedig gan fod amser sylweddol i fynd ar y brydles, er y gallai ymdrechion y perchennog arwain at newid y defnydd ac felly trafodaethau â pherchnogion newydd, pan fydd y cynnig terfynol yn cael ei argymhell. Os byddai'n dod i'r farchnad, mae'r posibilrwydd am ganolfan i ymwelwyr neu amgueddfa oherwydd ei leoliad amlwg ar y Maes, er y gallai costau ei gwneud hi'n anodd ei gaffael.	<ul style="list-style-type: none"> Canolfan ddehongli/amgueddfa i amlygu hanes eang Caernarfon

Flynhonnell: BE Group, 2023

7.16 O'r safleoedd uchod, dylid ystyried y canlynol i fod yn flaenoriaethau ar gyfer ymyriad pellach, ymgysylltiad/cydweithio â pherchnogion neu gaffaeliad.

Ymgysylltiad/cydweithio â pherchnogion

- 1-3 Stryd y Llyn, hen KFC
- 14 Y Maes – hen Poundstretcher
- 3 Penllyn
- Adeiladau'r Goron
- Yr Hen Lys

Caffaeliad

- Cornel Stryd y Bont
- 5-7 Stryd y Bont – yr hen Barclays Bank

Camau nesaf

7.17 Mae'r uchod yn cyflwyno uchafbwyntiau strategaeth amrywiaeth o brosiectau, y gellid cyflwyno llawer ohonynt ar yr un pryd, gan ddibynnu ar alw, adnoddau, capasiti a lefelau tarfu ar ganol y dref. O'r 27 o ymyriadau arfaethedig, argymhellir 15 o'r rhain fel prosiectau ar unwaith neu dymor byr, gan olygu y dylid eu dechrau o fewn blwyddyn (os bydd adnoddau'n caniatáu hynny). Mae'r cynlluniau fel a ganlyn:

Yn syth

- Yr Hen Lys
- Ailfywiogi unedau gwag
- Archwilio opsiynau ar gyfer darparu lle mwy amddiffynadwy a diffiniad ar y Maes
- Creu mwy o fannau gwyrdd ar strydoedd
- Gwella golau ar furiau'r dref

Tymor byr

- Gwelliannau manau cyhoeddus ar hyd Stryd y Llyn
- Gwella llwybrau i gerddwyr
- Uwchgynllun ardal Cei Llechu/Heol San Helen
- Astudiaeth o opsiynau a dichonoldeb i bont newydd i gerddwyr/beicwyr dros Afon Seiont o Gei Llechi i'r parcdiroedd
- Gwelliannau blaenau siopau, yn enwedig ar hyd Stryd y Llyn
- Rhaglen o ddigwyddiadau
- Cynyddu'r defnydd o'r Castell i ddigwyddiadau
- Strategaeth parcio ceir

- Strategaeth teithio llesol
- Archwilio darpariaeth gwasanaethau iechyd

7.18 Bydd y gyfres hon o brosiectau tymor byr yn cynnig yr ysgogiad i adnewyddu ac adfywio canol y dref, gan gynnwys prosiectau sydd â chostau isel o flaen llaw. Bydd y prosiectau hyn yn helpu i ailfywiogi canol y dref, yn enwedig drwy wella manau ac adeiladau cyhoeddus yn ffisegol a defnyddio manau'n fwy. Argymhellir Cyngor Gwynedd fel arweinydd sawl un o'r ymyriadau. Fodd bynnag, disgwylir i sefydliadau eraill, gan gynnwys Cyngor Tref Caernarfon, Ymddiriedolaeth Harbwr, HWB Caernarfon a Chastell Nghaernarfon.

7.19 Mae'r gwelliannau pyrth yn debygol o fod yn brosiectau tymor hwy ac maent yn dibynnu ar/yn gysylltiedig â'r penderfyniad am y drosffordd. Fodd bynnag, mae'r ymyriadau hyn yn debygol o fod yn fuddsoddiadau sylweddol a dylai Cyngor Gwynedd geisio deall goblygiadau cyllido'r prosiectau hyn cyn gynted â phosib i gynnwys cyllidebau'r dyfodol.

Monitro ac arfarnu Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Caernarfon

7.20 Dylai'r rhaglen uchod o brosiectau gael ei monitro a'i harfarnu'n rheolaidd i sicrhau bod cynnydd yn cyd-fynd â disgwyliadau. Bydd monitro'n cynnwys:

- Casglu data ar fetrigau/dangosyddion clir o gynnydd. Gallai metrigau o'r fath gynnwys ymweliadau/nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref, lefelau gwacter, lefelau boddhad defnyddwyr/preswylwyr, dechrau newydd, etc.
- Adolygu cynnydd yn erbyn cerrig milltir allweddol
- Adolygu canlyniadau yn erbyn gweledigaeth ac amcanion
- Ymgynghoriadau â thimoedd cyflawni a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys defnyddwyr canol y dref.

7.21 Argymhellir prosiectau gwerthuso penodol hefyd.

Atodiad 1

Sylwadau ar Ganol y Dref

Canol y Dref – Covid a Newid Economaidd Strwythurol

- A1. Sbardunodd dirwasgiad economaidd byd-eang 2008 yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel “storm berffaith” i ganol trefi a’r diwydiant manwerthu dros y blynyddoedd ar ôl hynny, nad oedd ansicrwydd ynghylch Brexit yn ei helpu. Cafodd y sector sioc drawiadol yn sgil pandemig Covid-19 gan sicrhau bod y cloi economaidd yn cael ei waethygu ymhellach gyda’r argyfwng costau byw presennol, yr argyfwng ynni a chwyddiant yn frwydro.
- A2. Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd canol trefi eisoes yn wynebu newidiadau a heriau strwythurol. Er bod hyder mewn busnesau wedi adfer o’r argyfwng ariannol erbyn tua 2012, roedd cyfyngu o hyd mewn gwariant gan ddefnyddwyr, ochr yn ochr â chostau gweithredu a oedd yn cynyddu’n fawr i fanwerthwyr. Yn wir, roedd llawer o fanwerthwyr cenedlaethol eisoes yn rhy agored i “ruthro am le” blaenorol wedi’i waethygu gan y newid enfawr mewn ymddygiad gwario o dwf e-fanwerthu a “diwylliant cyfleustra”. Gyrodd hyn ar y don gyntaf o siopau mawr yn cau a chwmnïoedd manwerthu’n mynd yn fethdal, ac ymysg yr enwau mwyaf oedd Woolworths ac MFI.
- A3. Roedd eisoes pryderon bod 2019 wedi’i ystyried i fod y record waethaf o ran manwerthu Prydain. Roedd cyfraddau gwacter canol trefi’n cynyddu unwaith eto, i 12% yr holl unedau siopau ledled y DU, gan achosi pryder mawr, ac roedd cariad defnyddwyr at ganol trefi yn dechrau dirywio, wrth i nifer yr ymwelwyr leihau. Roedd llawer mwy o fusnesau cenedlaethol yn cau wrth i weithredwyr annibynnol llai, sy’n tueddu i ddibynnu ar nifer ymwelwyr siopa angor mawr, yn debygol o fod yn ei chael hi’n anodd iawn ymdopi o gwbl.
- Yna yna, aeth pethau’n waeth byth yn 2020.....**
- A4. Diflannodd yr ymwelwyr â chanol trefi’n gyfan gwbl yn ystod y pandemig, wrth i fanwerthu ar-lein neidio i fod yn fwy na thraean o wariant y DU. Parhau i leihau wnaeth canol trefi wrth i fwyfwy o siopau gau nac agor a chyfraddau gwacter cyfartalog y DU gyrraedd uchafbwynt o tua 15% erbyn C2 2021, er eu bod yn parhau i fod yn uchel ar 13.8% erbyn diwedd 2022. Mae’r sefyllfa yng Nghymru wedi bod llawer yn arafach i adfer, gyda chyfraddau gwacter canol trefi cyfartalog oddeutu 16.2% yn C4 2022 yn ôl ymchwil gan Local Data Company. Dim ond yng ngogledd-ddwyrain Lloegr mae cyfraddau gwacter uwch o tua 18.2% ar ddiwedd 2022.

- A5. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg oedd bod adferiad trefi llai yn seiliedig ar eu dalgylch uniongyrchol a oedd yn hanfodol, a bod canolfannau cyfleustra lleol yn fwy poblogaidd gyda chanolfannau masnachol mwy yn parhau i fod yn destun effaith "gweithio gartref" gan arwain at nifer lai o ymwelwyr a llai o weithgaredd hamdden.

Ond nid ydym ni'n ddiogel eto yn 2023.....

- A6. Wrth i fusnesau a chymunedau ganfod eu ffyrdd tuag at adferiad ac addasu i "normal newydd" mesurau cadw pellter cymdeithasol, roedd sioc economaidd arall yn dilyn Rwsia yn ymosod ar Wcráin ym mis Chwefror 2022. Gwnaeth yr argyfwng ynni bydeang yn sgil hwn achosi chwyddiant anferth, gan arwain at Fanc Lloegr yn cynyddu costau benthyg mewn ymgais i leihau pwysau ond gwnaeth hyn dim ond arwain at gyfyngiadau pellach ar ddefnyddwyr ac incwm gwario o ran gwariant hamdden a manwerthu. Dyma'r cefndir y mae angen cynllunio gweledigaeth newydd sbon ar gyfer canol trefi – gan gynnwys Caernarfon – ynddo, a myfyrio ar bolisi adfywio a chynllunio tymor hir.

Amser ailfeddwl canol ein trefi.....

- A7. Mewn llawer o ffyrdd, mae effaith economaidd pandemig Covid-19, er yr oedd yn sylweddol yn ei hun, dim ond wedi cyflymu newidiadau strwythurol a oedd eisoes wedi'i sefydlu ac a oedd yn effeithio ar ganol ein trefi. Mae rhai o'r tueddiadau a'r effeithiau fel a ganlyn:
- Mae amlygrwydd pennaf manwerthu mewn canol trefi wedi dod i ben – mae angen cyfuniad cymdeithasol ehangach o weithgareddau mewn canol trefi.
 - Ffocws cynyddol ymhlith defnyddwyr ar "gyfleustra" – yn enwedig o ran hygyrchedd mannau, ymateb i 'glicio a chasglu' ac ymateb dosbarthu'r un diwrnod gan fanwerthwyr ar-lein. Ni ddylai fod yn syndod bod cyfleustra siopa ar-lein, yn enwedig technoleg symudadwy, wedi'i sefydlu mor gadarn – mae hyn yn gwrthgyferbynnu ag oriau agor mwy cyfyngedig siopau yn y dref.
 - Mae gwerth masnachol dosbarth asedau manwerthu wedi diflannu, ac mae hyd yn oed landlordiaid a buddsoddwyr yn wynebu effaith go iawn o rent yn cael ei ddal yn ôl ac ymddatodiad gwirfoddol cwmnïoedd yn gorfodi rhenti llai a thorri prydles. (Sylwer ar chwalu Intu Properties yn 2020, a oedd yn berchennog rhai o ganolfannau siopa mwyaf Prydain).
- A8. Yn ymarferol, mae canol ein trefi bob amser wedi addasi mewn ymateb i alwadau a phwysau economaidd sy'n newid, er nad ar yr un cyflymder o reidrwydd. Gan edrych

tua'r dyfodol, mae rhai o'r ysgogwyr allweddol sy'n cael eu hystyried i fod yn hanfodol i lwyddiant lleoedd yn y dyfodol yn cynnwys:

➤ **Rhagolygon Cyflogaeth Leol**

Bydd canol trefi bywiog (sy'n canolbwyntio ar fanwerthu neu hamdden) yn dibynnu ar economi leol iach. Bydd canol trefi'n wynebu heriau gwahanol, gan ddibynnu ar a ydynt yn gwasanaethau aneddiadau sy'n teithio tuag i mewn neu tuag allan.

➤ **Tueddiadau Demograffig**

Bydd demograffeg sy'n newid (o ran maint poblogaeth a strwythur oedran) yn arwain at alwadau gwahanol mewn trefi o ran mynediad, symudiad a'r ymdeimlad cyffredinol o le.

➤ **Cymunedau sy'n Gysylltiedig**

Mae gwerth meddwl a gweithredu'n lleol wedi cynyddu yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud wrth i lawer o bobl ailasesu eu teithiau traddodiadol i'r gwaith ac ailystyried hygyrchedd lleol gwasanaethau, adloniant, hamdden a gweithgareddau siopa. Mae hyn, yn ei dro, yn creu mwy o alw am dai o fewn pellter cerdded canol trefi.

Mae tystiolaeth o hyn mewn dyrchafiad y syniad o ddinasoedd milltir sgwâr wrth i bobl hefyd chwilio am le mwy hyblyg yn eu cartrefi. Mae cysylltedd digidol gwydn yn ein cartrefi bellach hefyd yn hollbwysig pan ddaw i benderfyniadau prynu.

➤ **Technoleg Ddigidol a Symudol**

Rhaid i ganol trefi addasu ac ymateb i alwadau technoleg a chanfod ffyrdd o ryngweithio'n fwy effeithiol â defnyddwyr y dyfodol; yn enwedig os ydynt yn dymuno denu defnyddwyr iau.

➤ **Amgylcheddau Arbrofol**

Mae ymddygiad defnyddwyr wedi symud i ffwrdd o siopa fel y prif bwrpas i alw am brofiadau ehangach a mwynhau "lleoedd". Er bod hyn wedi'i oedi yn ystod y pandemig, mae disgwyl i'r tueddiad hwn ailgychwyn mewn canol trefi, y mae angen iddynt gynnig cyfuniad ehangach o weithgareddau a digwyddiadau diwylliannol wrth hefyd greu amgylcheddau diogelach ar gyfer cysylltiadau sy'n gryfach yn gymdeithasol.

➤ **Pwysigrwydd Lle a Diogelwch**

Heb os, mae pandemig Covid-19 wedi peri i bobl ailystyried eu hamgylchoedd a'u cartrefi ac mae'n glir bod premiwm bellach ar fynediad i fannau gwyrdd – yn y cefn gwlad ehangach ac yn ein hardaloedd dinesig. Mae creu mannau cyhoeddus effeithiol, diogel a deniadol yn hollbwysig wrth gynllunio lleoedd llwyddiannus ar gyfer y dyfodol. Mae syniadau am le personol ac effaith dwysedd poblogaeth ar bobl wrthi'n datblygu, ac mae angen rhagor o le i bob person, p'un ai ei fod yn gorffwys neu'n symud. Gallai hyn arwain at y dyhead o droetffyrdd ehangach a rhagor o le ar gyfer seddau yn yr awyr agored. Mae lleoedd sy'n cynnig ymdeimlad cryfach o ddiogelwch personol yn debygol o greu mantais gystadleuol.

➤ **Galwadau Newid yn yr Hinsawdd**

Mae ymatebion defnyddwyr at newid yn yr hinsawdd yn arwain at bwysau i brynu'n lleol, gan leihau'r angen i deithio ac am becynnu diangen. Rhywbeth a ddaeth i'r amlwg mewn ffordd arbennig iawn yn ystod y pandemig oedd y syniad bod masnachwyr lleol ac annibynnol yn mynd "cam ymhellach" i helpu. Bydd y sector e-fanwerthu'n gyflym i ymateb i'r heriau hyn, gyda newidiadau o ran pecynnu a buddsoddiad mewn cerbydau trydanol i'w dosbarthu. Rhaid i ganol trefi ymateb hefyd.

Eglurder Rôl a Swyddogaeth Wedi'u gwreiddio mewn ymdeimlad o le.

A9. Amlygodd ymchwil gan Dasglu'r Stryd Fawr i Loegr (y Sefydliad Rheoli Lle 2017) fod gan drefi "gynnig" unigryw a chynnig marchnad sy'n tueddu i ddenu rhagor o gwsmeriaid. Mae trefni sy'n cydnabod eu hanghenion marchnad yn ymateb yn fwy effeithiol i ddisgwyliadau defnyddwyr ac yn ysgogi ymweliadau rheolaidd ac ail dro. Wrth reswm, rhaid i'r cynnig unigryw dreiddio'r dref gyfan sy'n cyfuno ffurf a swyddogaeth ac yn creu ymdeimlad unedig o le. Mae rhai o'r rolau unigryw i'w hystyried yn cynnwys:

- **Rôl cyfleustra/gwasanaeth:** sy'n cynnwys siopau bwyd, swyddfeydd post, banciau, fferyllfeydd, siopau trin gwallt, cyfleusterau iechyd a harddwch, llyfrgell.
- **Masnachol:** swyddfeydd, canolfannau hyfforddi, cyfleusterau digwyddiad, gwestai, cyfleusterau cynhadledd.
- **Cymhariaeth:** gan gynnwys dillad, nwyddau'r cartref, teganau, cellfi, offer, gemwaith, cynnyrch iechyd a harddwch.

- **Twristiaeth:** gan gynnwys llety, atyniadau ymwelwyr, caffis.
- **Arbenigedd:** gan gynnwys marchnadoedd, y celfyddydau, theatrau, amgueddfeydd, orielau, neuaddau cyngerdd.
- **Cymdeithasol/hamdden:** gan gynnwys sinemâu, manau hamdden, bwytai, barau a thafarndai, canolfannau iechyd a ffitrwydd, neuaddau bingo, canolfannau bowlio dan do

Atodiad 2

Gweithdy Creu Gweledigaeth – Crynodeb o'r Canfyddiadau

**GWEITHDAI AC YMGYNGHORIADAU CREU GWELEDIGAETH CYNLLUN CREU
LLEOEDD CANOL TREF CAERNARFON
CRYNODEB O'R CANFYDDIADAU**

Cyflwyniad

Cynhaliodd BE Group, PER Consulting, The Urbanists a Burum ymarfer gweithdy creu gweledigaeth fel rhan o waith paratoi Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref Caernarfon.

Yn y Gweithdy Creu Gweledigaeth (23 Mawrth 2023), daeth rhanddeiliaid allweddol yng Nghaernarfon ynghyd, gan gynnwys asiantaethau'r sector cyhoeddus a sefydliadau cymunedol. Amcanion y Gweithdy oedd:

- Casglu gwybodaeth leol am faterion a chyflleoedd allweddol i Gaernarfon;
- Profi syniadau sy'n dod i'r amlwg am flaenoriaethau adfywio a chyfeiriad canol y dref;
- Cynnig mewnbwn ar ddiffiniad Gweledigaeth ar gyfer Canol y Dref

Cynhaliwyd trafodaethau unigol â'r sawl a wahoddwyd ond nad oedd modd iddynt ddod ond a wnaeth awgrymu eu bod nhw am gynnig mewnbwn i'r broses. Mae eu mewnbwn nhw wedi'i ychwanegu at y crynodeb hwn.

Ymagwedd

Yn dilyn cyflwyniad cychwynnol a oedd yn amlinellu amcanion y gweithdy, cafodd y rhai a ddaeth eu rhannu'n grwpiau bach, gydag aelod o'r tîm ymgynghori, i gael trafodaeth thematig ar Gaernarfon. Roedd y pedair thema a drafodwyd fel rhan o'r elfen hon o'r gweithdy yn cynnwys:

- A. Creu Caernarfon sy'n fwy bywiog ac yn weithgar
- B. Ehangu gweithgaredd economaidd yn y dref
- C. Cefnogi treftadaeth a hunaniaeth Gymreig yn y dref
- D. Gwydnwch a chynaliadwyedd newid yn yr hinsawdd.

Cafodd hyn ei ddilyn gan drafodaeth am leoliadau allweddol yng Nghaernarfon. Roedd y lleoliadau hyn yn cynnwys:

- A. Doc Fictoria
- B. Y Dref Gaerog
- C. Y brif ardal siopa (Stryd y Llyn, y Maes, Stryd Bangor/Penrallt)
- D. Cei Llechi, Heol San Helen a'r Foryd

Cyflwyniad Menti

Defnyddiwyd Menti, offeryn cyflwyno rhyngweithiol mewn cyflwyniad cychwynol i ofyn y cwestiynau canlynol i'r rhai a ddaeth:

- 1) Sut fydddech chi'n hoffi i bobl ddisgrifio Caernarfon?
- 2) Beth yw'r ardaloedd blaenoriaeth i fynd i'r afael â nhw yng Nghaernarfon?

Mae'r ymateb i'r cwestiwn cyntaf wedi'i ddangos isod drwy gwmwl geiriau.

Ffigur 1 – Cwmwl Geiriau 1



Un o'r tueddiadau i'w nodi o ymatebion y bobl a atebodd yw'r pwyslais ar eisiau'r dref i fod yn adnabyddus am ei chymeriad hanesyddol/traddodiadol. Mae hyn yn amlwg drwy'r defnydd o eiriau megis:

- Hanesyddol
- Diwylliannol
- Unigryw
- Cymreig

Roedd clwstwr arall o ymatebion yn pwysleisio'r dyhead y byddai Caernarfon yn cael ei hystyried i fod yn lleoliad deniadol i ymwelwyr, gan ddefnyddio geiriau megis:

- Croesawgar
- Cyfeillgar

- Bwrlwm
- Cyrchfan
- Prydferth

Yn olaf, mae dyhead clir ymhlith y rhai a ddaeth i Gaernarfon gael ei disgrifio fel lleoliad sy'n ffynnu. Defnyddiwyd geiriau megis:

- Ffyniannus
- Bywiog
- Llwyddiannus
- Egniol

Pan ofynnwyd pa ardaloedd blaenoriaeth mae angen mynd i'r afael â nhw yng Nghaernarfon, rhoddwyd yr ymatebion canlynol:

- “Yn ffyniannus ac yn greadigol;
- Syniadau gwell i annog i fwy o fusnesau i agor yn y dref;
- Mae angen datrys y Maes, a'i ystyried fel lle i bobl o bob oedran;
- Golwg cydlynus, sy'n cyfleu cymeriad hanesyddol;
- Arwyddion i gysylltu'r prif ardaloedd gydag arwyddion unffurf, sy'n denu sylw ac sy'n chwaethus.”

Mae'r holl bwyntiau a godwyd yn rhoi blaenoriaethau gwahanol ar gyfer y dref ac maent yr un mor berthnasol fel mewnbwn i'r Cynllun Creu Lleoedd. Fel gyda chwestiwn 1, mae pwysigrwydd cymeriad hanesyddol Caernarfon yn cael ei gyfleu yng ngolwg y dref yn denu sylwadau. Caiff tref “ffyniannus” ei nodi hefyd fel blaenoriaeth. Mae hyn yn ymwneud â'r angen am syniadau gwell i annog busnesau i agor yn y dref.

Yn ogystal, mae problemau gydag arwyddion wedi'i nodi fel blaenoriaeth, ynghyd â'r angen i “ddatrys” y Maes. Mae hyn yn debygol o gyfeirio at y diffyg cyfeiriad clir i geir sy'n cyrraedd y Maes, yn ogystal â defnyddio'r Maes yn fwy ar gyfer digwyddiadau, y tu allan i'r farchnad wythnosol.

Trafodaeth thematig

Roedd y drafodaeth thematig yn canolbwyntio ar bedair prif elfen:

1. Creu Caernarfon sy'n fwy bywiog ac yn weithgar
2. Ehangu gweithgaredd economaidd yn y dref
3. Cefnogi treftadaeth a hunaniaeth Gymreig yn y dref
4. Gwydnwch a chynaliadwyedd newid yn yr hinsawdd.

Mae sylwadau sy'n berthnasol i'r pwyntiau uchod wedi'u nodi isod. Mae sylwadau sy'n debyg neu sy'n codi mwy nag unwaith wedi'u cyfuno:

1. Creu Caernarfon sy'n fwy bywiog ac yn weithgar

- Yn gyffredinol, roedd y bobl a ddaeth yn credu bod Caernarfon yn lle llawer yn well yn awr nag yr oedd 10-15 mlynedd yn ôl, a bod lefel dda o ymfalchïo'n gysylltiedig â byw yng Nghaernarfon. Mae pobl ifanc bellach llawer yn fwy parod i aros/cael eu denu'n ôl i'r dref.
- Wedi Covid, mae canfyddiad bod y dref llawer yn dawelwch yn ystod y dydd y tu allan i'r tymor prysur.
- Rhagor o ddiwyddiadau a pherfformwyr stryd (e.e. Galway).
- Gellir ychwanegu murluniau ar fannau diflas a mannau disglair yng nghanol y dref.
- Awgrymwyd creu campfa awyr agored.
- Creu llwybrau teithio llesol i lenwi bylchau yn y rhwydwaith.
- Dim digon o liw ar y Maes – blodau, etc.
- Gall celf gyhoeddus, gan gynnwys murluniau, gosodiadau celf, celfi stryd bywiog ychwanegu lliw ac amwynderau i ganol y dref.
- Mae Caernarfon yn cynnal digwyddiadau llwyddiannus (e.e. Gŵyl Fwyd) ond gellir cynnal mwy, gan gynnwys digwyddiadau deillio o'r ŵyl fwyd, a digwyddiadau diwylliannol a chreadigol.
- Mae'r Castell yn gefndir hyfryd ar gyfer digwyddiadau, a chyda buddsoddiadau diweddar i'w wneud yn fwy hygyrch, gall fod yn lleoliad rhagorol ar gyfer digwyddiadau hefyd.
- Mae angen mynd i'r afael ag unedau gwag yn y dref, sy'n lleihau canfyddiadau o weithgaredd.
- Mae Caernarfon wedi gwella dros y degawd diwethaf ac mae wedi bod yn destun buddsoddiadau pwysig – ailddylunio cylchfan Heol San Helen, Galeri, gwelliannau i'r Castell, Cei Llechi ac ardal Doc Fictoria.

2. Ehangu gweithgaredd economaidd yn y dref

- Ystyrir bod twristiaeth ar ei chryfaf yn ystod ambell wythnos brysur ac mae economi'r nos yn dawel iawn.
- Mae angen Hyb Mentergarwch i ddenu a chadw busnesau bach.
- Mae angen manau cydweithio gwell.
- caffis seibr – creu lle gweithio anffurfiol.
- Mae posibilrwydd ar gyfer mentrau i ryddhau lle uwchben siopau (yn enwedig ar gyfer cartrefi).
- Cyfle i greu lleoedd i grefftwy. Sylwer bod Cei Llechi yn cynnig rhai gweithdai, ond a oes cyfle ar gyfer manau pellach mewn unedau canol y dref sy'n wag?
- Byddai'r economi ymwelwyr yn elwa o westy pris canolig yng nghanol y dref, a byddai mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion y farchnad ryngwladol.
- Gall ymwelwyr rhyngwladol, yn enwedig y rhai hynny o'r farchnad fordeithiau, dim ond ymweld â Chaernarfon i weld y Castell. Mae angen ffordd o arddangos elfennau ehangach Caernarfon i'r ymwelwyr hyn.
- Mae Caernarfon yn ganolfan ar gyfer archwilio'r ardal ehangach (gweithgareddau awyr agored, y Dyffrynnoedd Llechi) a dylid eu hyrwyddo'n fwy.

3. Cefnogi treftadaeth a hunaniaeth Gymreig yn y dref

- Dathlu hunaniaeth yng nghanol y dref.
- Dylai Caernarfon fabwysiadu a dathlu ei Chymreictod ieithyddol a'i threftadaeth. Mae'r dafodiaith yn y dref yn wahanol i fannau eraill yng Nghymru a dylai hyn fod yn nodwedd. Gallai enghraifft fod i annog mwy o fusnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn enwedig mewn perthynas ag arwyddion.
- Mae treftadaeth a diwylliant yn elfennau mawr o'r dref. Nid yn unig y Castell, ond cysylltiadau ag oesoedd eraill – y Rhufeiniaid, Rhyfel y Rhosynnau. Fodd bynnag, nid yw ymwelwyr na phreswylwyr yn ymwybodol o hyd, ac felly dylai peth fuddsoddiad fod mewn addysg.
- Dylai Caernarfon barhau i ddathlu ei hasedau treftadaeth gwych a'u hyrwyddo ymhellach.
- Mae angen amgueddfa/canolfan treftadaeth/oriel, neu gyfuniad o'r tri, i gynnal cyfoeth hanes, gwybodaeth a dealltwriaeth yn y dref.
- Fodd bynnag, rhaid cydnabod yr anhawster mawr o gynnal canolfan treftadaeth neu debyg.

- Mae asedau treftadaeth a restrir gan UNESCO yng Nghaernarfon a'r ardaloedd cyfagos (y Castell a Thirwedd Llechi gogledd-orllewin Cymru) y gellid eu hyrwyddo i ddenu rhagor o bobl i'r ardal.

4. Gwydnwch a chynaliadwyedd newid yn yr hinsawdd

- Mae beicio'n bwysig. Mae gan y dref lwybrau beicio ac mae hefyd yn ganolfan ar gyfer beicwyr ffordd brwdfrydig. Yn gysylltiedig ag agenda gynaliadwyedd, ystyried ei gwneud yn hwb ar gyfer llogi beiciau, llogi beiciau trydan a rhwydwaith o lwybrau sy'n addas i bawb.
- Mae llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Lon Las Cymru yn un o'r llwybrau allweddol yng Nghymru ac mae'n mynd drwy Gaernarfon. Mae angen sicrhau y caiff hwn ei hyrwyddo a bod gan feicwyr seilwaith i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae angen cynnal adolygiad cynhwysfawr o gyfeiriad a llif y traffig ym mhob rhan o'r dref, ac ystyried y posibilrwydd o droi rhai ardaloedd yn llwybrau i gerddwyr yn unig, o bosib rhwng 12 a 4 yn ystod yr haf, er enghraifft.
- Mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr â Chaernarfon yn teithio mewn car. Mae angen cefnogi opsiynau cludiant cyhoeddus a chludiant cynaliadwy ymhellach.
- Gallai astudiaeth o ddichonoldeb ystyried ffyrdd posib o greu ynni yn y dref – a fyddai modd defnyddio'r afon efallai?
- Mae gwasanaethau bysus Sherpa'r Wyddfa yn cynyddu ac maent yn ddefnyddiol i gysylltu Caernarfon â'r Wyddfa/y Dyffrynnoedd Llechi i ymwelwyr.
- Mae'r gwasanaeth llinell rheilffordd gul i'r Dyffrynnoedd Llechi yn wasanaeth hamdden, nad yw wir yn addas i weithwyr gwledig sy'n dod i Gaernarfon.
- Mae angen mwy o goed a gwyrddni – roedd teimlad cryf am hyn.
- Grantiau bach lleol i brynu beiciau trydan.
- Cynnig rhagor o bwyntiau gwefru i gerbydau trydan.
- Rhagor o gyfleusterau ailgylchu.
- Creu llwybrau teithio llesol i lenwi bylchau yn y rhwydwaith.
- Rheilffordd Bangor i Gaernarfon.

Trafodaeth Leoliadol

Blaenoriaethwyd pedwar prif leoliad yn yr elfen hon o'r gweithdy. Maent fel a ganlyn:

1. Doc Fictoria
2. Y Dref Gaerog
3. Y brif ardal siopa (Stryd y Llyn, y Maes, Stryd Bangor/Penrallt)

4. Cei Llechi, Heol San Helen a'r Foryd.

Mae sylwadau sy'n berthnasol i'r lleoliadau uchod wedi'u nodi isod:

1. Doc Fictoria

- Mae angen cysylltu ardal y dociau â chanol y dref
- Yn gyffredinol, mae fflatiau ar brydlesoedd hir iawn
- Mae nifer sylweddol o fflatiau sy'n wag neu sy'n cael eu tanddefnyddio
- Mae swyddfeydd a mannau manwerthu'n ddrud ac yn wag neu'n cael eu tanddefnyddio (mae Adra wedi dod â'i brydles i ben ac mae'n chwilio am swyddfeydd mwy addas yn y dref)
- Mae preswylwyr yn gyfrifol am yr ardaloedd cyfagos ond mae'r cyflwr yn dirywio ac mae'n bron i fod yn beryglus mewn rhai mannau
- Byddai'n bosib annog mwy o bysgota ac annog teuluoedd i'w ddefnyddio ac ymweld (e.e. braich doc a Phier Landerneau)
- Gosod ciosgau i werthu bwyd a nwyddau
- Mae Hafan Iechyd (y ganolfan iechyd) yn y lleoliad anghywir ac mae angen iddi fod yng nghanol y dref.

2. Y Dref Gaerog

- Mae angen canfod cyfleoedd ar gyfer yr Hen Lys
- Mae canfyddiad bod cyflwr wynebâu'r ffyrdd yn wael, a phrin yw'r ailosodiad cerrig crwn ar ôl cloddio, os o gwbl
- Nid oes cydnabyddiaeth ddigonol o statws ardal gadwraeth ac arwyddocâd hanes yr hen dref, yn enwedig safleoedd unigol (e.e. bar siampaen ac wystrys 19eg ganrif y Goron)
- Mae angen creu arwyddion a llwybrau cerdded â thema gwell
- Mae angen arwyddion cysylltiad gwell â Doc Fictoria drwy Fynedfa Stryd yr Eglwys
- Mae angen buddsoddiad mewn Ardal Chwarae i Blant ger y Black Boy a'i ddiffinio o'r "ardd gwrw" yn well
- Mae'r siopau yn yr hen dref i ymwelwyr ac yn rhy ddrud i bobl leol.

3. Y Brif Ardal Siopa (Stryd y Llyn, y Maes, Stryd Bangor/Penrallt)

- Roedd teimlad bod y Maes yn rhy anodd ei ddeall i gerddwyr gan gofio'r symud rhydd i geir; hefyd roedd teimlad nad oes digon o gysgod yno o'r tywydd. Roedd y

dewis o ddeunyddiau'n cael ei ystyried i fod anaddas gan eu bod yn llithrig yn ystod tywydd gwlyb

- Mae angen cloi ardal yn gyfan gwbl i draffig os bydd mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ar y sgwâr – nid oes modd cael y ddau
- Soniwyd bod yr ŵyl fwyd wedi bod yn boblogaidd iawn, ac awgrymwyd y dylid datblygu hyn i gynyddu nifer yr ymwelwyr
- Mae angen cysylltedd gwell rhwng y Maes a Chei Llechi
- Ystyriwyd bod Stryd y Llyn yn ardal nad oedd yn ddeniadol a bod ganddi gynnig siopa o gyflwr gwael. Wedi dweud hynny, roedd cydnabyddiaeth bod yr ardal hon yn bwysig i bobl leol oherwydd dyma le maent yn mynd i gael nwyddau sylfaenol a gwneud siopa fforddiadwy
- Roedd cefnogaeth i'r angen i wella manau cyhoeddus a chyflwyno mwy o wyrddni.

4. Cei Llechi, Heol San Helen a'r Foryd

- Awgrymwyd yr ardal o amgylch Cei Llechi fel lle ar gyfer man gwyrdd lle gallai pobl ymgynnull
- Nodwyd bod problem cadw cychod yn ystod y gaeaf yn un i'w hystyried gan eu bod yn cael eu cadw i dde'r cei ar hyn o bryd
- Trafodwyd eglurdeb Cei Llechi yn fanwl ac roedd teimlad bod nifer gyfyngedig o ymwelwyr oherwydd y cynllun. Mae angen ymyriadau i ennyn diddordeb pobl yn y cynllun
- Roedd ffafriaeth am ymyriadau dros dro/arbrofol o amgylch y Cei cyn penderfynu ar rywbeth parhaol
- Roedd cefnogaeth i'r angen i symud y bont droi tua'r de. Ystyriwyd y byddai ei symud tua'r de yn rhesymegol gan y byddai'r annog ymwelwyr â'r Cei ac yn mynd â phobl i bwynt gwell yn y Parc.
- Mae angen uwchraddio neu adleoli'r bont droi yn y tymor byr i ganolig. Mae costau gweithredu'r bont bresennol yn sylweddol a byddai arbedion hyn mewn cynllun newydd yn helpu i gefnogir achos busnes

Mae sylwadau eraill sy'n berthnasol nad ydynt yn cwmpo dan un o'r themâu uchod neu leoliadau penodol yn cynnwys:

- Mae balchder a chysylltiad sylweddol ymhlith preswylwyr lleol yng Nghaernarfon.
- Arwyddion - mae canfod ffyrdd a dehongli arwyddion yn wael. Angen bod yn weladwy ac yn gyson. Mae ymwelwyr yn mynd i'r Castell ond yn colli cymaint. Mae angen diweddarau arwyddion brown i ymwelwyr wrth y ffordd osgoi newydd.

- Mae diffyg mannau gwyrdd ar draws y dref. Un syniad oedd dychwel y drosffordd a'i throï'n llwybr beicio, ffordd unffrwd a choridor gwyrdd.
- Mae angen pyrth mwy trawiadol i ganol y dref. Ystyriwyd hyn i fod yn flaenoriaeth gan sawl ymatebydd.
- Cynigwyd y syniad o lwybrau celf creadigol ac awgrymwyd y byddai hyn yn benodol o effeithiol pe gallai fod mewn cylch o amgylch y dref a chynnwys gweithgareddau i blant apelio i deuluoedd. Nodwyd y promenâd fel cyfle penodol i gael ei gynnwys yn y llwybr hwn. Trafodwyd y syniad o ddwy bont dros y parc o faes parcio'r Castell i greu llwybr cylchol.
- Mae angen seilwaith cefnogi pellach gan gynnwys wifi gwell, dulliau canfod ffordd i ymwelwyr hŷn, mannau lle'r oedd croeso i gŵn i wneud canol y dref yn fwy deniadol.
- Mae'n bwysig iawn cadw diddordeb y gymuned a'i bod yn gefnogol o unrhyw newidiadau – mae angen gweithio gyda'r gymuned.
- Rhaid esbonio a chyfeirio at bwyntiau gollwng coetsis yn gliriach. At hynny, rhaid i ardaloedd gollwng fod yn hygyrch i bobl â symudedd cyfyngedig.
- Mae angen gwaith cynnal a chadw ar rai mannau cerrig crwn (e.e. yn agos i Wetherspoons).

Tabl 1 – Pobl a ddaeth i'r gweithdy a'u hymatebion i'r broses ymgynghori

Enw / Name	Sefydliad / Organisation
Sarah Schofield	Adra
Maria Sarnaki	Cyngor Tref Caernarfon
Cara Owen	Cyngor Gwynedd
Cyng/Cllr Gareth Coj Parry	Cyngor Gwynedd (Cynghorydd)
Cyng/Cllr Dawn Lynne Jones	Cyngor Gwynedd (Cynghorydd)
Cyng/Cllr Cai Larsen	Cyngor Gwynedd (Cynghorydd)
Ifor Williams	Cymdeithas Ddinesig Civic Society
Cyng/Cllr Dewi Jones	Cyngor Gwynedd (Cynghorydd)
Sion Wyn Evans	Cyngor Tref Caernarfon
Andy Teasdale	Oriel y Castell, Cei Llechi
Rhian George	Cyngor Gwynedd
Arwel Williams	Llywodraeth Cymru
Hywel Trewyn	HWB Caernarfon
Rhiannon James	Cymdeithas Ddinesig Civic Society
Sian Tomos	Gisda
Steffan Thomas	Galeri
Cyng/Cllr Ioan Thomas	Cyngor Gwynedd (Cynghorydd)
Llyr Jones	Cyngor Gwynedd
David O'Neill	Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon
Nia Arfon	Menter Môn
Beth Horrocks	Oriel Beth Horrocks, Cei Llechi
Ellen Thirsk	Antur Waunfawr
Iwan ap Trefor	Cyngor Gwynedd
Menna Machreth	Llety Arall

Menna Machreth	Cyngor Gwynedd
Stephen Greig	Rheilffordd Ffestiniog
Cyng/CIr Nia Jeffreys	Cyngor Gwynedd (Cynghorydd)
Bob Lowe	Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon
Sian Griffiths	Cyngor Gwynedd
Mirain Roberts	Cyngor Gwynedd
Esyllt Rhys Jones	Cyngor Gwynedd
Anna Jane	Cyngor Tref Caernarfon
Steffan Jones	Cyngor Gwynedd
Philip Abraham	Cadw Cymru
Judith Alfrey	Cadw Cymru

Atodiad 3

Dulliau Cyflawni Posib

Tabl A1 – Dulliau Cyflawni Posib

Dull	Disgrifiad
Dan Arweiniad y Sector Preifat/Wedi'i Ariannu gan y Sector Preifat	Bydd hyn yn digwydd lle mae gwaith datblygu'n ddichonadwy'n ariannol, lle mae datblygwyr yn barod ac mae hyder gan y farchnad mewn galw a photensial ar gyfer twf rhenti. Gallai mewnbyn y sector cyhoeddus ganolbwyntio'n fwy ar feithrin hyder y farchnad drwy ymgysylltiad cadarnhaol gan swyddogion cynllunio a datblygu economaidd, i sicrhau cyflwyno hwylus y cyfuniad perthnasol o eiddo.
Datblygu Defnydd Cymysg i groesgyllido Defnydd Llai Dichonadwy	Yn ymateb i wllch dichonoldeb posib, ond dim ymyriad uniongyrchol gan y sector cyhoeddus. Yn hytrach, dylai swyddogion y cyngor a'r datblygwr drafod cyfuniad datblygu addas sy'n cynnwys elfen gref o ddefnydd gwerth uwch i wrthbwysu'r bwllch. Nid yw hyn yn golygu cartrefi'n awtomatig ond gallai gynnwys defnydd manwerthu neu hamdden, yn briodol i'r lleoliad, a allai hefyd wella gwerthoedd. Mae tafarndai/bwytai, campfa neu westy'n enghreifftiau o'r fath o ddefnydd sy'n gallu creu incwm rhesymol i ddatblygwyr ac sy'n gallu gwella cynnig a natur ddeniadol cynllun posib. Byddai'n rhaid i'r cyngor sicrhau y byddai elfennau craidd ag angen cymunedol sylweddol ond sy'n llai deniadol yn ariannol yn cael eu cyflwyno yn hytrach na'r elfennau mwyaf dichonadwy. Gellid cyflawni hy drwy amodau cynllunio a amlinellir ar adeg cymeradwyo. Dylid annog i safleoedd ailddatblygu yng Nghaernarfon gynnwys cyfuniad o fathau o ddefnydd fel y bo'n briodol, i gynyddu amrywiaeth y defnydd yng nghanol y dref a sicrhau gweithredu blaenau siopau.
Cefnogaeth gyhoeddus lefel isel Cyngor ymarferol	Nid yw cymorth y sector cyhoeddus bob amser yn golygu buddsoddiad ar raddfa fawr. Weithiau, yn syml iawn gall tir perchennog tir fod yn ymwybodol o botensial llawn ei safle, lefel galw ar y farchnad neu sut y gellir goresgyn cyfyngiadau safle. Ymagwedd sy'n gynyddol gyffredin yw i awdurdodau lleol gymryd rhai o'r costau ymchwil gychwynnol, gan lunio briff cynllunio neu uwchgynllun er enghraifft i ddangos y perchennog/datblygwr beth sy'n bosib a dangos datblygu prydlon. Gallai cymorth ar y safle a marchnata'r ardal fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn gam cyntaf wrth ddarparu'r cymorth hwn, gyda'r broses yn amlinellu cyfleoedd posib ar gyfer buddsoddiad ac ardaloedd lle gellir ymyrryd. Fodd bynnag, gallai cymorth lefel isel i Gaernarfon fod yn rôl gyfeirio i helpu busnesau ddeall cyfleoedd cyllido a diddordeb mewn buddsoddi yn y dref neu gysylltu landlordiaid gyda meddianwyr posib.
Cefnogaeth gyhoeddus lefel ganolig Datblygu sy'n lliniaru risgiau	Gallai'r sector cyhoeddus fynd ymhellach i liniaru risgiau datblygu masnachol drwy, er enghraifft, gyfeirio gwaith cyflwyno seilwaith a/neu waith gwella safleoedd. Gallai hyn gynnwys lliniaru amgylcheddol, draenio gwell a/neu welliannau priffordd ar y safle ac oddi yno a allai fel arall effeithio ar ddichonoldeb datblygu mewn ffordd wael. Gallai cymorth rhagweithiol hefyd fod yn ofynnol er mwyn sicrhau bod seilwaith a gwasanaethau strategol ar gael, gan gynnwys ynni a thrin gwastraff. I ganol tref Caernarfon, gallai hyn gynnwys gwelliannau i fannau cyhoeddus yn ehangach a chynlluniau pwynt mynediad sy'n gwella amwynder cyffredinol canol y dref. Dylai hyn weithredu fel catalydd ar gyfer datblygu pellach yn y sector preifat.
Cymorth Cynllunio a	Yn aml, ystyrir defnydd mwy o Orchmynion Datblygu Lleol fel ffordd o ddatgloi potensial datblygu a datrys risgiau/rhwystrau posib. Drwy ddatblygu

Dull	Disgrifiad
Gorchmynion Datblygu Lleol	caniatâd cynllunio yn y ffordd hon, gall helpu i gyflymu'r broses o gyflwyno datblygiad mewn ymateb i alw gan fuddsoddwyr/meddianwyr. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gorchmynion hyn ar waith, os na fydd cynnig yn cyd-fynd ag anghenion/disgwyliadau'r farchnad, efallai na chaiff ei ddatblygu fel a fwriedir.
Caffael Tir y Sector Cyhoeddus	<p>Gyda'r ymagwedd hon, y sector cyhoeddus fydd yn cymryd yr awenau wrth gaffael safleoedd datblygu allweddol, gan gymryd ymagwedd fwy rhagweithiol at gyflwyno datblygiad naill nai fel darparwr uniongyrchol neu mewn partneriaeth ag eraill. Pan fydd y tir wedi'i gaffael, mae gan y sector cyhoeddus reolaeth uniongyrchol dros y gwaith ailddatblygu a gallai ddewis i'w ddatblygu eu hunain, ymrwymo i drefniant partneriaeth neu werthu'r safle ar yr amod y caiff ei ddatblygu o fewn paramedrau ac amserlenni penodol.</p> <p>Gall hyn helpu i gyflymu amserlenni datblygu ar gyfer ardaloedd allweddol, yn hytrach na chael eu gadael i'r farchnad breifat.</p>
Cytundeb Menter ar y Cyd	<p>Cytundeb diffiniedig rhwng asiantaethau'r sector cyhoeddus a phartneriaid sy'n ddatblygwyr preifat. Caiff hyn ei ddefnyddio amlaf pan fydd y tir dan berchnogaeth y sector cyhoeddus, o leiaf yn rhannol. Yna, gall y sector cyhoeddus gefnogi gwaith datblygu drwy gynnig y tir ar werth isel neu dim gwerth neu drwy geisio cyllid seilwaith.</p> <p>Gall partneriaeth menter ar y cyd o'r fath gymryd sawl ffurf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Partneriaeth Contractiol – Trefniant tymor byr fel arfer lle mae'r partiön yn ymrwymo i drefniant contractiol lle mae un parti, fel arfer y datblygwr, yw'r un sy'n cyflwyno'r prosiect. Byddai'n berthnasol i'r datblygiadau mwyaf syml. • Cyd-fenter drwy greu cwmni cyfyngedig a grëir drwy ddyrannu rhandaliadau - Trefniant cyffredinol lle bydd pob parti yn cyfrannu elfen o'r gost a'r risg, ac mae'r elw'n adlewyrchu'r rhandaliad. Gallai'r cyngor gyfrannu tir a/neu gyfalaf, a bydd y datblygwr yn talu'r costau datblygu'n aml. Gallai'r trefniant arwain at ddyrannu elw mewn ffyrdd gwahanol. Gallai hyn fod yn rhan o'r refeniw, neu ran o werthiant y buddsoddiad. Bydd y parti sy'n cymryd y lefel uwch o risg fel arfer yn cael y dewis cyntaf ar yr elw. • Cwmni cyfyngedig drwy warant – yn tueddu i fod ar gyfer trefniadau nid-er-elw a gellir cyflwyno nifer o bartneriaid at y cwmni. Mae'r trefniant hwn yn fwy tebygol o fod yn addas i farchnata a hyrwyddo cynlluniau adfywio yn hytrach na Chyd-fenter i gyflwyno gwaith datblygu. <p>Gallai ymagwedd cyd-fenter fod yn opsiwn realistig ar gyfer ailddatblygu'r maes parcio aml-lawr yn Pool Side neu adfywio Doc Fictoria.</p>
Cymorth y Sector Cyhoeddus – Benthyciadau a Chyllid Llenwi Bwlch	<p>Gellir cyflwyno amrywiaeth o opsiynau cyllido gan y sector cyhoeddus i'r prosiect i helpu i bontio bylchau cyllido. Mewn blynyddoedd diweddar, mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cefnogi prosiectau datblygu mewn canol trefi, gan gynnwys Trawsnewid Trefi, Ffyniant Bro a chronfeydd Bargen Drefol.</p> <p>Dylai Cyngor Gwynedd barhau i weithredu fel canolbwynt ar gyfer ceisiadau cyllido pellach gan y sector cyhoeddus yn ogystal â chael rôl gyllido ei hun lle bo'n briodol.</p>
Cymorth y Sector Cyhoeddus – Gwarant Rhenti	Gallai ymagwedd gymorth uniongyrchol arall fod drwy warantiadau rhenti, naill ai drwy drothwyon rhenti sylfaenol neu le mae corff cyhoeddus (awdurdod lleol neu asiantaeth lywodraethol) yn ymrwymo i drefniant "prif




Dull	Disgrifiad
	<p>brydles” yn y tymor hir gyda’r datblygwr yn helpu i sicrhau cyllid a’r corff cyllido yna’n “isosod” i feddiannwyr busnes y dyfodol. Yn fwyfwy, mae hwn yn ddull cyflwyno stoc bellach o swyddfeydd mewn ardaloedd lle mae angen sefydledig, ond lle mae costau adeiladu’n tynnu buddsoddiad datblygwr.</p> <p>Gallai hon fod yn ymagwedd sy’n cael ei dilyn er mwyn amrywio swyddogaethau economaidd canol tref Caernarfon, drwy ddenu mwy o fannau gweithio i ganol y dref, gan gynnwys swyddfeydd ac unedau creadigol ar radd fach. Byddai'r Cyngor yn cynnig gwarant ar y rhent, a thrwy hynny, yn annog buddsoddiad mewn prosiectau na fyddant yn ddichonadwy fel arall.</p>
Diddordeb prydlles hir a Rhent Blwydd-dal	<p>Mae hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio’n gynyddol i gefnogi buddsoddiadau drwy gronfeydd pensiwn a sefydliadau ariannol mawr eraill i ddatblygiadau. Bydd y sefydliad yn cyllido'r datblygiad mewn cyfnewid am brydles o tua 35 o flynyddoedd a rhent blwydd-dal a delir gan gyfamod diogel, megis y cyngor yn gweithredu fel datblygwr. Byddai hyn yn rhent isel ond diogel dros gyfnod o amser gydag ymgodiadau y cytunwyd arnynt. Yna, gall y datblygwr isosod ar werth marchnad i gael rhent proffidiol. Ar ddiwedd y 35 mlynedd, bydd yr eiddo yn dychwelyd i'r datblygwr am £1 ac mae'r datblygwr yn cadw gwerth yr ased yn y tymor hir.</p>
Datblygu uniongyrchol gan y sector cyhoeddus	<p>Yn y pen draw, pan fydd cynlluniau ymyrryd meddwl fel a amlinellwyd uchod yn methu o hyd i annog datblygiad yn y sector preifat, yr opsiwn sy’n weddill yw i'r sector cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb llawn am hap-ddatblygu eiddo. Golyga hyn fod y corff cyhoeddus yn cymryd y risg ariannol a’r risg farchnad llawn cyn sicrhau tenant masnachol neu werthiant rhydd-ddaliadol ar gyfer yr eiddo a gwblhawyd. Gall y sector cyhoeddus sicrhau cyllid ar gyfraddau sy’n gystadleuol iawn drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a gohirio ad-daliadau dros oes yr ased wedi'i gwblhau (40 i 50 mlynedd o bosib).</p>




Ffynhonnell: BE Group, 2023




Atodiad 4

Eiddo Gwag

Tabl A2 – Ymyriadau Eiddo Gwag Posib



Eiddo/Lleoliad	Materion Allweddol	Gwerth/Statws	Perchnogaeth/Asiantiaid	Gweithrediadau
<p>Corr Mae ar Stryd y Llyn/y</p> 	<p>Adeilad Gwag Amlwg sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd gan GISDA.</p>		<p>GISDA</p>	<p>Dim gweithredu</p>
<p>1-3 Stryd y Llyn – hen KFC</p> 	<p>Eiddo gyda blaen dwbl sylweddol yn agor i'r gornel â'r Maes – presenoldeb ffisegol amlwg.</p> <p>Mae KFC yn ddeiliaid o hyd dros y brif brydles gyda'r landlord a gallai aros yn wag am 12 mis nes y bydd yn penderfynu gwerthu.</p>	<p>Is-les tan Chwefror 2024 Rhent £22,000 y flwyddyn</p> <p>£13.27/Troedfedd sgwâr yn seiliedig ar GF Retail (1,696 troedfedd sgwâr)</p> <p>Cyfanswm yr wyneb 3,437 troedfedd sgwâr, gan gynnwys islawr a'r llawr cyntaf</p>	<p>BA Commercial Chester 01244 351212</p> <p>Brookglen Limited perchnogaeth Sir Renfrew – Property Development Co.</p> <p>Hysbysiad Tŷr Cwmni oedd Mawrth 2023 i ddileu'r cwmni oddi ar y gofrestr</p>	<p>Archwilio ffyrdd o wella golwg allanol a mathau o ddefnydd dros dro gan fod y rhent wedi'i dalu.</p>
<p>22-24 Stryd y Llyn – hen Superdrug</p> 	<p>Blaen manwerthu eang, bwch anarferol yn y lloriau uchaf sy'n effeithio ar gynllun y stryd.</p> <p>Lloriau uwch wedi'u defnyddio fel storfa</p>	<p>Manwerthu'r llawr gwaelod 1,150 troedfedd sgwâr</p> <p>£12,000 y flwyddyn o rent</p> <p>£10.43 psf</p>	<p>Swyddfa Bangor Dafydd Hardy 01286 676760</p> <p>Triland Properties Ltd Edgware</p>	<p>Ddim yn flaenoriaeth</p>

Eiddo/Lleoliad	Materion Allweddol	Gwerth/Statws	Perchnogaeth/Asiantiaid	Gweithrediadau
<p>14 Yretcher</p> 	<p>Safle amlwg Gradd II rhestredig 5 llawr</p> <p>Mae'n ymddangos nad yw'r lloiau uchaf wedi'u defnyddio – gyda photensial mawr i'w defnyddio fel lle preswyl.</p>	<p>Gwerthiant diweddar</p>	<p>Dafydd Hardy 12 Y Maes Caernarfon 01286 676760</p> <p>SACHA Corporation Ltd Methdal – 2022</p>	<p>Archwilio bwriadau'r perchennog newydd pan fydd wedi'i derfynu.</p>
<p>62 Stryd y Llyn</p> 	<p>Eiddo unigryw mewn cyflwr allanol da</p> <p>Sgôr EPC o F – yn is na'r sylfaenol angenrheidiol o Ebrill 2023.</p>	<p>Ar werth £100,000</p> <p>Manwerthu llawr gwaelod 440 troedfedd² gyda fflat 2 ystafell wely sy'n fwy na 600 troedfedd²</p>	<p>Dafydd Hardy 01286 676760</p>	<p>Ddim yn hanfodol</p>
<p>Cornel Stryd y Bont</p> 	<p>Adeilad sylweddol ac amlwg â golwg gwael yng nghynllun y stryd ond sy'n cynnig lle manwerthu llawr gwaelod a fflat 3 ystafell wely ar draws y tri llawr uchod.</p> <p>Sgôr EPC o F – yn is na'r sylfaenol angenrheidiol o Ebrill 2023.</p>	<p>Ar werth £125,000</p> <p>Lle manwerthu'r llawr gwaelod 344 troedfedd²</p>	<p>Williams & Goodwin 01286 290 006</p> <p>https://tppuk.com/property/caernarfon-gwynedd/</p> <p>MRANDMRSGHANIPRO PERTIES LTD Rochdale</p> <p>Cwmni anweithredol</p>	<p>Blaenoriaeth gweithredi gan gofio amlygrwydd y safle.</p> <p>Potensial Cyngor i'r ei gaffael.</p>

Eiddo/Lleoliad	Materion Allweddol	Gwerth/Statws	Perchnogaeth/Asiantiaid	Gweithrediadau
<p>Blaen 9 Stryd y Bont</p>  <p>Golwg cefn</p> 	<p>Uned un llawr anghyson sy'n lleihau cymeriad eiddo cyfagos.</p> <p>Potensial i chwalu a chreu golwg cryf o'r Castell drwy'r cefn.</p> <p>Mae'r eiddo ar y twnel drwy Stryd y Goron</p> 	<p>Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o werthu'r adeilad ar hyn o bryd.</p>		<p>Gweithio gyda'r perchnogion newydd i sicrhau y caiff yr uned ei hactifadu.</p>

Eiddo/Lleoliad	Materion Allweddol	Gwerth/Statws	Perchnogaeth/Asiantiaid	Gweithrediadau
<p>3 Penllyn</p> 	<p>Adeilad pedwar llawr amlwg gyda llawr gwaelod sy'n wag.</p> <p>Adeilad Gronant – 6 fflat?</p> <p>Cyflwyniad ac effaith wael ar gynllun y stryd</p>		Perchnogaeth Breifat	Gellir gwella'r golwg allanol fel rhan o weithiau porth
<p>33-35 Stryd y Bont</p> 	Adeilad gwag amlwg nad yw'n cael ei farchnata'n amlwg.	Perchnogaeth i'w gwirio	Orchid Fashion Company Ltd Caernarfon	Busnes lleol – archwilio ailddefnyddio
<p>22 Stryd Bangor</p> 	<p>Uned wag mewn cyfres o adeiladau wedi'u meddiannu gyda blaenau dymunol fel arall</p> <p>Sgôr EPC o D yn is na'r sylfaenol angenrheidiol o Ebrill 2023.</p>	<p>Methwyd ei werthu mewn Arwerthiant Rhagfyr 22</p> <p>Pris cadw £49,000</p> <p>1,228 ft²</p>	<p>Daffydd Hardy Auctions</p> <p>Perchnogaeth Breifat</p>	Archwilio pryniant posib gan Galeri

Eiddo/Lleoliad	Materion Allweddol	Gwerth/Statws	Perchnogaeth/Asiantiaid	Gweithrediadau
<p>5-7 Stryd Bangor – yr hen Barclays Bank</p> 	<p>Wedi'i werthu mewn arwerthiant am £182,000 yn 2018</p> <p>Prydles gyda Barclays Bank i redeg o Fehefin 2028 am £11,700 y flwyddyn</p> <p>Swyddfeydd ar y Llawr Uchaf a brydleswyd am 5 mlynedd o Fawrth 2020 i 2025 am £3,400 y flwyddyn</p> <p>Sgôr EPC o D yn is na'r sylfaenol angenrheidiol o Ebrill 2023.</p>	<p>Cynnig i'w rhenti am £12,000 y flwyddyn Wyneb llawr gwaelod o 1,065 ft² Gwerth rhent £11.27 psf</p> <p>Wyneb gros 3,610 ft² Swyddfeydd uwchben a chyfleusterau islawr</p>	<p>Daffydd Hardy 01286 676760</p> <p>https://www.loopnet.co.uk/Listing/5-7-Bangor-St-Caernarfon/26066380/</p> <p>Treebond Limited Herts</p> <p>Cwmni Eiddo</p>	<p>Yn anhebygol o newid cyn i'r brydles ddod i ben</p> <p>Archwilio gwaith posib ar hyb/lle swyddfa fach</p>
<p>Adeiladau'r Goron</p> 	<p>Mae hen swyddfeydd Llywodraeth Cymru bellach yn wag, gan gynnwys 41,173 ft² ar 5 llawr</p> <p>Eiddo amlwg iawn sy'n heriol i'w addasu at ddiben gwahanol</p> <p>Galw cyfyngedig am swyddfeydd ar y raddfa hon O bosib defnydd Sefydliadol / Addysg</p> <p>Deallwn fod cynigion cyfrinachol i'w aildefnyddio dan ystyriaeth.</p>	<p>Roedd ar werth am £1 miliwn</p> <p>Gwerth Cyfalaf £24.29 psf</p>	<p>Avison Young</p> <p>https://www.rightmove.co.uk/properties/127377311#/?channel=COM_BUY</p>	<p>Trafod ymhellach â'r Cyngor</p>
<p>Yr Hen Lys</p>	<p>Wedi'i gaffael gan y gerddores Moira Hartley Yn 2018, cafodd ei droi'n neuadd cyngherddau, priodasau a lle ciniawa yn agor yn 2020.</p> <p>Adeilad o bwys/effeithiol iawn ym muriau'r dref.</p> <p>Cafodd ei ddefnyddio'n rhannol fel</p>	<p>Yn ceisio cynigion ar gyfer gweithrediad y busnes a llety.</p> <p>Sgôr EPC o D yn is na'r sylfaenol angenrheidiol o Ebrill 2023.</p>	<p>Ernest Wilson & Co, Leeds 0113 519 5901</p> <p>Perchnogaeth Breifat</p> <p>https://www.ernest-wilson.co.uk/search-</p>	<p>Y Cyngor i gefnogi defnydd/gweithgaredd o safon a denu gweithredwr posib</p>

Eiddo/Lleoliad	Materion Allweddol	Gwerth/Statws	Perchnogaeth/Asiantiaid	Gweithrediadau
	<p>Bistro. Llawr cyntaf ac ail lawr 1,500 ft² gyda chaniatâd ar gyfer defnydd preswyl.</p>		<p>results/all-subsectors-for-sale-Gwynedd</p>	
<p>Copa Bar a Chlwb Nos</p> 	<p>Cyfanswm wyneb o 17,220 troedfedd sgwâr Prydles 15 mlynedd o hyd Mai 2016 – 2031 (8 mlynedd yn weddill) £45,000 = £2.61 psf Bar llawr gwaelod 4,305 ft = £10.45 psf</p>	<p>Gwerthiant Buddsoddiad £425,000 - £450,000 Arenillion 10.59%</p> <p>Rhent presennol o £45,000 i £60,000 2026</p>	<p>Methwyd ei werthu mewn Arwerthiant Mawrth 2023</p> <p>Wedi'i berchen gan York Design & Construction Ltd (Pont Menai)</p> <p>Gareth & Christine Cleaver</p>	<p>Dylai llog prydles barhau i fod yn weithredol.</p> <p>Gweithio gyda'r perchnogion i ddeall y cynlluniau yn dilyn yr arwerthiant.</p>

Ffynhonnell: PER Consulting, 2023